Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 78/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2026

# Adolygiad pum mlynedd o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-054-8

Adolygiad pum mlynedd o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Adroddiad Ymchwil Llawn: Harries, S., Lewis, S., Thomas, H., Lane, J. and Williams, A. (2026). Adolygiad pum mlynedd o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 78/2026.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8099

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

# Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ... 2
Rhestr o ffigurau ... 3
Rhestr o dermau ... 4
1. Cyflwyniad ... 7
2. Cefndir ... 8
3. Methodoleg ... 10
4. Canfyddiadau ... 21
4.1. Yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ... 21
4.2. Dyletswyddau a sut y darperir DDdY cyfrwng Cymraeg ... 30
4.3. Y gweithlu a DDdY cyfrwng Cymraeg ... 42
4.4. Adnoddau a DDdY cyfrwng Cymraeg ... 57
4.5. Dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol ... 63
4.6. Profiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr o DDdY cyfrwng Cymraeg ... 65
4.7. Y cynnydd a wnaed a'r heriau sy'n parhau ... 70
5. Casgliadau ... 77
Atodiad 1: Cwestiynau ymchwil ... 89
Atodiad 2: Tablau data ychwanegol ... 92
Atodiad 3: Offer Ymchwil ... 94

## Rhestr o dablau

Tabl 1. Nifer yr ALlau sy'n cadw data'n ganolog sy'n ymwneud â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn y ddarpariaeth .............................. 27
Tabl 2. CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn ôl categori staff 2024/25 ..................................................................... 43
Tabl 3. Gallu CADYau o ran y Gymraeg ym mhob ysgol........................................ 44
Tabl 4. Gallu staff cymorth ADY yn y Gymraeg ...................................................... 45
Tabl 5. Digonolrwydd staff ADY arbenigol sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg: ymatebion i'r cwestiwn "Ydy'r nifer o staff ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr?" ..... 47
Tabl 6. Heriau recriwtio a chadw staff ADY arbenigol sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebion i'r cwestiwn: "A yw'n arbennig o anodd recriwtio a/neu gadw aelodau staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?" ........................................................................................ 51
Tabl 7. Ymatebion yr ALl i'r cwestiwn "Nodwch yn y tabl isod a oes gennych fynediad at ddigon o adnoddau dysgu priodol (digidol neu nad ydynt yn ddigidol) yn Gymraeg yn eich ALl i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg". ........................................................................................ 59
Tabl 8: Ymarferoldeb darparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt (barn yr ALl) ........................................................................................ 75
Tabl A1. Adroddiadau ar anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion cynradd, pob oed (3 i 16/18 oed) ac uwchradd yn ôl sector, cyfrwng Cymraeg/Saesneg, a'r math o angen, Ionawr 2024 ...... 93

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Canran y dysgwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed prif ffrwd a gynhelir (3 i 16/18 oed) yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf neu ail iaith a oedd ag ADY/AAA, yn ôl ALI 2025 ............................ 23

Ffigur 2. Canran y dysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu mewn darpariaeth AB, prentisiaeth a dysgu cymunedol 2016/17 i 2024/25 ......... 25

## Rhestr o dermau

**AB**

Addysg Bellach

**ADHD**

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**AHY**

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**ALl**

Awdurdod Lleol

**ASD**

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

**BILl**

Bwrdd Iechyd Lleol

**CA**

Cynorthwy-ydd Addysgu

**CAA**

Canolfan Adnoddau Arbenigol (term a ddefnyddir i gyfeirio at ddosbarthiadau arbenigol ADY yr AALl mewn lleoliadau prif ffrwd)

**CADY**

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CALU**

Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch

**CAMHS**

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

**Carfan Swyddogion Arweiniol ADY**

Plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir

**CBGY**

Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

**CCAC**

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

**CDU**

Cynllun Datblygu Unigol

**CYDAG**

Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg

**CYBLD**

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

**DDdY**

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

**Dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd**

Nid oes diffiniad swyddogol o ddosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd, fodd bynnag, disgrifiwyd y rhain gan randdeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn fel mannau pwrpasol o fewn ysgolion, i ddarparu ymyriadau a ariennir drwy gyllidebau a ddirprwyir i ysgolion.

**GIG**

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**LLWR**

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

**RNIB**

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

**SAB**

Sefydliad Addysg Bellach

**SACDA**

Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg

**Swyddog Arweiniol ADY**

Swyddog arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol (blynyddoedd cynnar)

**UCD**

Uned Cyfeirio Disgyblion

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Ymchwil Arad i gynnal yr Adolygiad Pum Mlynedd cyntaf o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) Cyfrwng Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ar draws y system addysg gyfan.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Ym Mhennod 2, amlinellir y cyd-destun polisi sy'n sail i'r dyletswyddau a roddwyd ar Lywodraeth Cymru, ALlau a darparwyr addysg i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg a chyflwynir amcanion yr adolygiad.
- Mae Pennod 3 yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd
- Ym Mhennod 4, cyflwynir canfyddiadau'r adolygiad
- Ym Mhennod 5, cyflwynir ein casgliadau a'n hargymhellion.

## 2. Cefndir

Mae'r diwygiadau'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac yn anelu at gefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru sydd ag ADY. Cafodd y fframwaith deddfwriaethol ADY presennol ei greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY). Cafodd y broses o weithredu'r system ADY ei chyflwyno'n raddol dros gyfnod o 4 blynedd o fis Medi 2021 tan fis Awst 2025.

Mae'r Ddeddf ADY yn cyflwyno'r diffiniadau statudol o ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ac yn nodi'r gofyniad i bob dysgwr ag ADY gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Yn 2023, comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithrediad y system ADY. Hyd yn hyn, cyhoeddwyd cyfres o adroddiadau yn deillio o'r gwerthusiad, gan gynnwys:

- Adroddiad cwmpasu, sy'n cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad, yn ogystal â'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer y camau sy'n weddill, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023;
- Adroddiad yn seiliedig ar arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025;
- Adroddiad yn seiliedig ar arolwg o rieni a gofalwyr a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025; ac
- Adroddiad astudiaethau ardal, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026, yn seiliedig ar ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), lleoliadau blynyddoedd cynnar, SABau, ALlau a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), yn ogystal â dysgwyr ag ADY a rhieni/gofalwyr dysgwyr ag ADY.

### Y Ddeddf ADY a DDdY yng Nghymru

Un o brif nodweddion diwygio'r system ADY yw'r ymrwymiad i ddarparu system ADY ddwyieithog a sicrhau bod dysgwyr y mae angen DDdY yn y Gymraeg arnynt yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth honno. Mae'r Ddeddf ADY yn gosod dyletswyddau clir ar ALlau, ysgolion, SABau a BILlau i ystyried a ddylid darparu DDdY dysgwr yn y Gymraeg a, lle y bo'n briodol, i nodi hynny yn eu CDU. Mae'r Ddeddf ADY yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn gymryd "pob cam rhesymol" i sicrhau DDdY cyfrwng Cymraeg, ond nid yw hyn wedi'i ddiffinio'n benodol. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gryfhau'r dyletswyddau hyn yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o'u gwneud yn ddyletswyddau absoliwt yn hytrach nag amodol.

Mae datblygu system ADY ddwyieithog yn rhan o gyd-destun polisi cenedlaethol ehangach sy'n anelu at ehangu a chryfhau addysg cyfrwng Cymraeg. Mae

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlinellu sut y mae ALlau yn bwriadu cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd, ac mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ymrwymiadau sy'n ymwneud yn benodol ag ADY drwy eu ffocws ar wella mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg. Felly, mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth ynghylch sut y mae ALlau yn cynllunio ar gyfer digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg ar lefel strategol. Fodd bynnag, gan eu bod yn ddogfennau cynllunio lefel uchel, maent yn rhoi mwy o wybodaeth am fwriad a chapasiti'r system nag am brofiadau dysgwyr unigol neu ddigonolrwydd DDdY yn ymarferol.

Yn ogystal â hynny, mae Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn amlinellu strategaethau hirdymor i gynyddu nifer yr athrawon a'r ymarferwyr arbenigol sy'n medru'r Gymraeg. Yn benodol, mae'r cynllun yn amlinellu'r amcan i "[d]datblygu gallu ac arbenigedd i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg". Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn atgyfnerthu ymhellach yr angen am ddulliau systematig a chenedlaethol o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yng Nghynllun mwy na geiriau 2022-2027, tynnir sylw at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori'r Gymraeg ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol heb orfod gofyn amdano, gan adlewyrchu'r egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n rhagweithiol yn y Gymraeg yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddwyr i ofyn amdanynt.

### Diffinio DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae Adran 3 o'r Ddeddf ADY yn diffinio DDdY i berson sy'n dair oed neu'n hŷn fel darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran:

(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector AB yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin[Troednodyn 1]

Mae hefyd yn nodi bod DDdY i blentyn o dan dair oed yn golygu darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Noda'r Cod ADY yn nodi "mewn rhai achosion, efallai y bydd angen darparu DDdY yn Gymraeg er mwyn iddi fod yn effeithiol, neu mor effeithiol â phosibl. Ceir dyletswyddau amrywiol yn y Ddeddf ar y lefel unigol a'r lefel gynllunio, â'r nod o sicrhau bod DDdY yn cael ei darparu yn Gymraeg lle bynnag y bo modd". Fodd bynnag, nid yw'r Cod ADY yn darparu diffiniad penodol o'r hyn sy'n gyfystyr â DDdY

[1] Mae Deddf ADY yn nodi bod "addysg feithrin" yn y cyd-destun hwn yn golygu addysg sy'n addas ar gyfer plentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan oedran ysgol gorfodol.

cyfrwng Cymraeg. Yn ymarferol, mae adrannau 2B.3 a 2C.3 mewn CDU plentyn neu berson ifanc yn cadarnhau a “ddylid” darparu’r DDdY yn y Gymraeg. Ni chaiff yr ymatebion a gofnodir mewn CDUau eu casglu na'u cyhoeddi ar lefel genedlaethol, felly nid oes unrhyw ddata ar gael a fyddai'n golygu bod modd dadansoddi sut y mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei phennu na'i darparu. At hynny, gall CDUau unigol gynnwys sawl eitem o DDdY, gyda dim ond rhai o'r rhain wedi'u nodi fel rhai y dylid eu darparu yn y Gymraeg.

**Adolygiad Pum Mlynedd**

O dan Adran 89 o'r Ddeddf ADY, mae'n ofyniad statudol bod Gweinidogion Cymru yn cynnal adolygiad cenedlaethol o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg bob pum mlynedd. Nid yw'r gair "digonolrwydd" wedi'i ddiffinio'n benodol yn y Ddeddf ADY ac, o'r herwydd, mae'n gymhleth ac yn anodd ei fesur. Fodd bynnag, nod yr adolygiad hwn o ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg yw meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r lefel bresennol o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg drwy asesu sut y mae'r darpariaethau yn y Ddeddf ADY yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'n archwilio'r prosesau sy'n gysylltiedig â deall a chymhwyso'r dyletswyddau hyn ac i ba raddau y mae anghenion ieithyddol dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u cofnodi'n briodol. Mae hefyd yn ystyried argaeledd a hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac a all y systemau sydd ar waith, gan gynnwys y gweithlu ac adnoddau eraill, ddarparu'r cymorth y mae gan ddysgwyr yr hawl i'w gael.

Datblygwyd cyfres o gwestiynau ymchwil manwl i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â gwahanol agweddau ar y nodau hyn. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Nid yw asesu ansawdd y DDdY a ddarperir o fewn lleoliadau a chan ALlau a chyrff y GIG o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Felly mae'r dystiolaeth a gyflwynir wedi canolbwyntio ar oblygiadau sefyllfaoedd pan nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael, o ran yr effaith ar brofiadau dysgwyr a theuluoedd.

Mae canfyddiadau’r adolygiad hwn yn adeiladu ar wybodaeth gyhoeddedig, yn enwedig wybodaeth gan Estyn, a’u nod yw arwain gwaith cynllunio hirdymor, amlygu meysydd ble ceir anghysondeb neu angen sydd heb ei ddiwallu a darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol, gan gynnwys a ddylid cryfhau’r dyletswyddau cyfreithiol ynghylch DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn adeiladu ar dystiolaeth flaenorol, gan gynnwys adolygiadau thematig Estyn (2023, 2024) a amlygodd fylchau posibl mewn DDdY cyfrwng Cymraeg a heriau'n ymwneud â'r gweithlu.

## 3. Methodoleg

Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg y gwaith ymchwil.

**Cyfweliadau Cwmpasu**

Ar ddechrau'r adolygiad, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gyda saith unigolyn, yn cynnwys amrywiaeth o swyddogion polisi a rhanddeiliaid i ganfod beth yw'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth gyfredol mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg a'r ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg. Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu hyn gyda'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg), tîm ADY Llywodraeth Cymru (2 gyfweliad), arweinwyr Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg (2 unigolyn), a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Bu'r trafodaethau o gymorth i fireinio cwestiynau ymchwil yr adolygiad ac i adnabod rhanddeiliaid y dylid eu cynnwys fel rhan o'r ymchwil. Yn dilyn y cyfweliadau cwmpasu, cynhyrchwyd adroddiad a oedd yn amlinellu prif ganfyddiadau'r cyfweliadau cwmpasu ac yn cadarnhau'r rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer yr adolygiad.

**Dyluniad yr offeryn ymchwil**

Dyluniwyd offer ymchwil dwyieithog gan Arad gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyntaf, cynlluniwyd profforma i ALlau ei gwblhau. Roedd y profforma yn gofyn am wybodaeth a data'n ymwneud â sawl pwnc gan gynnwys:

- yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg
- y gweithlu presennol ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg
- datblygiad proffesiynol ac adnoddau
- dyletswyddau deddfwriaethol ALlau o dan y Ddeddf ADY a'r Cod ADY
- cynnal adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg
- y cynnydd a wnaed hyd yma

Roedd y profforma yn cynnwys cwestiynau caeedig ac agored. Roedd y canfyddiadau o'r cyfnod cwmpasu yn helpu i sicrhau bod y cwestiynau ar y profforma yn berthnasol, yn ymdrin â bylchau mewn data a gwybodaeth, ac nad oeddent yn dyblygu ffynonellau presennol (megis adroddiadau adolygu blynyddol Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg).

Yn ail, cynlluniwyd set o ganllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau ansoddol a thrafodaethau gyda chynrychiolwyr o ALlau, ysgolion, SABau, Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDAau) a rhanddeiliaid yn ogystal â rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Roedd y canllawiau trafod yn cynnwys amrywiaeth o feysydd trafod gan gynnwys:

- prosesau i nodi a oes angen DDdY yn y Gymraeg

- gweithredu'r ddyletswydd a amlinellir yn Neddf ADY
- safbwyntiau ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth nawr ac yn y dyfodol
- rhwystrau a bylchau yn y ddarpariaeth
- trefniadau pontio rhwng lleoliadau

Yn olaf, paratowyd taflenni gwybodaeth a'u hanfon at ysgolion dethol. Y bwriad oedd i ysgolion ddosbarthu'r rhain i rieni/gofalwyr a dysgwyr i'w hysbysu am yr astudiaeth a rhoi cyfle iddynt fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr adolygiad.

Mae'r holl offer ymchwil wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 yn yr adroddiad hwn.

**Sampl, recriwtio a gwaith maes**

Cwblhawyd sawl elfen o waith maes ar gyfer yr adolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dosbarthu'r profforma i ALlau
- cyfweliadau â chynrychiolwyr yr ALl
- cyfweliadau gyda phartneriaid cyflawni a gweithwyr proffesiynol eraill
- cyfweliadau/ymweliadau ag ysgolion
- cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- cyfweliadau gyda rhieni/gofalwyr
- trafodaethau grŵp gyda dysgwyr

**Awdurdodau Lleol (ALlau)**

Dosbarthwyd y profforma dwyieithog gan Lywodraeth Cymru i swyddogion ym mhob un o'r 22 ALl gan ddilyn dull y cytunwyd arno rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC). Gwahoddwyd y derbynyddion i gael mynediad at y profforma a'i gwblhau drwy blatfform ar-lein diogel (Objective Connect). Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno'r ffurflen oedd 9 Ionawr 2026.

Anogwyd ALlau i lenwi'r ffurflen ar y cyd ac i fanteisio ar arbenigedd y rhai sy'n gweithio ar draws ystod o feysydd gwasanaeth megis rheoli data, cynhwysiant, y Gymraeg ac addysg. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyfrannodd nifer o gynrychiolwyr ALlau at gwblhau'r profforma gan gynnwys rheolwyr gwasanaethau cynhwysiant, arweinwyr ADY, Seicolegwyr Addysg, ac Athrawon Arbenigol (ar gyfer lleferydd, amhariad ar y synhwyrau).

Roedd y nifer a gyfrannodd at y broses o gwblhau'r profforma yn amrywio ar draws ALlau. Mewn rhai achosion, nid oedd y manylion cyswllt gwreiddiol ar gyfer

swyddogion yr ALl yn gyfredol, gan achosi oedi cyn i'r ALl allu cael mynediad at y profforma. O ganlyniad, gwnaed gwaith dilynol ychwanegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r tîm ymchwil yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2026 i gadarnhau manylion cyswllt ac ailrannu manylion mynediad. Roedd hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol â Chyfarwyddwyr Addysg a swyddogion perthnasol lle nad oedd ymatebion wedi dod i law. Cynigiodd y tîm ymchwil gymorth hyblyg hefyd, gan gynnwys cwblhau adrannau o'r profforma ar y cyd drwy alwadau gyda swyddogion, a chwblhawyd sawl profforma yn y modd hwn ochr yn ochr â chyfweliadau dilynol.

Arhosodd y profforma ar agor y tu hwnt i'r dyddiad cau gwreiddiol ac roedd ar gael o fis Rhagfyr 2025 tan ganol y mis Mawrth 2026. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r ymatebion rhwng canol mis Ionawr a diwedd mis Chwefror 2026. Cwblhaodd pob un o'r 22 ALl y profforma [Troednodyn 2].

Gofynnodd y profforma i'r rhai a oedd yn ei gwblhau ddarparu eu manylion cyswllt os oedd ganddynt ddiddordeb cyfrannu ymhellach at yr ymchwil. Lle gwnaed hynny, anfonwyd gwahoddiadau e-bost at y swyddogion hyn i gyfarfod ar-lein, a chynhaliwyd 12 cyfarfod yn y pen draw. Roedd dau brif bwrpas i'r cyfarfodydd hyn: i nifer bach o ALlau nad oeddent wedi darparu profforma eto, roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar gymorth i gwblhau adrannau o'r profforma ei hun. I eraill, roedd y cyfarfod ar ffurf cyfweliad er mwyn iddynt allu ymhelaethu ar yr ymatebion a roddwyd ar y profforma.

Mewn rhai cyfweliadau, mynychodd un cynrychiolydd ar ran yr ALl, ac mewn cyfweliadau eraill, mynychodd grwpiau bach, yn dibynnu ar yr hyn yr oeddent yn ei ffafrio a'u hargaeledd. Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn cynnwys seicolegwyr addysg, rheolwyr/arweinwyr ADY a swyddogion ADY. Defnyddiwyd y canllaw cyfweld ar gyfer ALlau, adroddiad adolygu blynyddol Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg, a’r profforma a gyflwynwyd fel sail i bob cyfweliad a chafodd y trafodaethau eu recordio i gynhyrchu trawsgrifiadau a fu o gymorth gyda'r dadansoddiad.

[2] Cydweithiodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn fel un gwasanaeth ADY ac felly cyflwynwyd un profforma a oedd yn cwmpasu'r ddau ALl.

**Partneriaid cyflawni a gweithwyr proffesiynol eraill**

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gydag 16 o weithwyr proffesiynol o sefydliadau sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY. Roedd hyn yn cynnwys:

- Pedwar Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn cwmpasu pob un o'r saith BILl yng Nghymru. O blith y rhain, cymerodd dau SACDA ran mewn cyfarfod grŵp a chyfwelwyd â'r ddau arall yn unigol.
- Pum ymarferydd perthynol i iechyd o un BILl
- Pedwar cynrychiolydd o'r Gymdeithas Ysgolion dros Addysg Cymru (CYDAG), a grŵp o Gydlynwyr ADY a gafodd ei gynnull gan CYDAG
- Tri chynrychiolydd o’r Tîm Amhariadau ar y Golwg a'r Clyw

**Ysgolion a SABau**

Cafodd fframwaith samplu ar gyfer ysgolion ei ddatblygu ac fe'i cymeradwywyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Amlinellodd y fframwaith y meini prawf dethol ar gyfer nodi'r 15 lleoliad addysg sy'n rhan o'r astudiaethau achos a gymerodd ran yn yr adolygiad. Dewiswyd y rhain yn bennaf o bedair ardal ALl, a ddewiswyd i sicrhau cynrychiolaeth o ran lleoliad daearyddol, cwmpas ar draws BILlau, nifer y disgyblion ar y gofrestr, canran y dysgwyr ag ADY, a chyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

Dewiswyd un ALl o bob un o'r rhanbarthau canlynol yn wreiddiol, ac yna dewiswyd ein sampl o leoliadau addysg o blith y rheini:

- Un ALl o Ogledd Cymru
- Un ALl o Ganolbarth a Gorllewin Cymru
- Un o'r ALlau a oedd yn cynnwys prif ddinasoedd y de (Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd)
- Un ALl o Gymoedd y De ac ardaloedd nad ydynt yn ddinasoedd

O ran canran y dysgwyr ag ADY / AAA (fel y'i diffinnir gan ddata sydd ar gael ar CYBLD ar gyfer mis Ionawr 2025), ar draws yr ALlau a ddewiswyd roedd gan o leiaf un:

- ganran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ddysgwyr ag ADY
- canran debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol o ddysgwyr ag ADY
- canran is na'r cyfartaledd cenedlaethol o ddysgwyr ag ADY

O ran canran y siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021, dewisodd y tîm ymchwil o leiaf un awdurdod lleol:

- ble mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol
- ble mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Gyda'i gilydd, roedd y pedwar ALI a gymerodd ran yn cyfrif am o leiaf 20% o'r holl ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Roedd proffil yr ALlau a ddewiswyd fel a ganlyn:

| **ALI** | **Nifer y lleoliadau** | **Canran y dysgwyr yn yr ALI ag ADY** | **Canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ALI** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|---|
| ALI1 | 4 | Uwch na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Uwch na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Rhanbarth y gogledd |
| ALI2 | 3 | Is na'r cyfartaledd cenedlaethol | Uwch na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Rhanbarth y canolbarth a'r de-orllewin |
| ALI3 | 1 | Tebyg i'r Cyfartaledd cenedlaethol | Uwch na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Yn ninasoedd y de |
| ALI4 | 3 | Uwch na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Is na'r Cyfartaledd cenedlaethol | Yng nghymoedd y de ac ardaloedd nad ydynt yn ddinasoedd |

Cynlluniwyd y fframwaith samplu i gynnwys un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ym mhob un o'r pedwar ALI uchod, wedi'u dewis o restr o'r holl ysgolion yn yr ardaloedd hyn.

Nid oedd yr holl ysgolion a lleoliadau a ddewiswyd yn ALlau un i bedwar yn gallu cymryd rhan yn yr ymchwil. Yn yr achosion hynny, dewiswyd yr un math o ysgolion neu leoliadau o'r un ALI, er enghraifft, yn ALI3 dewiswyd ysgol uwchradd o ddinas arall yn y de. Lle nad oedd hyn yn bosibl, cymerodd ysgolion o ALlau eraill â nodweddion demograffig-gymdeithasol tebyg ran yn yr ymchwil, sef 5 lleoliad arall o'r tu allan i'r awdurdodau gwreiddiol.

Roedd y sampl terfynol yn cynnwys 16 o leoliadau addysg a oedd yn cynnwys y canlynol:

- pum ysgol gynradd
    - pedair ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ysgol dwy iaith[Troednodyn 3]

[3] Mae ysgolion yr arferwyd eu categoreiddio fel categorïau dwyieithog A, B ac C / dwy ffrwd / trosiannol bellach yn cael eu categoreiddio fel ysgolion Dwy iaith, cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sy'n pontio i'r categorïau hyn. Mae rhagor o fanylion am y categorïau i'w gweld yn y ddogfen Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

- pum ysgol uwchradd
    - pedair ysgol cyfrwng Cymraeg ac un ysgol cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg sylweddol
- dwy UCD
- dwy ysgol arbennig
- dau SAB

Y rhesymeg dros y dull o gynnwys ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwy iaith, ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg sylweddol oedd bod yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn debygol o fod ar ei uchaf yn y lleoliadau hyn.

Cafodd dwy ysgol arbennig eu cynnwys yn y sampl. Gan nad yw ysgolion arbennig yn cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith, roedd y ddwy ysgol a ddewiswyd mewn ardaloedd ALlau sydd â chanran uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg. Gan fod gan oddeutu tri chwarter yr ysgolion arbennig yng Nghymru, a'r holl ysgolion arbennig yn ein ALlau dethol, ddysgwyr cynradd ac uwchradd, fe wnaeth y tîm ymchwil sicrhau bod gan yr ysgolion a ddewiswyd ddysgwyr ar draws pob ystod oedran.

Cysylltwyd ag ysgolion dethol drwy e-bost gyda gwybodaeth am yr adolygiad ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan drwy ymweliad astudiaeth achos gan y tîm ymchwil. Cafodd hyblygrwydd ei gynnwys yn yr amserlen gan ganiatáu amser i ddod o hyd i leoliadau i gymryd lle y rhai na wnaethant ymateb. Roedd y 44 o ymarferwyr a gymerodd ran yn yr ymweliadau astudiaethau achos yn cynnwys:

- Tri ar ddeg o uwch arweinwyr (e.e. penaethiaid neu ddirprwy benaethiaid)
- Ugain o CADYau, dirprwy CADYau neu bennaeth cynhwysiant
- Un ar ddeg o athrawon neu staff cymorth

Dewiswyd dau SAB i fod yn rhan o'r sampl, ac mae'r ddau yn gweithredu ar draws mwy nag un ardal ALl. Fel gydag ysgolion arbennig, nid yw SABau yn cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith. Er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau yn niferoedd cyfartalog uchel ac isel y siaradwyr Cymraeg, dewiswyd un SAB yn y gogledd ac un yn y de. Cynhaliwyd trafodaethau gyda phedwar ymarferydd ar draws dau SAB gan gynnwys athro arbenigol, dirprwy bennaeth cynhwysiant a dau reolwr CDUau.

Cafodd y cyfweliadau gyda phob ymarferydd addysg eu harwain gan ganllawiau trafod a chawsant eu recordio i gynhyrchu trawsgrifiadau a fyddai'n cynorthwyo gyda'r dadansoddiad.

Rhoddodd pob cyfweliad gyfle i drafod meysydd pwnc yn ymwneud â'r canlynol:

- y ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg
- y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu DDdY yn y Gymraeg
- yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg

- capasiti'r gweithlu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg
- galluogwyr a rhwystrau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg

**Dysgwyr**

Fe wnaeth cyfanswm o 48 o ddysgwyr o 8 o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r ymchwil gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach yn eu lleoliad nhw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 12 o ddysgwyr ym mlynyddoedd 4 i 6
- 16 o ddysgwyr ym mlynyddoedd 7 i 9
- 18 o ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 i 11
- 2 ddysgwr ym mlynyddoedd 12 i 13

Cafodd dysgwyr eu nodi gan CADYau yn yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (32 o blith 48) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd 10 mewn ysgolion arbennig a 6 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg sylweddol.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr a gymerodd ran CDU, ond mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn y broses o ystyried a oedd gan y dysgwyr ADY. Cynhaliwyd y gwaith maes gyda dysgwyr mewn grwpiau bach, gydag athro/CADY neu CA yn bresennol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda dysgwyr yn lleoliad addysg y dysgwyr. Ni chafodd y trafodaethau hyn eu recordio ond cymerodd y tîm ymchwil nodiadau a fu o gymorth gyda'r broses ddadansoddi.

**Rhieni/gofalwyr**

Gofynnwyd i'r CADY ym mhob ysgol sy'n rhan o astudiaeth achos gefnogi'r adolygiad drwy rannu holiadur sgrinio ar-lein byr i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY, gan eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad. Roedd yr holiadur sgrinio yn gofyn i rieni/gofalwyr a oedd eu plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd (yr opsiynau ymateb oedd Bob amser / Fel arfer; Tua hanner yr amser; Weithiau; Byth), a oedd eu plentyn yn derbyn y cyfan neu ran o'i DDdY yn y Gymraeg ac, os nad oedd, a fyddent wedi hoffi derbyn neu a fyddai wedi bod yn well ganddynt i'w plentyn dderbyn DDdY drwy gyfrwng Cymraeg. Dychwelodd rhieni'r holiadur sgrinio yn uniongyrchol at y tîm ymchwil.

Yna gwahoddwyd rhieni i fynychu cyfweliad rhithwir ar amser o'u dewis, a chymerodd cyfanswm o bum rhiant ran yn y cyfweliadau rhithwir. Roedd y sampl o rieni yn cynnwys y rhai â phlant mewn ysgolion cynradd neu uwchradd prif ffrwd cyfrwng Cymraeg/cyfrwng Saesneg, ysgolion dwy ffrwd, a'r rhai mewn ysgolion arbennig. Cafodd y cyfweliadau eu recordio i gynhyrchu trawsgrifiadau er mwyn cynorthwyo'r broses ddadansoddi.

**Rhanddeiliaid**

Cymerodd cyfanswm o saith rhanddeiliaid ran mewn cyfweliadau neu drafodaethau grŵp bach.

Nodwyd rhanddeiliaid a allai gynnig safbwyntiau ehangach ar y system ADY a'r cyd-destun cyfrwng Cymraeg ehangach yn dilyn trafodaethau yn ystod y cam cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol yn ystod y cam gwaith maes:

- Swyddog Polisi Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd o Estyn
- Cynrychiolydd o RhAG - Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Cynrychiolydd o ColegauCymru
- Cynrychiolydd o Adnodd[Troednodyn 4]
- Dau gynrychiolydd o Mudiad Meithrin

Archwiliodd y cyfweliadau hyn ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun ehangach gweithredu'r system ADY. Cafodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid a SACDAau eu recordio i gynhyrchu trawsgrifiadau er mwyn cynorthwyo'r broses ddadansoddi.

**Archwiliad o ffynonellau data a bylchau yn y data**

Adolygodd y tîm ymchwil ddata cyhoeddedig a heb ei gyhoeddi sy'n berthnasol i DDdY cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Cyfrifiad AHY), Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (CBGY) a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (yn ymwneud yn benodol â Deilliant chwech sy'n ymwneud â chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY). Nid yw data ar ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion annibynnol a'r rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gan nad oes data ar gael ar hyn o bryd ar anghenion y dysgwyr hyn o ran DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Dadansoddiad**

Cynhyrchodd y gwaith maes swm sylweddol o ddata meintiol ac ansoddol o ffynonellau eilaidd, ffurflenni profforma, trawsgrifiadau o gyfweliadau, a nodiadau manwl.

Cafodd data meintiol o'r CYBLD a'r CBGY ei hadolygu a'u dadansoddi i gynhyrchu ystadegau disgrifiadol ar ddysgwyr a'r gweithlu sydd wedi'u cynnwys mewn gwahanol adrannau o'r adroddiad hwn. Adolygwyd data o ffurflenni profforma ALI a,

[4] Mae Adnodd yn un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio ac yn cydlynu'r ddarpariaeth o adnoddau addysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

lle y bo’n bosibl, eu casglu i gyflwyno data cyfanredol ar lefel genedlaethol, er enghraifft nifer yr ALlau sy’n cadw data’n ganolog ar nifer y dysgwyr sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg ac yn cael y ddarpariaeth honno. Mewn rhai achosion, nid oedd modd i bob ALl ddarparu data, ac felly mae cyfyngiadau priodol wedi'u hamlygu yn yr adroddiad.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig, gan ddefnyddio dull Braun a Clarke (2022)[Troednodyn 5] wrth ddadansoddi'r holl ddata ansoddol a gasglwyd o gyfweliadau. Roedd hyn yn cynnwys proses ailadroddus o godio a dadansoddi a oedd yn cynnwys:

- Ymgyfarwyddo â'r data lle y darllenwyd yr holl drawsgrifiadau a'r nodiadau i gadarnhau'r ddealltwriaeth o'r cynnwys a'r pwyntiau allweddol a godwyd
- Cynhyrchu trosolwg cryno o bob trafodaeth, wedi'i drefnu yn ôl y pynciau a gynhwysir yng nghanllawiau trafod y cyfweliadau
- Cynhyrchu codau cychwynnol o'r crynodebau gan ddefnyddio proses ddiddwythol yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil a'r pynciau a nodir yng nghanllawiau trafod y cyfweliadau
- Nodi cysylltiadau yn y codau a grwpio codau gyda'i gilydd i greu themâu
- Nodi themâu cyffredin i ganfod y rhai a oedd fwyaf cyffredin ar draws y data a darparu strwythur ar gyfer yr adroddiad

Edrychodd yr ymchwil hefyd ar wahaniaethau yn ôl grŵp rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno adroddiad manwl ar y data.

### Cyfyngiadau i'r fethodoleg

Mae'n bwysig nodi bod rhai cyfyngiadau i'r fethodoleg a ddewiswyd a, lle y bo'n bosibl, rhoddwyd mesurau lliniaru ar waith i gyfyngu ar eu heffaith.

Ymgysylltwyd â sampl fach o ysgolion, rhieni/gofalwyr, a dysgwyr yn ystod yr adolygiad. Felly nid yw'n bosibl cyffredinoli canfyddiadau'r adolygiad i'r boblogaeth ehangach, ac mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn cynrychioli'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod ciplun o amser.

Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Fodd bynnag, roedd yr ymgysylltiad â darpariaeth blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn gymharol fach, ac roedd y rhan fwyaf o'r gwaith maes yn canolbwyntio ar ALlau ac ysgolion. I liniaru hyn, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli'r sectorau

[5] Braun, V. a Clarke, V. (2022). *Thematic analysis: A practical guide.* Thousand Oaks, CA: SAGE Publications Ltd.

blynyddoedd cynnar (Mudiad Meithrin) ac ôl-16 (ColegauCymru) er mwyn darparu persbectif strategol.

Roedd y ffaith nad oedd data sy'n ystadegol gadarn a dilys ar gael ar yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn un o gyfyngiadau'r adolygiad. Trafodir hyn ymhellach ym mhennod 4.1 a chafodd hyn ei liniaru drwy ddefnyddio mesurau procsi yn seiliedig ar ddata CYBLD ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir, ynghyd â thystiolaeth ansoddol ar yr angen cyfredol. Y prif gyfyngiad ar bob un o'r mesurau procsi a gyflwynir yw nad ydynt yn asesu'n uniongyrchol a oes angen DDdY cyfrwng Cymraeg ar ddysgwyr. Yn hytrach, tybir bod yr iaith astudio, rhuglder yn y Gymraeg, neu'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn golygu bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg ar ddysgwyr, ac nid yw hynny'n wir o reidrwydd.

Yn y sector blynyddoedd cynnar, ni chyhoeddir data ar nifer y CDUau a gynhelir gan ALlau ar gyfer dysgwyr yng ngharfan swyddogion arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar. Ceisiodd yr adolygiad liniaru hyn drwy ofyn i ALlau a oedd y data hyn yn cael eu cadw'n ganolog ganddynt, yn ogystal â data ar yr iaith yr oedd angen DDdY ynddi. Mae data cyfyngedig ar gael hefyd ar ADY a'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ymhlith dysgwyr sy'n cael AHY, addysg ddewisol yn y cartref neu mewn ysgolion annibynnol. Mae hwn yn fwlch yn y dystiolaeth nad oedd modd rhoi unrhyw fesurau lliniaru ar waith ar ei gyfer.

Yn olaf, roedd diffyg data ystadegol gadarn a dilys yn ymwneud â chapasiti Cymraeg gweithlu ALlau a'r gweithlu iechyd yn un o gyfyngiadau eraill yr adolygiad. Lliniarwyd hyn drwy i'r tîm ymchwil gasglu'r data hyn yn uniongyrchol gan ALlau, wedi'i ategu gan drafodaethau ansoddol gyda SACDAau ac ymarferwyr iechyd.

# 4. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad. Mae'n dechrau drwy archwilio'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg, ac yna'r ddyletswydd a sut y caiff DDdY cyfrwng Cymraeg ei darparu. Yna rhoddir sylw pellach i gapasiti ac adnoddau'r gweithlu cyn ystyried profiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr. Daw'r drafodaeth i ben gyda throsolwg o'r cynnydd a wnaed a'r heriau sy'n parhau.

## 4.1. Yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud ag asesu lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy'r CYBLD ar yr holl ddysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir, data ar ddysgwyr ôl-16 a gasglwyd drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), data ar ddysgwyr sy'n cael AHY a gasglwyd drwy'r cyfrifiad AHY a data a gasglwyd yn uniongyrchol gan ALlau yn ystod yr adolygiad hwn.

### 4.1.1. Data ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir a gasglwyd drwy'r CYBLD

Fel y nodir yn yr *Astudiaeth Gwmpasu ar gyfer Adolygiad o DDdY Cyfrwng Cymraeg*, nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ynghylch iaith DDdY. Mae hyn yn golygu, o'r data sydd ar gael drwy CYBLD, nad yw'n hysbys faint o ddysgwyr ag ADY sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg a faint sy’n derbyn DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o ymgynghoriad diweddar ar y data ADY sydd i'w gasglu drwy gasgliadau data statudol, casglodd Llywodraeth Cymru farn ynghylch casglu gwybodaeth yn ymwneud â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn y ddarpariaeth, drwy gyfrifiad CYBLD ac AHY. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Yn absenoldeb y data hyn, mae'r adran hon yn defnyddio mesur procsi i benderfynu a fyddai dysgwyr yn debygol o fod angen DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd sy'n seiliedig ar CYBLD o fis Ionawr 2025 yn dangos bod gan 43,885 o ddysgwyr mewn lleoliadau a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig) AAA neu ADY sy'n cynrychioli 9.5% o'r holl ddysgwyr yng Nghymru. Gellir dadgyfuno'r data hwn yn ôl:

- a yw'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i ddysgwyr fel iaith gyntaf ynteu fel ail iaith[Troednodyn 6]
- a yw dysgwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl

[6] Gweler y diffiniadau yn Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD): nodiadau cwblhau technegol. Mae'r meysydd hyn yn seiliedig ar ddata hanesyddol a gasglwyd drwy'r CYBLD. Mae'r Gymraeg yn un o ofynion gorfodol y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (y Maes hwn) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cwricwlwm o ran dysgu ac addysgu'r Gymraeg. Gweler Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

- a yw dysgwyr yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd

Mae Nodiadau cwblhau technegol CYBLD yn datgan bod y meysydd hyn yn cael eu casglu ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed (3 i 16/18 oed), ac felly nid ydynt yn feysydd gorfodol i ysgolion meithrin nac ysgolion arbennig eu cwblhau. Felly, nid yw'r dadansoddiad yn yr adran hon yn cynnwys dysgwyr mewn ysgolion arbennig ac ysgolion meithrin. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl asesu lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ymhlith y dysgwyr hyn gan ddefnyddio data CYBLD.


Ystyriwyd bod y mesurau hyn sy'n ymwneud â dysgwyr unigol yn well na chyfrwng iaith ysgolion y dysgwyr am nifer o resymau, yn benodol:

- bu newidiadau i'r ffordd y caiff iaith ysgolion ei chategoreiddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir dadansoddi data cyfres amser o'r CYBLD
- nid yw iaith ysgol yn cael ei hystyried yn brocsi cystal ar gyfer iaith y disgybl, oherwydd bod siaradwyr Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- mae ysgolion dwy iaith yn cynnwys dysgwyr sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

Dengys data CYBLD fod canran y dysgwyr ag ADY / AAA yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf wedi gostwng o 18.6% yn 2021 i 8.1% yn 2025. Mae hyn yn dilyn gostyngiad tebyg yn nifer cyffredinol yr holl ddysgwyr ag ADY / AAA dros yr un cyfnod. Mae'r gostyngiad hwn yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r newid o'r system AAA i'r system ADY. Gwelwyd gostyngiad tebyg hefyd, o 20.9% i 8.7%, yng nghanran y dysgwyr ag ADY / AAA yr addysgir Cymraeg iddynt fel ail iaith o 2021 i 2025. Ym mhob un o'r pump o flynyddoedd rhwng 2021 a 2025, roedd canran y dysgwyr ag ADY / AAA yn debyg ymhlith y rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf (6,835 o blith 84,040, neu 8.1%) o'i gymharu â'r rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel ail iaith (26,370 allan o 303,585, neu 8.7%).

Ar lefel ALl, mae rhai amrywiadau yng nghanran y dysgwyr ag ADY / AAA yn ôl a addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf neu ail iaith (Ffigur 1). Er enghraifft, yn 2025, roedd gan 14.8% o'r rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf yn Ynys Môn ADY o'i gymharu â 28.1% o'r rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel ail iaith. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd gan 15.8% o'r rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf yn Sir y Fflint ADY, o'i gymharu ag 8.9% o'r rhai yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel ail iaith. Mae'n bwysig cydnabod y gall nifer o ffactorau lleol gyfrif am y gwahaniaethau hyn, megis lleoliad daearyddol a phroffil demograffig-gymdeithasol ysgolion mewn categorïau iaith penodol.

**Ffigur 1. Canran y dysgwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed prif ffrwd a gynhelir (3 i 16/18 oed) yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf neu ail iaith a oedd ag ADY/AAA, yn ôl ALI 2025**




Ffynhonnell: CYBLD

Roedd y Gymraeg hefyd yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf i fwyafrif helaeth y dysgwyr ag ADY a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Dengys data CYBLD, yn 2025, fod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf i 3,585 o siaradwyr Cymraeg rhugl ag ADY / AAA (91% o'r holl ddysgwyr ag ADY / AAA), a bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith i 340 o siaradwyr Cymraeg rhugl ag ADY / AAA (9% o'r cyfanswm). Mae hyn yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith i bron un o bob deg o siaradwyr Cymraeg rhugl ag ADY. Er nad

yw'r rhesymau dros hyn yn glir, gall adlewyrchu dewis y dysgwr mewn rhai achosion, neu'r ffaith bod y dysgwyr hyn yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg lle maent yn fwy tebygol o astudio'r Gymraeg fel ail iaith.


Mae data CYBLD yn amlinellu, o blith y 3,105 o ddysgwyr ag ADY a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd, bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf i'r mwyafrif helaeth o'r rhain (86%) ac yn cael ei haddysgu fel ail iaith i 14%. Mae hyn yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith i tuag 1 o bob 7 dysgwr ag ADY sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn glir ond gallai dewisiadau dysgwyr neu rieni neu argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn eu hardal nhw gyfrif am hyn.

At ei gilydd, mae data sydd ar gael i'r cyhoedd a gofnodwyd gan CYBLD yn dangos bod cyfran y dysgwyr ag ADY sydd ymhlith y rhai yr addysgir y Gymraeg iddynt fel iaith gyntaf yn debyg ymhlith y rhai yr addysgir y Gymraeg iddynt fel ail iaith ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith i lawer o ddysgwyr ag ADY sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Er bod hyn yn debygol o adlewyrchu argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd, gall hefyd adlewyrchu canfyddiadau mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn sy'n dangos bod rhai dysgwyr ag ADY yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg yn lle darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan eu bod yn credu y bydd eu ADY yn cael eu cefnogi'n well mewn lleoliad cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae'r dehongliad hwn yn ddamcaniaethol ac ni ellir ei gadarnhau drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael.

#### 4.1.2. Data ar ddysgwyr ôl-16

Fel y gwelir yn Ffigur 2 isod, yn ôl data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd 16% o ddysgwyr o bob oed mewn addysg bellach, prentisiaethau neu ddarpariaeth ddysgu gymunedol yr ALI fod ganddynt anabledd neu anhawster dysgu, ond ar gyfer y rhai rhwng 16 a 24 oed, roedd y ffigur cyfatebol yn uwch, sef 21%. Dengys y data fod canran y dysgwyr sy'n dweud bod ganddynt anabledd neu anhawster dysgu wedi cynyddu rhwng 2020 a 2021 a 2024 i 2025.

**Ffigur 2. Canran y dysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu mewn darpariaeth AB, prentisiaeth a dysgu cymunedol 2016/17 i 2024/25**




Ffynhonnell: LLWR

Mae'r LLWR yn casglu data ynghylch a oes gan ddysgwyr CDU a gynhelir gan SAB neu ALl, ond nid yw'r data hyn wedi'u cyhoeddi eto ac nid oes unrhyw ddata yn cael eu casglu ynghylch a oes angen DDdY yn y Gymraeg neu a dderbyniodd dysgwyr eu DDdY yn y Gymraeg. Fodd bynnag, cesglir data hygyrch drwy LLWR ar y graddau y mae dysgwyr yn derbyn unrhyw ran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys data ar weithgareddau dysgu:

- ble y cwblheir y dysgu mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg a ble y cwblheir yr holl asesiadau sydd ar gael o fewn y gweithgaredd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (categori C1)
- ble y cwblheir y dysgu mewn cyd-destun dwyieithog a ble y cwblheir o leiaf 50% o'r holl asesiadau sydd ar gael o fewn y gweithgaredd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (categori B1)

Defnyddiwyd data nas cyhoeddwyd o'r blaen yn seiliedig ar y meysydd uchod i greu mesur procsi o'r galw posibl am DDdY cyfrwng Cymraeg. At ddiben yr adolygiad, ystyriwyd bod dysgwyr â CDU (un a gynhelir gan SAB neu ALl) sy'n perthyn i un o'r categorïau uchod yn ddysgwyr y gallai fod angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt.

Dengys dadansoddiad o ddata’r LLWR, yn 2024/25, fod 4,085 o ddysgwyr wedi astudio o leiaf un gweithgaredd yn y categorïau hyn, a bod gan 145 ohonynt (4%) CDU a gynhelir gan yr ALl neu’r SAB[Troednodyn 7]. Roedd gan 15 o ddysgwyr eraill

[7] Roedd y 145 yn cynnwys 30 o ddysgwyr â CDUau a gynhelir gan yr ALl a 115 â CDU a gynhelir gan SAB. Roedd pob un o'r 145 o ddysgwyr mewn SABau yn hytrach na darparwyr hyfforddiant eraill; roedd 110 yn

ADY ond roeddent wedi gwrthod CDU, ac roedd 575 o ddysgwyr a nododd fod ganddynt anhawster neu anabledd dysgu ond nad oedd ganddynt ADY.

#### 4.1.3. Data ar ddysgwyr sy'n derbyn AHY

Mae'r cyfrifiad AHY yn casglu data ar ddisgyblion sy'n derbyn neu'n aros am ddarpariaeth addysg a ariennir gan yr ALl heblaw mewn lleoliad ysgol a gynhelir ac nad yw eu manylion o bosibl yn cael eu casglu drwy gasgliadau data eraill. Dangosodd data 2024/25 fod cyfran sylweddol fwy o ddisgyblion ag AAA neu ADY yn cael eu haddysgu'n bennaf y tu allan i'r ysgol nag ymhlith poblogaeth gyffredinol y myfyrwyr. O ran y boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion, addysgwyd 5.8 o bob 1,000 o ddisgyblion yn bennaf y tu allan i'r ysgol, ac addysgwyd 47.8 o bob 1,000 o ddisgyblion ag AAA / ADY yn bennaf y tu allan i'r ysgol.

Ni chyhoeddir unrhyw ddata ar anghenion ieithyddol dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau AHY. Nid yw'r cyfrifiad AHY yn casglu data ar ieithoedd a siaredir, rhuglder na mamiaith disgyblion yn yr un ffordd â'r CYBLD, ac felly ni ellir cynhyrchu dangosyddion procsi o'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn yr un ffordd ag ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a SABau.

#### 4.1.4. Data ar garfan swyddogion arweiniol ADY

Nid yw data ar nifer y plant ag ADY a nifer y CDUau a gynhelir gan ALlau ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar, sef carfan swyddogion arweiniol ADY blynyddoedd cynnar, yn cael eu cyhoeddi. Ceisiodd yr adolygiad liniaru hyn drwy ofyn i ALlau a oedd y data hyn yn cael eu cadw'n ganolog ganddynt, yn ogystal â data ar yr iaith yr oedd angen DDdY ynddi. Cyflwynir y data hyn ochr yn ochr â data eraill a gasglwyd gan ALlau yn adrannau isod.

#### 4.1.5. Data ar yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg gan ALlau

Fel y gwelwyd, nid yw data ar iaith y DDdY sydd ei hangen ar ddysgwyr â CDUau a gynhelir gan yr ALl angen DDdY ynddi a'r nifer sy'n derbyn DDdY yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu casglu na'u cyhoeddi'n rheolaidd ar lefel genedlaethol. Trafodwyd argaeledd y data hwn gydag ALlau yn y profforma ALlau. Gofynnwyd i gynrychiolwyr awdurdodau lleol nodi a oedd data sy'n ymwneud â nifer y CDUau sy'n cynnwys gofyniad i'r DDdY gael ei darparu yn y Gymraeg yn cael eu cadw'n ganolog yn systemau rheoli gwybodaeth eu hawdurdodau lleol. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi a oedd y data ar gael i ddysgwyr mewn amrywiol leoliadau, yn ogystal ag a oedd y data'n cynnwys manylion yn ymwneud ag a yw dysgwyr y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt yn derbyn y ddarpariaeth honno. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 1.

Mae Tabl 1 yn dangos bod llai na hanner yr ALlau wedi nodi eu bod yn cofnodi data yn ganolog ar CDUau a gynhelir gan ysgolion a oedd yn nodi gofyniad am DDdY

astudio cyrsiau AB a 35 yn dilyn prentisiaeth. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, felly cyfanswm a chanrannau bras yw'r rhain.

cyfrwng Cymraeg (9 o blith 21 o'r ALlau a ymatebodd). Roedd yr un patrwm i'w weld mewn perthynas â data a gedwir yn ganolog ynghylch a oedd y dysgwyr hyn wedi derbyn unrhyw DDdY yn y Gymraeg mewn gwirionedd (8 o blith 21 o'r ALlau a ymatebodd).

Dywedodd bron pob ALl ei fod yn cadw data ar yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â CDUau a gynhelir gan ALlau ar gyfer dysgwyr o dan oedran ysgol orfodol nad oeddent yn mynychu ysgol a gynhelir (19 o blith yr 20 ALl a ymatebodd) yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (18 o blith yr 21 a ymatebodd). Dywedodd y rhan fwyaf o ALlau eu bod yn cadw data ar a yw dysgwyr yn derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â CDUau a gynhelir gan ALlau ar gyfer dysgwyr o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir (14 o blith 19 o'r ALlau a ymatebodd) yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (16 o blith 21 a ymatebodd.)

Nododd llai o ALlau eu bod yn cadw data cyfatebol mewn perthynas â CDUau a gynhelir gan ALlau ar gyfer dysgwyr ôl-16. Dywedodd cyfanswm o 15 o blith 20 eu bod yn cadw data ar nifer y dysgwyr hyn yr oedd angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt a dywedodd 12 o blith 20 eu bod yn cadw data ar nifer y dysgwyr hyn a oedd yn derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwynt olaf yn adlewyrchu'r hyn sy'n ymddangos yn batrwm ehangach a welwyd drwy'r gwaith ymchwil gan fod data sy'n ymwneud â'r angen am ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ôl-16 yn llai cyflawn ac yn cael eu cofnodi'n llai cyson ledled Cymru yn gyffredinol.

**Tabl 1. Nifer yr ALlau sy'n cadw data'n ganolog sy'n ymwneud â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn y ddarpariaeth**

| **Nodwch a yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog ar hyn o bryd yn eich ALl** | Nifer yr ALlau a nododd fod data'n cael eu cadw'n ganolog ynghylch a oes **angen** DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr | Nifer yr ALlau a nododd fod data'n cael eu cadw'n ganolog ynghylch a yw dysgwyr yn **derbyn** DDdY yn y Gymraeg |
|---|---:|---:|
| CDUau a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd | 9 o blith 21 | 8 o blith 21 |
| CDUau a gynhelir gan ALlau: plant o dan oedran ysgol orfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, y "garfan swyddogion arweiniol ADY" | 19 o blith 20 | 14 o blith 19 |
| CDUau a gynhelir gan ALlau: oedran ysgol gorfodol | 18 o blith 21 | 16 o blith 21 |
| CDUau a gynhelir gan ALlau: dysgwyr ôl-16 | 15 o blith 20 | 12 o blith 20 |

Ffynhonnell: Profforma ALl

[Nodyn 1]: Roedd cyfanswm yr ALlau a atebodd pob cwestiwn yn amrywio. Mae ymateb Gwynedd a Môn wedi'u cynnwys fel un ymateb ALl. Gofynnwyd i ALlau hefyd am ddata'n ymwneud â CDUau dysgwyr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol, ond nid ystyriwyd bod y data hyn yn ddigon dibynadwy i'w cynnwys yn y tabl hwn. Ni ofynnwyd i ALlau a oeddent yn cadw data ar CDUau a gynhelir gan SABau.

Gofynnwyd i ALlau hefyd ddarparu data sydd ar gael ar faint o CDUau a gynhelir gan yr ALl a nododd yr angen i'r DDdY gael ei darparu yn y Gymraeg. Dim ond 13 o blith y 22 ALl a ddarparodd ddata ar hyn, er bod y rhan fwyaf wedi nodi eu bod yn eu casglu. Ar draws yr holl ALlau a ymatebodd, mae'r cyfrifiadau'n dangos bod tua 7% o'r CDUau a gynhelir gan ALlau yn yr ardaloedd hyn yn cynnwys gofyniad i ddarparu DDdY yn y Gymraeg er bod amrywiad sylweddol ar draws ALlau (0% i 23%).[Troednodyn 8] Mae'n bwysig nodi, gan nad oedd sawl ALl â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg wedi darparu data ar gyfer y cwestiwn hwn yn y profforma, fod y ffigur hwn yn debygol o danamcangyfrif yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg.

Nododd rhai ALlau, er bod y wybodaeth hon ar gael, nad oedd y data'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac felly nid oedd yn rhywbeth y gallent adrodd yn hawdd arno fel rhan o'r adolygiad hwn. Nododd rhai nad oedd y data hyn yn cael eu cofnodi, ond nododd eraill fod yr holl DDdY a ddarperir yn eu hawdurdod lleol yn cael ei darparu yn y Gymraeg ac felly nad oedd cofnodi hyn yn ofyniad.

Mae'n ymddangos bod yr ystod o ddata a ddarparwyd yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd y dehonglwyd y cais am ddata. Darparodd rhai ALlau ddata'n ymwneud â'r holl CDUau (h.y. CDUau a gynhelir gan ysgolion a CDUau a gynhelir gan ALlau) a gynhelir ar draws yr holl leoliadau addysg ble y gofynnir am DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod eraill yn darparu data ar CDUau a gynhelir gan ALlau yn unig. At ei gilydd, roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn adlewyrchu'r gwahanol systemau sydd ar waith i gasglu'r data hyn. Felly, mae'n anodd cael darlun cyson o'r angen a gofnodwyd am DDdY cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddata a gedwir yn ganolog gan ALlau. Atgyfnerthodd y cyfweliadau ag ALlau, ysgolion a rhanddeiliaid yn ystod yr adolygiad hwn y dystiolaeth o'r profforma, gan ddangos bod ALlau wedi datblygu amrywiaeth o systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth a gedwir mewn CDUau, gyda rhai yn mabwysiadu systemau canolog, lle mae gwybodaeth a gedwir ar lefel ysgol yn cael ei rhannu'n awtomatig gyda'r ALlau. Mewn ALlau eraill, nid yw data a gedwir gan ysgolion yn cael eu rhannu gyda'r ALl fel mater o drefn.

Esboniodd sawl ALl fod tybiaeth gyffredinol, yn eu hardaloedd nhw, fod DDdY a ddarperir gan ysgolion yn cael ei chynnig yn iaith yr ysgol, h.y. yn y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac yn y Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Adleisiodd yr ysgolion y farn hon. O ganlyniad, nid yw llawer o ysgolion ac ALlau yn gweld yr angen i gofnodi iaith y DDdY ar wahân gan y tybir bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrwng iaith yr ysgol.

---

[8] Mae hyn yn seiliedig ar yr ymatebion i'r profforma a oedd yn dangos bod cyfanswm o 214 CDUau a gynhelir gan ALlau yn gofyn am DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data CYBLD yn dangos bod 3070 o CDUau a gynhelir gan ALlau yn yr 13 awdurdod lleol hyn ym mis Ionawr 2025. Gan gydnabod bod y data yn yr adolygiad hwn wedi'u casglu flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Ionawr 2026, mae hyn yn awgrymu bod 7% o'r CDUau yn yr ardaloedd hyn yn cynnwys gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg.

Er y tybir yn gyffredinol bod DDdY yn cael ei darparu yn iaith yr ysgol, mae'r dybiaeth hon yn dod yn fwy cymhleth pan fydd ALlau a chyrff y GIG yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ac wrth i anghenion dysgwyr fynd yn fwy cymhleth. Disgrifiodd ymarferwyr a rhanddeiliaid achosion lle mae elfennau unigol o DDdY o fewn CDU yn cael eu darparu mewn ieithoedd gwahanol, hyd yn oed pan fo'r lleoliad addysg yn un cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir lle pan fo'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan ALlau a chyrff y GIG neu lle mae penderfyniadau'n cael eu dylanwadu gan iaith aelwyd y dysgwr. Ar hyn o bryd, ni chesglir unrhyw ddata systematig ar lefel leol na chenedlaethol ynghylch i ba raddau y mae gwahanol elfennau o DDdY o fewn CDUau yn cael eu darparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod y data sydd gan ALlau ynghylch yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r graddau y mae hyn yn cael ei ddarparu yn gyfyngedig. At hynny, mae'r prosesau a'r systemau sydd ar waith i gasglu'r wybodaeth hon yn anghyson ar draws ALlau.

#### 4.1.6. Patrymau o ran yr angen a adroddwyd gan ysgolion

Mewn gwrthgyferbyniad â'r gostyngiad yn nifer yr holl ddysgwyr ag ADY a welwyd yn nata CYBLD, pwynt cyffredinol a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth ysgolion yw, yn eu barn nhw, bod nifer y dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Adroddodd ysgolion ar draws gwahanol ALlau gynnydd nodedig yn nifer y plant a chanddynt amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai heb ADY. Tynnodd ysgolion sylw at gynnydd penodol yn nifer y dysgwyr ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD). Priodolodd rhai y duedd hon yn rhannol i effaith gymdeithasol ac emosiynol COVID-19 a’r cyfnodau ynysu cysylltiedig, ac roedd rhai yn teimlo ei bod yn adlewyrchu gwelliannau mewn prosesau diagnostig a mwy o ymwybyddiaeth o’r cyflyrau hyn ymhlith gweithwyr proffesiynol a theuluoedd.

Teimlai ymarferwyr ysgolion fod y lefel gynyddol hon o angen, ynghyd â'r ddyletswydd a nodir yn Neddf ADY y dylai dysgwyr ag ADY gael eu haddysgu mewn darpariaeth brif ffrwd lle bo modd, wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion. Trafodir y pwysau hyn yn fanylach mewn adrannau dilynol o'r adroddiad, yn enwedig mewn perthynas â darparu DDdY cyfrwng Cymraeg, capasiti'r gweithlu, mynediad at wasanaethau arbenigol, ac argaeledd adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg.

#### 4.1.7. Crynodeb: Yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg

Yn yr adran hon, trafodwyd yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd am lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn genedlaethol sydd ar gael ar CYBLD a LLWR, yn ogystal â data sy'n cael eu casglu a'u rheoli ar lefel ALl.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod data ar lefel genedlaethol sy'n ymwneud â lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig. Y dangosyddion procsi sy'n

deillio o CYBLD yn seiliedig ar a yw Cymraeg yn cael ei haddysgu i ddysgwyr fel iaith gyntaf neu ail iaith sy'n rhoi'r trosolwg mwyaf dibynadwy o ddysgwyr ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd ond nid yw'n cofnodi a yw DDdY yn ofynnol neu'n cael ei darparu yn y Gymraeg.

Nid oes llawer o wybodaeth am anghenion ieithyddol yn y data ar ddysgwyr mewn darpariaeth AHY a'r garfan swyddogion arweiniol ADY. Ar gyfer dysgwyr ôl-16, mae data LLWR 2024/25 yn awgrymu bod cyfran fach o ddysgwyr AB ag ADY yn astudio cyrsiau ag elfennau sylweddol o gynnwys Cymraeg, sy'n dynodi angen posibl heb ei ddiwallu, gan fod tystiolaeth gan gynrychiolwyr SABau yn dangos nad oedd DDdY cyfrwng Cymraeg wedi'i nodi mewn unrhyw CDUau.

Ar lefel leol, mae'r broses casglu data yn anghyson ac mae ALlau yn amrywio'r ffordd y maent yn cofnodi a yw CDUau yn nodi bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg, yn bennaf oherwydd systemau data gwahanol.

At ei gilydd, mae'r data sy'n amlinellu'r lefel genedlaethol o angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl ddysgwyr yn gyfyngedig, a gall hyn, yn ei dro, arwain at oblygiadau o ran pennu a monitro digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg.

## 4.2. Dyletswyddau a sut y darperir DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r adran hon yn trafod y ddealltwriaeth o'r ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg a sut y mae lleoliadau addysg yn ei rhoi ar waith yn ymarferol. Daw'r dystiolaeth o astudiaethau achos ansoddol gydag ysgolion a thrafodaethau gydag ALlau a rhanddeiliaid (gan gynnwys grŵp o CADYau a gafodd ei gynnull gan CYDAG).

### 4.2.1. Y ddyletswydd i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg

O dan Adran 12 o Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a Phennod 23 o'r Cod ADY (2021), mae dyletswyddau statudol ar ALlau a chyrff llywodraethu ysgolion a SABau wrth baratoi neu gynnal CDU. Rhaid i'r cyrff hyn:

- ystyried a ddylai plentyn neu berson ifanc dderbyn DDdY yn y Gymraeg, a
- nodi yn y CDU pa elfennau o DDdY y dylid eu darparu yn y Gymraeg, os penderfynir bod angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Lle y nodir yn y CDU fod angen darparu DDdY yn y Gymraeg, rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY yn cael ei darparu yn y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ADY.

Yn ogystal â hynny, rhaid i gyrff y GIG benderfynu a ddylid darparu unrhyw driniaeth neu wasanaeth sy'n gysylltiedig â DDdY yn y Gymraeg ac, os felly, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau hyn.

Nododd ALlau fod dealltwriaeth dda o'r dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt hwy ac ar gyrff llywodraethu ac, yn eu barn nhw, eu bod yn gweithredu arnynt. Nododd pob ALl a gymerodd ran yn yr adolygiad, pan fydd CDUau y nodi bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg, eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r ddyletswydd ac yn cefnogi'r broses o gynnig y ddarpariaeth.

Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad hwn yn dangos bod dealltwriaeth gyffredinol bod DDdY cyfrwng Cymraeg yn golygu bod cymorth neu ymyriadau yn cael eu darparu yn y Gymraeg mewn lleoliad addysgol neu gan athrawon neu dimau arbenigol, gweithwyr iechyd proffesiynol neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall a nodir yn y CDU. Lle y bo'n berthnasol, roedd y rhan fwyaf yn dehongli DDdY cyfrwng Cymraeg fel ei fod yn cyfeirio at argaeledd a defnydd o adnoddau a deunyddiau dysgu hefyd, megis asesiadau ac adnoddau ffisegol neu ddigidol - sy'n galluogi neu'n cefnogi darparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darperir y rhan fwyaf o DDdY mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill ac felly'r rhagdybiaeth yw mai ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n bennaf cyfrifol am ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg. Nododd ALlau eu bod yn deall mai eu cyfrifoldeb nhw yw cefnogi'r ysgolion hyn i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg a, lle bo angen, darparu cymorth ac adnoddau ychwanegol gan gynnwys athrawon arbenigol a Seicolegwyr Addysg.

Dywedodd ysgolion ac ALlau nad oes unrhyw ganllawiau nac offer penodol yn cael eu darparu i ysgolion ar sut y dylid cymhwyso'r ddyletswydd, y tu hwnt i gyfeirio at y Cod ADY. Fodd bynnag, ni nododd ysgolion fod hyn yn rhywbeth yr oeddent yn teimlo ei fod yn angenrheidiol o reidrwydd.

#### 4.2.2. Gwneud penderfyniadau a chymhwyso'r ddyletswydd ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud â'r DDdY sydd ei hangen ar bob dysgwr unigol a'r iaith y bwriedir cyflwyno'r ddarpariaeth ynddi, yn rhan o brosesau CDU ehangach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fel arfer, mae ysgolion yn nodi'r DDdY sydd ei hangen drwy arsylwadau athrawon, cyfarfodydd ar gynnydd disgyblion a thrafodaethau cynnar gyda rhieni.

Mae'r prosesau hyn hefyd yn canolbwyntio ar a yw'r cymorth sydd ei angen yn gyfystyr â DDdY neu a ellir darparu mathau eraill o gymorth. Er enghraifft, dywedodd y CADY mewn un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ei fod, cyn penderfynu ar y math o gymorth sydd ei angen ar ddysgwr ac iaith y cymorth hwnnw, yn asesu yn gyntaf a yw unrhyw anawsterau dysgu y mae'r dysgwr yn eu profi yn rhai ieithyddol neu ddatblygiadol yn bennaf. Os yw'r anawsterau'n ymwneud â chaffael iaith, yna byddent fel arfer yn defnyddio strategaethau ystafell ddosbarth, cymorth ieithyddol wedi'i dargedu neu, mewn rhai achosion, trochi ieithyddol i gefnogi hynny yn hytrach na nodi DDdY mewn CDU. Pan fo'r anawsterau a brofir gan y dysgwr yn rhai datblygiadol, yna bydd y CADYau yn nodi bod angen DDdY a

bydd hynny'n cael ei gynnwys mewn CDU. Mae'r trafodaethau hyn yn dechrau'n gynnar gyda theuluoedd ac yn cael eu hailystyried ar gyfnodau pontio allweddol.

Nododd rhanddeiliaid fod rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael hi'n anodd penderfynu a yw anawsterau dysgwr yn deillio o gaffael iaith neu anghenion datblygiadol sylfaenol. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn cael eu cyfeirio at raglenni trochi ieithyddol a ddarperir gan yr awdurdod lleol pan fo angen DDdY arnynt.

Rhaid manylu ar bob elfen o'r DDdY sydd ei hangen a nodir drwy'r prosesau hyn yn y CDU. Rhaid i'r CDU hefyd amlinellu pa sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu pob elfen. Mae rhai CDUau yn gofyn am sawl elfen o DDdY, ac eraill ond yn gofyn am un. Rhaid i'r CDU hefyd nodi a oes angen darparu unrhyw ran o'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.[Troednodyn 9] Gall hyn fod yn berthnasol i'r holl ddarpariaeth neu dim ond i rai elfennau ohoni.

Fel y nodir uchod, mae iaith y DDdY fel arfer yn dibynnu ar iaith yr ysgol, a thybir bod DDdY yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd dysgwr yn mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg oni bai bod rheswm clir dros beidio â gwneud hynny. Amlinellwyd enghraifft o un rheswm dros beidio â gwneud hynny gan ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, lle y derbyniodd dysgwyr ag ADY a oedd ym mlwyddyn 6 y gwyddys eu bod yn symud i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg DDdY yn Saesneg er mwyn eu helpu i bontio i'w hysgol uwchradd. Fodd bynnag, eithriadau yw enghreifftiau fel y rhain, yn hytrach na'r norm. Mae dysgwyr ag ADY sy'n parhau â'u hastudiaethau yn y chweched dosbarth yn cael yr un lefel o gymorth ag a gawsant yn y blynyddoedd blaenorol. I ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, byddai'r cymorth hwn yn parhau i gael ei ddarparu yn y Gymraeg.

Mewn ysgolion dwy ffrwd, gall iaith y DDdY a nodir mewn CDU fod yn fwy cymhleth gan ei bod yn bosibl i ddysgwyr symud o un ffrwd iaith i'r llall. Nododd CADYau fod staff yn cydweithio ar draws llwybrau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i benderfynu ar yr iaith fwyaf priodol ar gyfer DDdY i ddysgwyr unigol. Nododd ymarferwyr mewn ysgolion dwy ffrwd mai sefyllfa ddiofyn ddatganedig ysgol fel arfer, yn seiliedig ar ddisgwyliadau cryf rhieni, yw cadw dysgwyr yn y ffrwd iaith a ddewiswyd gan deuluoedd pan wnaethant ddechrau yn yr ysgol. Mae'n dilyn wedyn bod iaith y DDdY a nodir yn y CDU ac a ddarperir yn cyd-fynd â'r cyfrwng iaith hwnnw.

Fodd bynnag, nododd ymarferwyr mewn ysgolion dwy ffrwd a oedd wedi'u cynnwys yn ein sampl o astudiaethau achos fod dysgwyr ADY weithiau'n symud o'r ffrwd cyfrwng Cymraeg i'r ffrwd cyfrwng Saesneg ac felly mae'r DDdY y maent yn ei derbyn yn newid o'r Gymraeg i'r Saesneg. Nododd ymarferwyr yn yr ysgolion hyn fod teuluoedd sy'n symud eu plentyn o un ffrwd iaith i'r llall yn aml yn gwneud hynny

---

[9] Mae Adran 2B a 2C o CDUau yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ateb y cwestiwn “A ddylid darparu’r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?" ac yn nodi “Os dylid, rhaid i’r ysgol wneud pob ymdrech resymol i’w darparu”.

oherwydd eu bod yn tybio y byddai DDdY arbenigol (e.e. therapi lleferydd ac iaith) ar gael yn ehangach yn y ffrwd Saesneg.

Mae'n llai eglur sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch a oes angen DDdY cyfrwng Cymraeg ar ddysgwyr mewn lleoliadau addysg lle nad yw iaith y lleoliad wedi'i diffinio, fel SABau, UCDau ac ysgolion arbennig.

Nododd cynrychiolwyr SABau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswydd i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg lle bo angen a'u bod yn ymdrechu i gynnig y ddarpariaeth hon lle y nodir bod ei hangen. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi hefyd fod eu gallu i ddarparu hyn yn aml wedi'i gyfyngu gan y nifer cymharol fach o staff sy'n medru'r Gymraeg sydd ar gael i gynnig y ddarpariaeth hon. Nododd cynrychiolwyr SABau hefyd nad oedd gan yr un o'r dysgwyr yn eu sefydliad CDU a oedd yn cynnwys gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, er eu bod yn mabwysiadu dull rhagweithiol o hysbysu dysgwyr bod modd iddynt gael darpariaeth Gymraeg os oes angen hynny.

Cyfeiriwyd at enghraifft o hyn gan gynrychiolwyr o un SAB a nododd ei fod yn ymgysylltu'n rhagweithiol â dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn ystod cyfarfodydd cynllunio trefniadau pontio i'w hysbysu am y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a'r cymorth cysylltiedig sydd ar gael i'r rhai ag ADY. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi fod dysgwyr o'r ysgolion hyn, pan oeddent yn dechrau cwrs AB, fel arfer yn dewis cyrsiau cyfrwng Saesneg ac nad oedd ganddynt CDU a oedd yn nodi gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg. Roeddent yn ansicr ynghylch y rheswm am hyn ond awgrymwyd mai un rheswm allweddol o bosibl yw'r ffaith bod dysgwyr yn gyffredinol yn ystyried mai sefydliadau cyfrwng Saesneg yw SABau yn bennaf a'u bod felly'n disgwyl i unrhyw gymorth, gan gynnwys DDdY, gael ei ddarparu yn Saesneg. Yn wir, adroddwyd, mewn rhai achosion, bod dysgwyr yn dewis cofrestru ar gyrsiau SAB oherwydd eu bod yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn Saesneg, hyd yn oed os oeddent wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg o'r blaen.

Mewn UCDau, adroddwyd hefyd bod lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn isel iawn. Nododd un o'r UCDau sy'n rhan o'r astudiaethau achos, pe bai dysgwr â CDU a oedd yn nodi bod angen DDdY yn y Gymraeg arno yn cofrestru gyda nhw, fod y staff yn trefnu bod tiwtor sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu hyn. Fodd bynnag, nododd staff, yn dilyn trafodaethau gyda dysgwyr a rhieni yn ystod y cyfnod pontio o ysgolion i'r UCD, mai anaml y nodwyd bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg, ac yn aml nid dyma'r opsiwn a ffefrir gan y dysgwyr eu hunain. Nodwyd bod hyn hefyd yn wir am y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir beth yw'r rheswm am hyn, ond awgrymwyd bod rhagdybiaeth ymhlith dysgwyr bod UCDau, fel SABau, yn sefydliadau cyfrwng Saesneg ac felly dyna'r iaith y maent yn disgwyl i'r holl gymorth a darpariaeth gael eu cyflwyno ynddi.

Tynnodd y CADYau yn grŵp CYDAG sylw at y ffaith y gall fod yn anodd i ddysgwyr ddychwelyd i addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl cyfnod parhaus o gymorth a dysgu drwy gyfrwng y Saesneg mewn UCDau. Nodwyd fod modelau amgen wedi cael eu treialu'n ddiweddar mewn rhai rhannau o Gymru er mwyn mynd i'r afael â hyn, gan gynnwys un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi datblygu uned cymorth ymddygiad fewnol. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i nodi beth yw canlyniadau'r treialon hyn.

Yng nghyd-destun ysgolion arbennig, mae penderfyniadau ynghylch iaith DDdY yn aml yn cael eu hystyried ochr yn ochr â phenderfyniadau ynghylch dulliau cyfathrebu cyffredinol eraill, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth neu ddwys. Mewn achosion lle mae dysgwyr yn defnyddio systemau arwyddo, Cyfathrebu Atgyfnerthol ac Amgen, systemau llwybr llygad neu arwyddion corff, mae sefydlu trefniadau cyfathrebu cyson drwy'r dulliau hyn yn cael blaenoriaeth dros y Saesneg neu'r Gymraeg. Dywedodd staff mewn un ysgol arbennig fod y rhan fwyaf o'u darpariaeth yn ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, ond bod staff yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda disgyblion o aelwydydd Cymraeg, er nad oedd unrhyw CDUau yn y lleoliad yn nodi'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg. Disgrifiodd ysgol arbennig arall sut yr oedd yn cysoni iaith y CDU â dewisiadau rhieni a fynegwyd yn ystod cyfarfodydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, cyfarfodydd pontio a thrafodaethau ehangach gyda rhieni, gan gynhyrchu CDUau yn y Gymraeg ar gyfer teuluoedd sy'n medru'r Gymraeg a CDUau Saesneg i eraill, a darparu DDdY yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr ysgol.

### 4.2.3. DDdY Cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan gyrff y GIG

Mae'r Cod ADY yn nodi y bydd angen cymorth gan gyrff y GIG ar rai plant a phobl ifanc er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion. Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn, dylai Adran 2c o'r CDUau gynnwys disgrifiad o'r DDdY a sicrheir gan gorff y GIG. Mae'r Cod ADY yn nodi y gall cyrff y GIG helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys darparu cyngor a hyfforddiant ar y DDdY y dylid ei sicrhau, addasu'r amgylchedd y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn ei addysg ynddo, diwallu anghenion penodol plentyn neu berson ifanc ag ADY, monitro cynnydd y plentyn ac adrodd ar hynny.

Esboniodd y SACDAau fod BILlau yn deall ac yn cydnabod bod ganddynt ddyletswydd i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo angen, ac adolygu hyn fesul achos. Pan fydd y BILl yn derbyn atgyfeiriad, nodir iaith y DDdY sy'n ofynnol yn y ddogfennaeth a gwneir ymdrechion bob amser i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn yr iaith sydd ei hangen. [Troednodyn 10] Fodd bynnag, nodwyd hefyd, gan nad ydynt yn cadw data fel mater o drefn ar iaith DDdY a sicrheir gan y sector

[10] Mae atgyfeiriad o dan Adran 20 yn caniatáu i ALl neu gorff sy'n cynnal CDU ofyn i BILl ystyried a fyddai unrhyw driniaeth neu wasanaeth o fudd i ADY plentyn neu berson ifanc.

iechyd, nad yw'n bosibl cadarnhau faint o hynny sy'n cael ei ddarparu yn y Gymraeg.

Yn ymarferol, nododd rhanddeiliaid y gall DDdY a sicrheir gan gorff y GIG gynnwys therapi lleferydd ac iaith, ymyriadau ffisiotherapi i gefnogi mynediad i'r ystafell ddosbarth, mewnbwn ar ffurf therapi galwedigaethol ar gyfer anghenion echddygol manwl ac anghenion yn ymwneud â chyfarpar, ymyriadau CAMHS lle mae rheoleiddio emosiynol yn effeithio ar ddysgu, a mewnbwn achlysurol gan wasanaeth nyrsio arbenigol. Cadarnhaodd ysgolion eu bod hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws y rolau hyn, i gael cyngor a gwybodaeth, a bod lefelau amrywiol o gapasiti Cymraeg ar draws y gwasanaethau hyn (gweler adran 4.3 am ragor o fanylion am gapasiti'r gweithlu).

Mae BILlau yn ystyried ac yn sicrhau DDdY mewn ymateb i atgyfeiriadau o dan Adran 20 a gyflwynir gan ALlau. Awgryma'r cyfweliadau â SACDAau fod BILlau yn derbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau o dan Adran 20, ond mae'r nifer yn amrywio'n eang rhwng ardaloedd ac nid ydynt eto'n cael eu cofnodi'n systematig mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt gael eu dadansoddi yn ôl cyfrwng iaith. O'r herwydd, nid oes unrhyw gofnodion ynghylch a yw'r DDdY yn cael ei darparu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, yn ystod y cyfweliadau, dywedodd y SACDAau mai dim ond mewn cyfran fach iawn o achosion y gofynnir am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a chafwyd amrywiol ddisgrifiadau o hynny, fel “bron ddim”, “llond llaw” neu “tua 3-5%”.

Nododd SACDAau, er bod nifer yr atgyfeiriadau sy'n gofyn i DDdY gael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrff y GIG yn fach iawn, yn enwedig o'u cymharu â chyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, nad oedd unrhyw faterion na phryderon ynghylch bylchau mewn DDdY cyfrwng Cymraeg wedi cael eu dwyn i'w sylw gan gydweithwyr mewn BILlau. Mae'r rhesymau dros y nifer bach hwn o atgyfeiriadau yn aneglur a gallant gynnwys rhagdybiaethau gan rieni neu ysgolion ynghylch argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg neu ganfyddiad bod gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Esboniodd SACDAau, lle y gofynnir am DDdY cyfrwng Cymraeg, fod y BILlau yn adolygu'r cais ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni'r ddarpariaeth honno fesul achos ar ôl trafodaethau gydag ysgolion a theuluoedd. O ganlyniad, os nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei nodi mewn atgyfeiriadau o dan Adran 20, ni fyddai'n cael ei nodi na'i chofnodi fel darpariaeth sy'n ofynnol gan gyrff y GIG.

Mae'r nifer bach o atgyfeiriadau sy'n nodi bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg yn codi cwestiwn ehangach ynghylch i ba raddau y mae gwasanaethau a reolir gan gyrff y GIG yn cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg yn rhagweithiol. Cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yw'r prif ofyniad a amlinellir yn Mwy na geiriau er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel elfen graidd o ofal o safon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r nifer bach o atgyfeiriadau sy'n nodi bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg yn

codi cwestiynau ynghylch sut y mae'r Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddeall a'i roi ar waith.

### 4.2.4. Cyfyngiadau ar ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg

Er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi dweud y gallant ddarparu DDdY yng nghyfrwng iaith yr ysgol ei hun neu mewn achosion eraill (e.e. rhai ysgolion arbennig) yn newis iaith y dysgwr a'r teulu, nododd ymarferwyr hefyd rai cyfyngiadau ar eu gallu i wneud hyn oherwydd argaeledd CAau a CALUau. Mae'r aelodau hyn o staff yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY mewn ysgolion. Fodd bynnag, fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, nododd llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg heriau wrth recriwtio a chadw'r aelodau hyn o staff. Cyfeiriodd ymarferwyr sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg hefyd at heriau o ran cael gafael ar ddigon o adnoddau asesu a dysgu cyfrwng Cymraeg i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chyfleoedd dysgu a hyfforddi proffesiynol cyfrwng Cymraeg yn ymwneud ag ADY (gweler adrannau 4.3 i 4.4).

Fodd bynnag, nid yw pob DDdY yn cael ei darparu gan ymarferwyr ysgol. Yn aml, mae rhywfaint o gymorth a darpariaeth arbenigol, fel therapi lleferydd ac iaith a chymorth gan athrawon ADY peripatetig arbenigol, yn cael eu darparu gan yr ALl neu'r BILl. Mae tystiolaeth o ymweliadau astudiaethau achos ag ysgolion a chyfweliadau ag ymarferwyr yn amlinellu nad yw'r ddarpariaeth a gynigir gan y gwasanaethau hyn bob amser ar gael yn y Gymraeg. Nododd ysgolion ymhellach fod prinder Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg a all gefnogi ysgolion i ddarparu DDdY hefyd – gweler adran 4.3.1. Felly, gall y bylchau hyn yn y ddarpariaeth a'r cymorth cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan gyrff y tu allan i ysgolion gyfyngu ymhellach ar y graddau y gall ysgolion ddiwallu holl anghenion DDdY cyfrwng Cymraeg dysgwyr yn eu lleoliad.

O ran y ddarpariaeth gan ALlau, mae bylchau'n dod yn fwy amlwg fyth pan ystyrir anghenion dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys y rhai y mae angen ymyriadau arbenigol arnynt neu fynediad at leoliadau ysgol arbennig. Er y gwneir ymdrechion i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn mewn ysgolion prif ffrwd, nid yw hyn bob amser yn bosibl. Nid yw darpariaeth arbenigol ALlau sydd ei hangen ar y dysgwyr hyn ar gael yn gyson yn lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, mae teuluoedd yn aml yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng cael y cymorth arbenigol sydd ei angen ar eu plentyn a chael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Rhoddodd ymarferwyr enghreifftiau lle y cafodd dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu rhoi mewn lleoliadau arbenigol cyfrwng Saesneg, y tu allan i'r sir oherwydd nad oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfatebol ar gael yn eu hawdurdod lleol.

Tynnodd ysgolion ac ymarferwyr mewn ALlau sylw hefyd at achosion lle'r oedd darpariaeth arbenigol ar gael yn lleol neu o fewn pellter teithio rhesymol i ddysgwyr oedran cynradd, ond nid i'r rhai mewn ysgolion uwchradd. Mae'r diffyg parhad hwn yn creu heriau, gan y gall dysgwyr sy'n cael eu cefnogi'n dda mewn lleoliadau cynradd wynebu aflonyddwch neu gael llai o fynediad at ddarpariaeth briodol pan

fyddant yn trosglwyddo i addysg uwchradd. Roedd un enghraifft o hyn, a amlinellwyd gan ymarferwyr, yn ymwneud â dysgwr Blwyddyn 5 o aelwyd Gymraeg yr oedd angen lleoliad arbenigol yn yr ysgol uwchradd arno. Yr unig opsiwn a oedd ar gael oedd mewn lleoliad cyfrwng Saesneg, gan orfodi'r teulu i ddewis rhwng ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg heb gymorth arbenigol priodol, neu symud i ysgol arbennig gyda darpariaeth cyfrwng Saesneg.

Er gwaethaf y bylchau hyn yn y ddarpariaeth arbenigol, dywedodd sawl ALl ac ysgol y bu cynnydd yn ddiweddar. Dywedodd ambell ALl fod Canolfannau Adnoddau Arbenigol newydd wedi agor yn ddiweddar, neu eu bod wrthi'n cael eu datblygu, a disgwylir iddynt wella'r llwybrau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr ag anghenion cymhleth. Bwriad y datblygiadau hyn yw lleihau nifer yr achosion pan fo teuluoedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt gyfaddawdu ar eu dewis iaith er mwyn sicrhau DDdY addas (gweler adran 4.4 ar adnoddau). Fodd bynnag, nid oes unrhyw awdurdod lleol yn casglu nac yn cadw data systematig ar hyn o bryd ar nifer y teuluoedd a fyddai wedi dewis DDdY arbenigol cyfrwng Cymraeg mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol pe bai ar gael. Felly nid yw'n bosibl asesu'n llawn a yw'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael drwy'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol hyn yn diwallu'r holl anghenion yn llawn ac felly nid yw'n bosibl dod i gasgliad ynghylch a yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan ALlau, ysgolion a rhanddeiliaid ehangach hefyd yn tynnu sylw at rai heriau o ran cael mynediad at ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg pan fo cyrff y GIG yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth honno drwy atgyfeiriadau o dan Adran 20. Ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, mae ymyriadau clinigol, sef DDdY ac ymyriadau mwy cyffredinol, yn tueddu i gael eu darparu yn Saesneg neu dim ond yn Saesneg y maent ar gael. O ganlyniad, mae dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg y mae angen cymorth arnynt gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn aml yn derbyn y DDdY hon yn Saesneg yn unig.

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd rai datrysiadau pragmataidd yn ymwneud ag achosion penodol, sydd wedi cael eu defnyddio pan nad oes arbenigwyr cyfrwng Cymraeg ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys paru clinigwyr sy'n medru'r Gymraeg â rhai nad ydynt yn gallu siarad yr iaith er mwyn cynnal ymweliadau ar y cyd, cael cymorth gan CAau sy'n medru'r Gymraeg fel partneriaid iaith yn ystod ymweliadau ysgol, neu glinigwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg cyfyngedig neu lefel dechreuwyr i gefnogi'r rhyngweithio. Disgrifiwyd y dulliau hyn fel ymatebion ad hoc mewn nifer bach iawn o achosion, yn hytrach na DDdY cyfrwng Cymraeg wedi'i chynllunio neu DDdY cyfrwng Cymraeg rheolaidd.

Eglurodd ymarferwyr ysgol fod darpariaeth gan y gwasanaeth iechyd ar waith mewn rhai achosion cyn atgyfeiriad o dan Adran 20 a heb fod yn gysylltiedig â'r broses o ddatblygu CDU. O ganlyniad, mae'r cymorth hwn, fel therapi lleferydd ac iaith, yn cael ei ystyried yn barhad o ymyrraeth glinigol bresennol yn hytrach na DDdY sy'n

gysylltiedig â'r CDU. Yn yr achosion hyn, efallai fod y ddarpariaeth honno wedi dechrau yn Saesneg ac felly yn parhau i gael ei darparu yn Saesneg, hyd yn oed os yw'r dysgwr mewn lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gan y gwahaniaeth hwn oblygiadau o ran sut y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chysoni ag anghenion addysgol yn ogystal â sut y mae'n cael ei chofnodi fel rhan o'r DDdY a ddarperir.

Tynnodd ysgolion sylw hefyd at y ffaith, lle mae dysgwyr yn derbyn therapi lleferydd ac iaith neu therapïau eraill yn Saesneg, ei bod yn dilyn bod y 'patrymau a'r strategaethau lleferydd a ddatblygir hefyd yn Saesneg ac nad ydynt bob amser yn trosglwyddo'n effeithiol' i addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd ymarferwyr ysgol y gall hyn greu anghysondeb rhwng cymorth therapi a lleferydd ac iaith, ac iaith yr ystafell ddosbarth, gan gael effaith bosibl ar barhad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr unigol. Dywedodd athrawon ysgol fod yn rhaid iddynt addasu eu harferion yn yr ystafell ddosbarth i ystyried hyn, sy'n rhoi pwysau ychwanegol arnynt o ran eu llwyth gwaith.

Dywedodd rhai ALlau fod y diffyg cyfatebiaeth rhwng y cymorth a sicrheir gan gyrff y GIG a'r hyn a ddarperir mewn lleoliadau addysg wedi dod yn fwyfwy amlwg. Mae'r broblem hon yn waeth mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith, a oedd yn cael eu cydlynu ar y cyd â'r ALl gynt, wedi dychwelyd i fod yn gyfrifoldeb y BILl, gan ei gwneud yn anoddach i dimau ADY ddeall pa ddarpariaeth sydd ar gael a pha mor dda y mae'n cyd-fynd ag anghenion addysgol dysgwyr.

#### 4.2.5. Adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae Adran 63 o'r Ddeddf ADY yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau adolygu eu trefniadau ADY, gan gynnwys digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau adrodd ar y camau y maent yn eu cymryd i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o ALlau fod eu dull o adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda lleoliadau addysg i ystyried a oes ganddynt y capasiti i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn cynnwys adolygu eu mynediad at gymorth arbenigol, ac argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai ALlau fod agweddau ar y gwaith hwn hefyd yn dod o fewn cylch gwaith eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig lle mae'r ffocws yn ymwneud â thwf a chynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ledled Cymru, mae ALlau yn gyffredinol yn asesu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddull adweithiol yn bennaf lle y gwneir ymdrechion i ddarparu DDdY yn y Gymraeg os bydd ysgolion neu ddarparwyr addysg eraill yn adrodd bod angen cymorth arnynt i wneud hynny. I'r gwrthwyneb, os nad yw ysgolion a rhieni'n adrodd am unrhyw fylchau amlwg mewn cymorth penodol sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg, yna tybir bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Er bod y dull hwn sy'n cael ei arwain gan y galw yn sicrhau bod cymorth

yn cael ei gyfeirio at y mannau ble y gofynnir amdano'n benodol, mae hefyd yn codi cwestiynau ynghylch a yw angen heb ei ddiwallu bob amser yn weladwy ac yn cael ei ystyried.

Ar draws lleoliadau addysg, nododd ymarferwyr ansicrwydd ynghylch a yw iaith y ddarpariaeth a bennir mewn CDUau ar gyfer pob elfen o DDdY yn adlewyrchu anghenion ieithyddol y dysgwr yn gyson, ynteu a yw weithiau'n adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol. Fel y nodir uchod, nid yw pob DDdY yn cael ei darparu gan ymarferwyr ysgol, ac nid yw gwasanaethau a ddarperir gan staff arbenigol a gyflogir y tu allan i'r ysgol bob amser ar gael yn y Gymraeg. Awgrymwyd bod rhieni neu warcheidwaid plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml yn fodlon i'r elfennau hyn o DDdY gael eu darparu yn Saesneg os ydynt yn credu y byddant yn gallu cael mynediad at fwy o ddarpariaeth neu ddarpariaeth o fewn amserlen fyrrach.

Roedd enghreifftiau o hyn, a nodwyd gan CADYau, yn cynnwys mynediad at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith a gwasanaethau iechyd meddwl. Er enghraifft, nodwyd y gall llwybrau atgyfeirio cyfrwng Cymraeg ar gyfer gwasanaethau fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) arwain at amseroedd aros hirach weithiau, a all atal teuluoedd rhag gofyn am gymorth drwy gyfrwng Cymraeg. Fel y nododd un ymarferydd ysgol, mae teuluoedd yn aml yn blaenoriaethu cael mynediad at y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt yn hytrach nag iaith y ddarpariaeth, a gall hyn adlewyrchu sut y nodir yr angen hwn mewn CDUau.

Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd nad ydynt bob amser yn nodi'r angen am gymorth cyfrwng Cymraeg gan Seicolegwyr Addysg neu staff cymorth ADY eraill a gyflogir gan yr ALl os ydynt yn gwybod nad yw'r cymorth arbenigol hwn ar gael yn y Gymraeg neu os bydd cael gafael arno yn arwain at oedi. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar yr anghenion a nodiwyd mewn CDUau yn tanamcangyfrif lefel wirioneddol y galw am DDdY cyfrwng Cymraeg.

Esboniodd ALlau eu bod hefyd yn adolygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu gan ddefnyddio data blynyddol y CBGY. Mae hyn yn rhoi syniad o'r capasiti ieithyddol sydd ar gael i ddarparu DDdY yn y Gymraeg ac yn llywio penderfyniadau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff (trafodir hynny ymhellach yn adran 4.3).

Dywedodd nifer bach o ALlau eu bod wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar, neu eu bod yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd, o ddarpariaeth arbenigol yn eu hardal nhw. Mae'r adolygiadau hyn yn asesu i ba raddau y gall lleoliadau arbenigol - fel ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol sydd wedi'u lleoli ar safleoedd ysgolion prif ffrwd gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad daearyddol darpariaeth arbenigol ac a all dysgwyr ag ADY mwy cymhleth, sydd angen DDdY mwy dwys, gael mynediad at gymorth cyfrwng Cymraeg o fewn eu dalgylch lleol. Y nod yw sicrhau nad oes rhaid

i ddysgwyr deithio pellteroedd hir i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg briodol.

Ni ddarparwyd unrhyw enghreifftiau gan ALlau o ymgynghori â rheini neu ddysgwyr neu gynnal arolwg ohonynt i gasglu eu barn ynghylch a yw lefel y DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. Mae casglu adborth o'r natur hon yn ddull y gallai ALlau fod eisiau ei ystyried wrth adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u hadroddiadau blynyddol yn ffynhonnell o dystiolaeth ar sut y mae ALlau yn cyflawni eu dyletswydd i adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. O fewn y fframwaith hwn, mae'n ofynnol i ALlau fyfyrio'n flynyddol ar gynnydd yn erbyn pob un o ddeilliannau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Deilliant 6, ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Mae tystiolaeth o adroddiadau blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dangos bod bron yr holl ALlau yn hunanasesu eu cynnydd yn erbyn Deilliant 6 yn gadarnhaol fel gwyrdd neu oren. Mae'r hunanasesiadau hyn fel arfer yn adlewyrchu cynnydd o ran sefydlu darpariaeth newydd, cryfhau capasiti'r gweithlu, neu brosesau cynllunio ac adolygu, yn aml ochr yn ochr â chydnabyddiaeth o heriau parhaus, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd gweithlu arbenigol a chyrhaeddiad daearyddol y ddarpariaeth. Mewn sawl ALl, mae hunanasesiadau cadarnhaol yn gysylltiedig â darpariaeth sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y dyfodol, sy'n dangos bod sgoriau Coch, Oren a Gwyrdd yn aml yn adlewyrchu hyder yng nghyfeiriad y ddarpariaeth yn y dyfodol yn hytrach na chadarnhad bod y ddarpariaeth eisoes yn ddigonol.

Felly mae tystiolaeth y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn awgrymu bod ALlau yn asesu digonolrwydd yn seiliedig i raddau helaeth ar y galw cyfredol, datblygiadau arfaethedig a chapasiti ar lefel y system. Er bod hyn yn amlinellu'r ddarpariaeth bresennol a'r gwelliannau a gynlluniwyd, nid yw'r broses fel arfer yn ystyried a all lefelau presennol y galw newid neu gael eu dylanwadu gan argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg, nac a fyddai'r ddarpariaeth yn parhau i fod yn ddigonol pe bai lefel yr angen yn cynyddu.

### 4.2.6. Tystiolaeth ehangach yn ymwneud â darparu DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r canfyddiadau a amlinellir uchod yn atgyfnerthu'r canfyddiadau o'r sylfaen dystiolaeth ehangach, a gasglwyd fel rhan o'r Gwerthusiad o'r system ADY.

Mewn arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol (2025), mynegwyd barn gymysg ynglŷn â chynllunio a chyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion, SABau ac ALlau, o gymharu â thua hanner y rhai mewn BILlau yn cytuno bod y rhai sy'n ymwneud â pharatoi CDUau yn rhoi ystyriaeth briodol i a oes angen DDdY yn y Gymraeg ar ddysgwyr. O ran argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a

dwyieithog, dros hanner yr ymatebwyr o SABau ac ALlau a thua hanner yr ymatebwyr o BILlau yn cytuno bod DDdY ar gael yn y Gymraeg lle mae ei hangen.

Canfu adroddiad astudiaethau ardal leol (2026) fod y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd â niferoedd cymharol uchel o deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn nodi bod ganddynt ddigon o gapasiti i ddarparu DDdY yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys mewn ysgolion arbennig. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi heriau parhaus. Roedd y rhain yn cynnwys prinder adnoddau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer cymorth llythrennedd a dyslecsia, a disgrifiwyd bod rhai adnoddau yn hen ffasiwn. Tynnodd ysgolion sylw hefyd at gyfyngiadau ar y gweithlu, gan gynnwys prinder therapyddion lleferydd ac iaith sy'n medru'r Gymraeg ac anawsterau wrth recriwtio staff â sgiliau Cymraeg.

Nododd adolygiad o fframwaith deddfwriaethol Llywodraeth Cymru fod ymrwymiad cryf gan randdeiliaid i'r egwyddor o system ADY ddwyieithog a chymorth clir i ddysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd hefyd fod rhanddeiliaid wedi amlygu heriau wrth weithredu'r ddarpariaeth, gan gynnwys ystyriaethau'n ymwneud â'r gweithlu ac adnoddau, a oedd yn effeithio ar gysondeb y ddarpariaeth ddwyieithog.

Mae adroddiadau thematig Estyn (2023 a 2024) yn cydnabod yr ymrwymiad statudol i system ADY ddwyieithog ac yn nodi enghreifftiau o ymarfer cyfrwng Cymraeg effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd a lleoliadau â chapasiti Cymraeg sefydledig. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau hefyd yn tynnu sylw at yr heriau parhaus o ran datblygu a chynnal DDdY cyfrwng Cymraeg yn gyson ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau ar gapasiti'r gweithlu, argaeledd cymorth arbenigol ac adnoddau dysgu yn y Gymraeg ac amrywioldeb mewn cynllunio strategol ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau mwy arbenigol ac ôl-16.

#### 4.2.7. Crynodeb: Dyletswyddau a sut y darperir DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r adran uchod yn adolygu i ba raddau y mae dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael eu deall a sut y mae hynny'n cael ei ddarparu a'i gefnogi'n ymarferol. Mae hefyd yn trafod dulliau ALlau o adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae pwyntiau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r canfyddiadau yn dangos, er bod pob corff yn deall y ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg, mae penderfyniadau ynghylch a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg yn aml yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae anghenion y dysgwr yn ganolog i'r broses, fodd bynnag, mae iaith y ddarpariaeth o fewn lleoliad addysg y dysgwr hefyd yn ffactor allweddol. Mae argaeledd y ddarpariaeth, gan gynnwys faint o staff ac adnoddau sydd ar gael i ddarparu DDdY yn y Gymraeg, yn ogystal â chanfyddiadau ynghylch a fydd DDdY ar gael yn y Gymraeg, hefyd yn dylanwadu ar a ddylai eitemau o'r DDdY sydd wedi'u cynnwys mewn CDU gael eu darparu yn y Gymraeg.

Mae DDdY cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan gyrff y GIG yn parhau i fod yn isel ac nid yw'n cael ei monitro'n rheolaidd. Mae argaeledd y gweithlu, offer clinigol cyfyngedig cyfrwng Cymraeg, amrywiad mewn patrymau atgyfeirio a llwybrau clinigol cyfrwng Saesneg yn bennaf yn chwarae eu rhan o ran cyfyngu ar DDdY cyfrwng Cymraeg. Soniodd ysgolion hefyd am ystod o anghysondebau ymarferol rhwng cyd-destunau iechyd a chyd-destunau addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol sydd ar gael yn cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ym mhob ardal ledled Cymru. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth ar gael, mae materion fel pellteroedd teithio yn aml yn rhwystrau i fynediad.

Yn olaf, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adran hon yn awgrymu, er bod ALlau wedi ymrwymo i gefnogi DDdY cyfrwng Cymraeg, mae'r dulliau presennol o adolygu digonolrwydd yn dibynnu'n fawr ar ddull adweithiol sy'n cael ei arwain gan y galw nad yw bob amser yn crynhoi'r darlun llawn o ran yr angen. Mae hyn yn arbennig o wir lle y mae teuluoedd neu ysgolion yn tybio nad oes DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael ac felly nid ydynt yn gwneud unrhyw ymdrechion i'w nodi fel angen.

## 4.3. Y gweithlu a DDdY cyfrwng Cymraeg

Yn yr adrannau blaenorol rhoddwyd trosolwg o'r dyletswyddau sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg, a'r ffordd y caiff hynny ei ddarparu, gan dynnu sylw at broblemau a bylchau, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r gweithlu sydd â goblygiadau i ddigonolrwydd o fewn y system. Gan ei fod yn agwedd allweddol ar weithredu'r system ADY, mae'r adran hon yn cyflwyno rhagor o ddata ar y gweithlu ADY mewn ysgolion, ALlau a BILlau.

Mae data ar y gweithlu ysgolion ar gael drwy Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY). Dengys y data ar gyfer 2024/25 (a gasglwyd ym mis Tachwedd 2024) fod 390 o CADYau mewn 405 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnwys 335 mewn ysgolion cynradd, 15 mewn ysgolion pob oed (3 i 16/18 oed) a 35 mewn ysgolion uwchradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod rôl y CADY ar ei mwyaf effeithiol pan fydd yr unigolion hyn yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth ac yn gallu dylanwadu ar gyfeiriad strategol a phenderfyniadau'r ysgol.

Yn Nhabl 2 isod, rhoddir dadansoddiad o nifer y CADYau yn ôl 'categori staff' (h.y. eu prif rôl fel y nodir yn y CBGY). Dengys y data mai prif rôl tua hanner y CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (51.3%) a chyfrwng Saesneg (48.8%) oedd 'athro cymwysedig', a nododd 38.5% mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 30.4% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mai eu prif rôl oedd pennaeth, pennaeth gweithredol, dirprwy bennaeth, pennaeth dros dro neu bennaeth cynorthwyol. Roedd canran uwch o CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (15.4%) yn benaethiaid, o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg (5.3%).

**Tabl 2. CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn ôl categori staff 2024/25**

| Categori staff | Nifer y CADYau Ysgolion cyfrwng Cymraeg | Canran y CADYau Ysgolion cyfrwng Cymraeg | Nifer y CADYau Ysgolion cyfrwng Saesneg | Canran y CADYau Ysgolion cyfrwng Saesneg |
|---|---|---|---|---|
| Pennaeth gweithredol | * | . | 5 | 0.5% |
| Penaethiaid | 60 | 15.4% | 55 | 5.3% |
| Penaethiaid dros dro | 10 | 2.6% | 10 | 1.0% |
| Dirprwy benaethiaid | 45 | 11.5% | 150 | 14.5% |
| Penaethiaid cynorthwyol | 35 | 9.0% | 95 | 9.2% |
| Ymarferydd arweiniol | * | . | * | . |
| Athrawon cymwysedig | 200 | 51.3% | 505 | 48.8% |
| Cynorthwywyr addysgu | 5 | 1.3% | * | . |
| CALUau | . | . | 5 | 0.5% |
| Cydlynydd ADY (1) | 30 | 7.7% | 190 | 18.4% |
| Staff cymorth ADY | * | . | 5 | 0.5% |

Ffynhonnell: CBGY.

[Nodyn 1]: Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae “*” yn dynodi rhif rhwng 1-4. Mae “.” yn dynodi nad oes data ar gael. Ni ddangoswyd dadansoddiadau ar gyfer y categorïau staff canlynol oherwydd nad oedd data ar gael: Athro heb gymhwyso, Athrawon y Byddar, Rheolwr busnes ysgol, Staff cymorth bugeiliol, Staff cymorth arall, Cynorthwyydd addysgu lefel uwch, Cynorthwywyr ieithoedd tramor, Athrawon eraill gan gynnwys athrawon nad ydynt yn meddu ar statws SAC ond nad ydynt yn 'heb gymhwyso'. Mae Cydlynydd ADY (1) yn cynnwys unigolion y mae cydlynydd ADY yn brif rôl iddynt.

Nid yw'r data hyn yn ein galluogi i asesu o faint o CADYau sy'n aelodau o uwch dîm arwain eu hysgol ond mae'n rhoi syniad o'r prif rolau a gyflawnir gan Gydlynwyr ADY, gan ddangos bod canran uwch o CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dal rolau uwch o'u cymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a ddylid casglu data ar lefel unigol ynghylch a yw CADY yn aelod o'r uwch dîm arwain ai peidio.

Dangosir data ar allu CADYau (y rhai a restrir fel rhai y mae CADY yn brif rôl iddynt) a staff cymorth ADY o ran y Gymraeg yn Nhabl 3 isod. Mae'n dangos bod gan 16.9% o staff y nodwyd mai CADY yw eu prif rôl sgiliau Cymraeg hyfedr, o'u cymharu ag 11.4% o staff cymorth ADY.

**Tabl 3. Gallu CADYau o ran y Gymraeg ym mhob ysgol**

| Gallu yn y Gymraeg | Nifer y staff y mae CADY yn brif rôl iddynt | Canran y staff y mae CADY yn brif rôl iddynt | Nifer y staff cymorth ADY | Canran y staff cymorth ADY |
|---|---|---|---|---|
| Dim sgiliau | 45 | 15.3% | 1295 | 38.7% |
| Lefel Mynediad | 85 | 28.8% | 1070 | 32.0% |
| Lefel Sylfaen | 70 | 23.7% | 295 | 8.8% |
| Lefel Ganolradd | 25 | 8.5% | 140 | 4.2% |
| Lefel Uwch | 15 | 5.1% | 155 | 4.6% |
| Lefel Hyfedredd | 50 | 16.9% | 380 | 11.4% |
| Gwybodaeth heb ddod i law | . | . | * | * |
| Anhysbys | . | . | . | . |
| Cyfanswm | 295 | 100.0% | 3345 | 100.0% |

Ffynhonnell: CBGY.

[Nodyn 1]: Mae “*” yn dynodi rhifau rhwng 1 a 4 nad ydynt yn cael eu dangos oherwydd y potensial i ddatgelu enwau unigolion. Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf ac felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb i gyfanswm y rhesi.

Pan gaiff y data eu dadansoddi ymhellach yn ôl math o ysgol, dengys fod gan bob CADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg allu yn y Gymraeg ar lefel hyfedredd neu lefel uwch. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oedd gan y rhan fwyaf o Gydlynwyr ADY (84.4%) unrhyw allu yn y Gymraeg na gallu ar lefel mynediad neu lefel sylfaen, ac roedd gan 15.6% allu ar lefel ganolradd, uwch neu hyfedredd.

Mae Tabl 4 isod yn cyflwyno data ar allu ieithyddol staff cymorth ADY yn gyffredinol ac yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol. Dengys fod gan y rhan fwyaf o staff cymorth ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg allu ar lefel uwch neu lefel hyfedredd (79.3%), ond nid oedd gan y rhan fwyaf mewn ysgolion cyfrwng Saesneg unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl neu sgiliau Cymraeg ar lefel mynediad (84.0%).

**Tabl 4. Gallu staff cymorth ADY yn y Gymraeg**

| Gallu yn y Gymraeg | Nifer y staff cymorth ADY - pob ysgol | Canran y staff cymorth ADY - pob ysgol | Nifer y staff cymorth ADY - ysgolion cyfrwng Saesneg | Canran y staff cymorth ADY - ysgolion cyfrwng Saesneg | Nifer y staff cymorth ADY - ysgolion cyfrwng Cymraeg | Canran y staff cymorth ADY - ysgolion cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim sgiliau | 1295 | 38.7% | 660 | 41.5% | * | * |
| Lefel Mynediad | 1070 | 32.0% | 675 | 42.5% | 20 | 4.3% |
| Lefel Sylfaen | 295 | 8.8% | 165 | 10.4% | 25 | 5.4% |
| Lefel Ganolradd | 140 | 4.2% | 45 | 2.8% | 50 | 10.9% |
| Lefel Uwch | 155 | 4.6% | 20 | 1.3% | 110 | 23.9% |
| Lefel Hyfedredd | 380 | 11.4% | 25 | 1.6% | 255 | 55.4% |
| Gwybodaeth heb ddod i law | * | * | * | * | . | . |
| Anhysbys | . | . | . | . | . | . |
| **Cyfanswm** | **3345** | **100.0%** | **1,590** | **100.0%** | **460** | **100.0%** |

Ffynhonnell: CBGY.

[Noder]: Mae “*” yn dynodi rhifau rhwng 1 a 4 nad ydynt yn cael eu dangos oherwydd y potensial i ddatgelu enwau unigolion. Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf ac felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb i gyfanswm y rhesi.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd yn cyhoeddi Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Mae'r rhain yn dangos, ym mhob blwyddyn rhwng 2015 a 2021, bod 0.1% o athrawon ysgol uwchradd cofrestredig wedi hyfforddi mewn ADY/AAA fel rhan o'u haddysg gychwynnol i athrawon (AGA). Dengys y data hefyd, yn 2025, fod 1.6% o athrawon mewn ysgolion uwchradd ac athrawon mewn ysgolion 'pob oed (3 i 16/18 oed)' wedi'u cofrestru fel athrawon 'Anghenion Addysgol Ychwanegol'.

### 4.3.1. Digonolrwydd presennol y gweithlu

Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i ALlau nodi a oedd ganddynt nifer ddigonol o staff ADY arbenigol a oedd yn gallu cefnogi'r ddarpariaeth DDdY mewn ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y cwestiwn yn canolbwyntio'n benodol ar staff a gyflogir neu a reolir yn uniongyrchol gan yr ALl, yn hytrach na'r rhai a gyflogir gan ysgolion unigol.

Darperir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 5 isod. Dywedodd bron i hanner yr ALlau a atebodd (9 o blith 19) y cwestiwn nad oedd ganddynt ddigon o athrawon arbenigol sy'n medru'r Gymraeg i gefnogi dysgwyr ag amhariad ar eu golwg, amhariad ar eu clyw neu awtistiaeth ar draws eu hysgolion. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r

pryderon a amlygwyd yn adroddiad blynyddol yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) (heb ei gyhoeddi).

Er bod yr ymatebion ar y profforma yn tueddu i fod yn fyr ac nad oeddent yn cynnwys llawer o fanylion am achosion penodol yr annigonolrwydd a adroddwyd, awgryma'r dystiolaeth fod hyn yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau yn hytrach nag un mater unigol. Mae'r rhain yn cynnwys prinder cyffredinol athrawon arbenigol, anawsterau wrth recriwtio staff sydd â chymwysterau arbenigol yn ogystal â sgiliau Cymraeg, a gwytnwch cyfyngedig timau bach iawn. Dengys tystiolaeth gan ymarferwyr a rhanddeiliaid ymhellach fod y ddarpariaeth yn fregus oherwydd dibyniaeth ar niferoedd bach o staff unigol, pellteroedd teithio a'r angen i gynllunio ar gyfer achosion sy'n fach o ran nifer ond ble mae'r anghenion yn sylweddol.

O ran Seicolegwyr Addysg, dywedodd y rhan fwyaf o ALlau (13 o blith 20) fod ganddynt ddigon o Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, nododd chwe ALl nad oedd ganddynt ddigon o Seicolegwyr Addysg â sgiliau Cymraeg, a dywedodd tri o'r rhain nad oedd ganddynt unrhyw Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg. Roedd yr ALlau hyn wedi'u lleoli'n bennaf yn ne a de-ddwyrain Cymru, lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn groes i'r safbwyntiau a fynegwyd gan lawer o'r ysgolion sy'n rhan o'r astudiaethau achos a gymerodd ran yn yr adolygiad, a nododd y rhan fwyaf ohonynt fod prinder darpariaeth Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg yn eu hardal nhw. Fodd bynnag, dylid nodi bod pump o blith y 15 lleoliad addysg yr ymwelwyd â nhw wedi'u lleoli mewn ALlau a oedd eu hunain yn dweud bod ganddynt brinder Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg. Gall y gwahaniaeth hwn hefyd adlewyrchu gwahanol safbwyntiau ynghylch ystyr "digonolrwydd". Fel arfer, mae ALlau yn asesu digonolrwydd fel digon o gapasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, tra bod ysgolion yn barnu digonolrwydd yn seiliedig ar eu rhyngweithiadau uniongyrchol eu hunain, er enghraifft cael mewnbwn gan Seicolegydd Addysg drwy gyfrwng y Saesneg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Mae bregusrwydd capasiti'r gweithlu, a all fod yn ddibynnol ar un neu ddau aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg mewn rhai rolau, yn golygu y gall fod achosion (e.e. absenoldebau staff) lle mae'r capasiti'n ymddangos yn annigonol o safbwynt ysgolion. Hyd yn oed ymhlith ALlau a oedd yn ystyried bod eu darpariaeth o Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg yn ddigonol, mae'r niferoedd gwirioneddol a gyflogir yn fach, fel arfer rhwng un a phedwar Seicolegydd Addysg. Esboniodd sawl ALl ei fod yn asesu digonolrwydd drwy edrych ar y gymhareb o staff sy'n medru'r Gymraeg i staff nad ydynt yn gallu siarad yr iaith a'i chymharu â'r gymhareb o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg yn eu hardal. Fodd bynnag, nododd ALlau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr, er y gall lefelau staffio ymddangos yn ddigonol ar bapur, fod angen i'r nifer bach o arbenigwyr Cymraeg eu hiaith y maent yn eu cyflogi deithio pellteroedd maith yn aml i ddarparu cymorth lle mae ei angen. O ganlyniad, er yr adroddir bod lefelau

staffio cyffredinol yn ddigonol, gall argaeledd Seicolegydd Addysg sy'n medru'r Gymraeg ar yr adeg y mae ei angen fod yn fwy cyfyngedig yn ymarferol.

Tynnodd llawer o ALlau sylw hefyd at ba mor fregus yw timau arbenigol bach. Mewn achosion ble mai dim ond un neu ddau o Seicolegwyr Addysg neu athrawon arbenigol Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu cyflogi, gall ymadawiad un aelod o staff newid sefyllfa'r ALl o ddarpariaeth ddigonol i ddarpariaeth annigonol. Ynghyd â'r heriau recriwtio a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (adran 4.3.3), gall hyn arwain at fylchau hirfaith yn y cymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Mewn llawer o achosion, dywedodd ALlau nad oeddent yn siŵr a oedd nifer digonol o staff yn cael eu cyflogi fel therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, a staff iechyd corfforol eraill oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion roeddent yn cael eu cyflogi gan y BILl.

**Tabl 5. Digonolrwydd staff ADY arbenigol sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg: ymatebion i'r cwestiwn "Ydy'r nifer o staff ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr?"**

| Maes gwaith/maes arbenigedd staff ADY arbenigol | Ydy - nifer yr ALlau | Nac ydy - nifer yr ALlau | Ddim yn gwybod/Ddim yn berthnasol - nifer yr ALlau | Cyfanswm yr ALlau a atebodd y cwestiwn |
|---|---|---|---|---|
| Athro arbenigol sydd â chymwysterau ADY arbenigol (e.e. sy'n arbenigo mewn amhariad ar y golwg, amhariad ar y clyw, awtistiaeth) | 9 | 9 | 1 | 19 |
| Seicolegydd addysg | 13 | 6 | 1 | 20 |
| Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar | 10 | 6 | 2 | 18 |
| Swyddog/arweinydd cynhwysiant | 7 | 5 | 3 | 15 |
| Swyddog cefnogi (ADY yn benodol) | 8 | 4 | 2 | 14 |
| Rheolwr/arweinydd tîm/cydlynydd ADY | 10 | 4 | 3 | 17 |
| Staff eraill e.e. Athro / cynghorwyr dysgwyr | 2 | 4 | 6 | 12 |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 2 | 4 | 8 | 14 |
| Gweithiwr pontio | 2 | 3 | 4 | 9 |
| Swyddog cyswllt â theuluoedd (ADY yn benodol) | 3 | 3 | 5 | 11 |
| Unigolion hunangyflogedig (nodwch) | 0 | 2 | 9 | 11 |
| Therapyddion galwedigaethol | 0 | 2 | 11 | 13 |
| Staff iechyd corfforol eraill (nodwch) | 3 | 1 | 8 | 12 |
| Athrawon ymgynghorol neu arbenigol eraill (nodwch) | 12 | 1 | 4 | 17 |

Ffynhonnell: Profforma ALl

Er bod llawer o ALlau wedi nodi bod ganddynt ddigon o staff ADY arbenigol sy'n medru'r Gymraeg, roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn bod y cymorth a ddarparwyd drwy'r rolau hyn yn aml yn gyfyngedig yn ymarferol.

Tynnodd ysgolion sylw'n benodol at brinder mynediad at athrawon arbenigol sy'n medru'r Gymraeg ar gyfer amhariad ar y clyw a'r golwg a Seicolegwyr Addysg. Mewn llawer o achosion, dywedodd ysgolion eu bod yn addasu i'r cyfyngiadau hyn drwy roi arferion ar waith yn y Gymraeg, yn seiliedig ar gyngor a ddarparwyd yn Saesneg. Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion hefyd yn cytuno bod derbyn cymorth arbenigol, waeth beth fo'r iaith, yn well na derbyn dim cymorth neu brofi oedi, yn enwedig lle'r oedd ymyriadau uniongyrchol gyda dysgwyr yn rhai byrdymor. Awgryma'r dystiolaeth gan ysgolion fod y cyfyngiadau hyn yn effeithio'n bennaf ar amser a llwyth gwaith y staff, gan olygu bod angen ymdrech ychwanegol i ddehongli neu addasu canllawiau a ddarperir yn Saesneg.

Mae hyn eto'n codi'r cwestiwn ynghylch a yw asesiad ALlau bod ganddynt ddigon o staff arbenigol sy'n medru'r Gymraeg yn adlewyrchu'r lefel wirioneddol o angen. Yn hytrach, efallai y bydd yn adlewyrchu lefel y galw gan ysgolion, a allai fod yn is oherwydd bod ysgolion yn rhagdybio nad yw cymorth cyfrwng Cymraeg ar gael yn rhwydd.

Yn ogystal ag ystyried eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gofynnwyd i ALlau a oedd staff ADY arbenigol a gyflogwyd ganddynt yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth ddarparu cymorth. Dywedodd 15 o blith yr 20 ALl a ymatebodd eu bod yn ymwybodol o ymarferwyr ADY arbenigol a allai ddarparu DDdY yn y Gymraeg ond nad oeddent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, nododd dau ALl eu bod yn ymwybodol o achosion o'r fath ac nid oedd y tri a oedd yn weddill yn siŵr.

Yn ystod y cyfweliadau, nododd rhai ALlau fod hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn rhwystr i rai ymarferwyr, er bod y rhan fwyaf wedi nodi nad oedd y graddau yr oedd ymarferwyr arbenigol yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn eu gwaith yn rhywbeth yr oeddent yn ei fonitro'n rheolaidd.

**Tystiolaeth yn deillio o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Mae'r dystiolaeth sy'n deillio o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ALlau, gan gynnwys adroddiadau cynnydd blynyddol, yn rhoi cipolwg ychwanegol ar gapasiti'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg. Er bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amrywio o ran lefel y manylder, roeddent yn tynnu sylw'n gyson at faterion yn ymwneud â maint bach y timau arbenigol sy'n medru'r Gymraeg ar draws llawer o awdurdodau.

Dangosodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac adroddiad blynyddol un ALl sut y gall capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg amrywio'n sylweddol yn ôl rôl. Dywedodd yr ALl, er bod capasiti cryf o ran y Gymraeg mewn rhai gwasanaethau arbenigol, fel athrawon ymgynghorol ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, bod y capasiti'n gyfyngedig neu'n absennol mewn gwasanaethau eraill, gan gynnwys amhariad ar y golwg, rolau sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth a darpariaeth arbenigol ôl-16. Noda'r ALl y gall yr amrywiad hwn arwain at anghysondebau yn y ddarpariaeth, yn enwedig mewn lleoliadau llai neu leoliadau

gwledig, ac mae'n tynnu sylw at yr angen i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn rheolaidd drwy grwpiau llywio ADY a phrosesau cynllunio'r gweithlu.

At ei gilydd, awgryma'r dystiolaeth, er bod rhai ALlau yn ystyried bod eu gweithlu arbenigol sy'n medru'r Gymraeg yn ddigonol, bod bylchau mewn argaeledd athrawon arbenigol a Seicolegwyr Addysg i'w gweld yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'r ffaith bod timau'n fach o ran maint a phwysau daearyddol hefyd yn creu gwendidau a all effeithio'n sylweddol ar argaeledd a chysondeb staff a all gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg.

#### 4.3.2. Cyfleoedd a heriau'n ymwneud â recriwtio a chadw

Er bod y dystiolaeth yn y drafodaeth uchod yn dangos bod tua hanner yr ALlau wedi nodi bod ganddynt, ar hyn o bryd, niferoedd digonol o staff arbenigol ar draws ystod o rolau sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, nododd y mwyafrif heriau'n ymwneud â recriwtio a chadw'r gweithwyr hyn.

Mae Tabl 6 isod yn cyflwyno data ar yr heriau hyn. Dengys fod pob ALl a fynegodd farn wedi nodi anawsterau wrth recriwtio a chadw Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg. Awgryma'r dystiolaeth o'r cyfweliadau fod yr heriau hyn fel arfer yn cynnwys nifer o ymdrechion aflwyddiannus i lenwi swyddi, dibyniaeth ar niferoedd bach iawn o Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg, a'r angen i ddefnyddio trefniadau dros dro, rhan-amser neu dymor byr i gynnal capasiti. Disgrifiodd ALlau fod y ddarpariaeth yn arbennig o fregus pan fydd yn dibynnu ar un neu ddau o unigolion, a bod cyfnod mamolaeth, staff yn newid swyddi neu ddyrchafiad yn lleihau'r capasiti yn gyflym. Dywedodd sawl ALl hefyd fod penodi Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg yn aml yn golygu dibynnu ar gronfa genedlaethol fach iawn, a bod hyn yn arwain at oblygiadau i gapasiti mewn ALl eraill.

Mae'r adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) (heb ei gyhoeddi) hefyd yn nodi'r heriau y mae ALlau yn eu hwynebu wrth recriwtio Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg. Noda'r adroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i ddarparu 10 lle ar ei rhaglen Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysg a bod yn rhaid dyrannu o leiaf dri lle wedi'u hariannu ym mhob carfan newydd i siaradwyr Cymraeg neu fyfyrwyr sydd â'r gallu a'r ymrwymiad i ganiatáu iddynt weithio fel Seicolegwyr Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn iddynt raddio. Mae yna hefyd amod o fewn y comisiwn hwn bod yn rhaid i'r Seicolegwyr Addysg hyn weithio yng Nghymru am o leiaf 2 flynedd ar ôl cwblhau eu cwrs.

Yn yr adolygiad hwn, nododd rhai ALlau, mewn ymatebion ar y profforma ac yn y cyfweliadau, gan fod yr hyfforddiant presennol wedi'i leoli yng Nghaerdydd, y gallai fod yn llai hygyrch i ymgeiswyr o Ogledd Cymru, er yr ymchwilir i ddarpariaeth debyg ym Mhrifysgol Bangor hefyd. Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid hefyd, er bod y mesurau hyn i'w croesawu, y bydd yn cymryd amser iddynt gael effaith, oherwydd y

nifer bach o leoedd sydd ar gael a'r gofyniad i ymgeiswyr fod wedi cwblhau astudiaeth flaenorol ar lefel gradd a meddu ar brofiad proffesiynol perthnasol.

Nododd y rhan fwyaf o ALlau heriau tebyg hefyd mewn perthynas ag athrawon arbenigol ac ymgynghorol (17 o blith 20), yn ogystal â CAau a CALUau (14 o blith 18) sy'n gallu darparu DDdY yn y Gymraeg. Ar draws pob grŵp galwedigaethol, fe wnaeth mwy o ALlau nodi anawsterau recriwtio a chadw o gymharu â'r rhai na nododd hynny.

Nododd pob ALl o leiaf rai heriau recriwtio neu gadw staff mewn perthynas â rhannau o'u gweithlu arbenigol. Nid oedd yr heriau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl daearyddiaeth. Nododd ALlau mewn ardaloedd ble y siaredir Cymraeg yn bennaf neu Saesneg yn bennaf, yn ogystal ag mewn awdurdodau gwledig a threfol, faterion tebyg. Fodd bynnag, nododd dau ALl mewn ardaloedd a oedd yn rhai gwledig yn bennaf fod natur wledig a'r gallu i ddenu gweithwyr ADY arbenigol i weithio yn yr ardaloedd hyn wedi cyfrannu at eu heriau recriwtio.

Nododd ALlau y gall heriau wrth recriwtio staff arbenigol arwain at sefyllfaoedd lle y gall bylchau yn argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg barhau am beth amser nes bod y swyddi wedi'u llenwi. Nododd rhai y gall prinder ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg ar gyfer rhai rolau arbenigol arwain at benodi staff nad ydynt yn gallu siarad yr iaith, sy'n lleihau eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

**Tabl 6. Heriau recriwtio a chadw staff ADY arbenigol sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebion i'r cwestiwn: "A yw'n arbennig o anodd recriwtio a/neu gadw aelodau staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?"**

| **Maes gwaith/maes arbenigedd staff ADY arbenigol** | **Ydy -** (nifer yr ALlau) | **Nac ydy -** (nifer yr ALlau) | **Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol** - (nifer yr ALlau) | **Cyfanswm yr ALlau a atebodd y cwestiwn** |
|---|---|---|---|---|
| Seicolegwyr addysg | 18 | 0 | 0 | 18 |
| Athro arbenigol sydd â chymwysterau ADY arbenigol (e.e. sy'n arbenigo mewn amhariad ar y golwg, amhariad ar y clyw, awtistiaeth) | 17 | 3 | 0 | 20 |
| Cynorthwywyr Addysgu (CAau) a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) | 14 | 2 | 2 | 18 |
| Athrawon ymgynghorol neu arbenigol eraill (nodwch) | 12 | 5 | 1 | 18 |
| Swyddog/arweinydd cynhwysiant | 9 | 2 | 5 | 16 |
| Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar | 9 | 4 | 7 | 20 |
| Swyddog cefnogi (ADY yn benodol) | 8 | 2 | 9 | 19 |
| Rheolwr/arweinydd tîm/cydlynydd ADY | 8 | 4 | 6 | 18 |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 7 | 1 | 10 | 18 |
| CADY | 6 | 6 | 5 | 17 |
| Swyddog cyswllt â theuluoedd (ADY yn benodol) | 6 | 3 | 7 | 16 |
| Gweithiwr pontio | 6 | 1 | 8 | 15 |
| Therapyddion galwedigaethol | 6 | 0 | 11 | 17 |
| Staff iechyd corfforol eraill (nodwch) | 5 | 0 | 12 | 17 |
| Unigolion hunangyflogedig (nodwch) | 2 | 0 | 12 | 14 |
| Arall (nodwch) | 3 | 0 | 8 | 11 |

Ffynhonnell: Profforma yr ALl

Holwyd ysgolion hefyd ynglŷn â heriau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn ystod y gwaith maes, gyda llawer yn adleisio barn yr ALlau a gyflwynir uchod. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn wynebu heriau parhaus o ran cadw niferoedd digonol o CAau a CALUau i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg. Dywedodd ysgolion fod cyfyngiadau cyllido yn cyfyngu ar eu gallu i gyflogi staff ychwanegol gan dynnu tynnu sylw hefyd at heriau'n ymwneud â denu ymgeiswyr addas, gan nodi bod y cyflog cymharol isel sy'n gysylltiedig â rolau CAau yn gwneud recriwtio'n anodd. Mae hyn hefyd yn adleisio'r canfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol (heb ei gyhoeddi) yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) yn 2025.

Dywedwyd bod cadw CAau sy'n medru'r Gymraeg yn her sydd yr un mor arwyddocaol. Nid oedd cynrychiolwyr ysgolion yn credu bod hyn wedi cael effaith ar brofiadau dysgwyr ond yn hytrach ei fod wedi creu pwysau gwaith ychwanegol i uwch arweinwyr ac athrawon wrth geisio goresgyn y prinder hwn. Tynnodd ysgolion

sylw at amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau cadw myfyrwyr is, gan gynnwys y ffaith bod cyflogau mwy cystadleuol ar gael mewn sectorau eraill a natur heriol y rôl. Yn benodol, dywedodd ysgolion fod gofyn i CAau yn aml gefnogi dysgwyr ag ADY y gall eu hymddygiad fod heriol hefyd.

Soniodd ysgolion eraill am brofiadau mwy cadarnhaol gan gynnwys achosion lle roedd CAau a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn eu swyddi ers sawl blwyddyn ac yn cael eu hystyried yn rhan annatod o ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol. Nododd un ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ardal ble y siaredir Saesneg yn bennaf, fod recriwtio CAau sy'n medru'r Gymraeg o'r ardal leol wedi bod yn heriol yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i fwy o ddysgwyr lleol symud ymlaen drwy'r system addysg cyfrwng Cymraeg, roedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned wedi cynyddu. O ganlyniad, dywedodd yr ysgol ei bod bellach yn aml yn recriwtio cyn-ddisgyblion â'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i swyddi fel CAau i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl SABau, roedd y staff a oedd yn gallu darparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig, yn bennaf oherwydd prinder staff sy'n medru'r Gymraeg, a ddisgrifiwyd fel problem gyffredinol yn y gweithlu, ond un a oedd yn arbennig o wir wrth geisio recriwtio i rolau staff cymorth. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn eu lleoliadau yn fach ac felly yn aml nid oedd angen darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, lle roedd angen cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, dywedodd SABau eu bod yn aml yn dibynnu ar ddatrysiadau anffurfiol, fel ailddyrannu staff sy'n medru'r Gymraeg i ddarparu cymorth hyd yn oed os nad oedd hynny'n rhan o'u rolau arferol. Esboniodd un SAB fod ei gapasiti cyffredinol o ran DDdY eisoes dan bwysau, a bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar ddim ond dau aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg, a oedd yn cyfyngu ar gysondeb ac argaeledd y cymorth.

### 4.3.3. Monitro a rheoli sgiliau'r gweithlu

Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio meithrin dealltwriaeth o sut y mae ALlau yn defnyddio data sy'n ymwneud â'r capasiti o fewn y gweithlu i ddarparu DDdY. Dengys y canfyddiadau fod rhywfaint o anghysondeb yn y ffordd y mae ALlau yn monitro sgiliau Cymraeg eu gweithlu. Mae rhai ond yn cofnodi sgiliau iaith y staff pan gânt eu recriwtio, tra bod eraill yn adolygu hyfedredd yr holl staff yn y Gymraeg bob blwyddyn, fel arfer fel rhan o brosesau AD ehangach. Mae'r rhai sy'n adolygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu yn rheolaidd yn aml yn cynnig hyfforddiant i'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau. Yn yr achosion hyn, mae monitro a hyfforddiant iaith yn berthnasol i weithlu ehangach yr ALl, nid dim ond i rolau sy'n gysylltiedig ag ADY.

Dywedodd nifer bach o ALlau ei bod yn ofynnol i'r holl staff y maent yn eu cyflogi allu siarad Cymraeg, ond roeddent yn cydnabod y gall bodloni'r disgwyliad hwn fod yn heriol mewn rhai rolau arbenigol. Nododd rhai ALlau eu bod yn adolygu ac yn monitro sgiliau Cymraeg eu staff yn seiliedig ar y CBGY i lywio penderfyniadau ar

recriwtio a chadw staff. Er bod sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi drwy'r CBGY, nid yw'r data'n olrhain gallu yn y Gymraeg yn benodol mewn ffordd sy'n cefnogi cynllunio'r gweithlu'n fanwl gan nad yw'r dulliau hyn yn gyffredinol yn gwahaniaethu rhwng gallu cyffredinol yn y Gymraeg a'r sgiliau neu anghenion penodol sy'n ofynnol i ddarparu DDdY.

Dywedodd un ALl ei fod yn monitro'r galw am gymorth ADY cyfrwng Cymraeg gan ysgolion a, lle y gwelir cynnydd, ei fod yn dynodi rhai swyddi o fewn y tîm ADY fel rhai ble mae'r Gymraeg yn hanfodol. Nid yw'n hysbys eto i ba raddau y bydd y dull hwn yn mynd i'r afael â'r heriau recriwtio ac efallai bod hwn yn faes y dylid ymchwilio ymhellach iddo mewn adolygiadau yn y dyfodol. Cyfeiriodd nifer bach o ALlau hefyd at gymryd rhan mewn mentrau fel Cymraeg Gwaith, a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i gefnogi datblygu sgiliau Cymraeg ymhlith y staff, a hynny o fewn gwasanaethau ADY ac yn ehangach ar draws y gweithlu. Roedd enghreifftiau'n cynnwys datblygu cynigion dysgu wedi'u teilwra a mynediad at sesiynau hyfforddi byr, sy'n canolbwyntio ar y gweithle, i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

At ei gilydd, mae'r arferion monitro i adolygu capasiti'r gweithlu ar draws ALlau yn anghyson, ac nid yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ar y gweithlu yn cefnogi'n llawn y gwaith o gynllunio ar gyfer darparu DDdY cyfrwng Cymraeg ac, yn ei dro, y broses o sicrhau darpariaeth ddigonol.

#### 4.3.4. Hyfforddiant datblygiad proffesiynol cyfrwng Cymraeg

Yn ogystal ag archwilio sut y mae ALlau yn mynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu cyfrwng Cymraeg drwy recriwtio a chadw staff, ystyriodd yr adolygiad hefyd y camau a gymerwyd i gryfhau capasiti drwy ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr ADY.

Dywedodd ysgolion ac ALlau fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol neu hyfforddiant ADY arbenigol achrededig sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig iawn. Nododd dau ALl yn eu hymatebion ar y profforma ar gyfer yr adolygiad hwn, os oedd staff nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn cael eu recriwtio i rolau lle y nodwyd bod y Gymraeg yn un o ofynion y swydd, eu bod yn darparu cymorth ar ffurf hyfforddiant iaith Gymraeg i'r unigolion hyn a/neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau hyn o staff ddysgu'r iaith o fewn cyfnod penodol o amser. Fodd bynnag, nid wnaeth yr adolygiad hwn archwilio i ba raddau y mae'r dulliau hyn yn arwain at staff yn gallu darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn ymarferol.

Er bod rhai ALlau yn darparu eu hyfforddiant ADY cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog eu hunain ar gyfer ymarferwyr ysgol, dim ond yn Saesneg y cynhelir llawer o gyrsiau allanol neu arbenigol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau ac elusennau sy'n cwmpasu'r DU gyfan. O ganlyniad, mae ymarferwyr ADY cyfrwng Cymraeg yn aml yn mynychu hyfforddiant cyfrwng Saesneg ac yna'n defnyddio neu'n cyfleu cynnwys yr hyfforddiant yn y Gymraeg i gydweithwyr yn eu

hysgol, ac mae hyn yn aml yn rhoi pwysau ychwanegol ar amser y staff. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o heriol lle nad yw terminoleg neu fframweithiau arbenigol yn hawdd eu cyfieithu. Ar ben hynny, nododd ymarferwyr, mewn rhai meysydd fel therapi lleferydd ac iaith, dyslecsia, gwybyddiaeth a dysgu, ac agweddau ar niwroamrywiaeth a dwyieithrwydd, fod y mater yn ymestyn y tu hwnt i iaith yr hyfforddiant ac i gynnwys yr hyfforddiant ei hun. Yn yr achosion hyn, efallai na fydd cyrsiau Saesneg yn adlewyrchu dulliau na chyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigonol, gan olygu bod yn rhaid i ymarferwyr ddibynnu ar eu haddasiad anffurfiol eu hunain neu gymorth gan gymheiriaid. Nododd ymarferwyr fod angen mwy o hyfforddiant sy'n ystyried yn benodol y defnydd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Nododd cynrychiolwyr ALlau hefyd nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw lwybrau hyfforddi arbenigol yng Nghymru ar gyfer cymwysterau gorfodol sy'n ofynnol i addysgu plant a phobl ifanc sydd ag amhariad ar eu golwg neu sy'n fyddar. Er y gellir cael mynediad at yr hyfforddiant hwn yn Lloegr, nid yw ei gynnwys a'i ddarpariaeth yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru, y Gymraeg, na'r system ADY.

Tynnodd ALlau yng ngogledd Cymru sylw at y ffaith bod yr hyfforddiant cyfyngedig sydd ar gael i Seicolegwyr Addysg yn y rhanbarth yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu at yr heriau parhaus yn ymwneud â recriwtio a datblygu Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg.

#### 4.3.5. Capasiti'r gweithlu mewn BILlau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg

Ochr yn ochr ag asesu digonolrwydd y gweithlu o fewn ALlau, archwiliodd yr adolygiad hefyd i ba raddau yr oedd capasiti ar gael o fewn y gweithlu ar draws BILl i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg.

Dangosodd tystiolaeth o gyfweliadau â SACDAau ac ymarferwyr iechyd y gall heriau o ran y gweithlu a chapasiti o fewn cyrff y GIG ddylanwadu ar sut y darperir DDdY cyfrwng Cymraeg, er bod hynny o fewn cyd-destun o alw cofnodedig isel iawn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gweithwyr iechyd proffesiynol â sgiliau Cymraeg wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ledled Cymru, yn ddaearyddol ac yn ôl arbenigedd clinigol. Er yr adroddwyd bod gan rai rhanbarthau gyfrannau cymharol uchel o glinigwyr sy'n medru'r Gymraeg, roedd gan eraill gapasiti cyfyngedig iawn. Hyd yn oed pan oedd clinigwyr sy'n medru'r Gymraeg ar gael, nododd SACDAau ac ymarferwyr iechyd ei bod yn bosibl na fyddai arbenigwyr sy'n medru'r Gymraeg mewn meysydd fel therapi lleferydd ac iaith, anhwylder datblygu iaith, anghenion cymhleth neu nyrsio arbenigol ar gael, gan greu bregusrwydd posibl o fewn y ddarpariaeth. Cyfeiriodd ysgolion at enghreifftiau o fethu â chael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg gan BILlau a allai fod yn arwydd o bwysau ar y gweithlu neu gyfyngiadau ar gapasiti mewn rhai meysydd arbenigol.

Dywedodd SACDAau mai dim ond cyfran fach o'r DDdY sydd i'w sicrhau gan gyrff y GIG y nodwyd bod angen ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan amcangyfrif nad yw hyn yn fwy na 3-5% o achosion lle y caiff DDdY ei sicrhau gan gyrff y GIG. Fodd bynnag, nid oedd pob BILl yn gallu darparu data ar gyfran y DDdY a sicrhawyd gan y GIG a ddarparwyd yn y Gymraeg. Lle y nodwyd bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg, nid oedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o achosion lle nad oedd hyn wedi cael ei ddarparu.

Roedd rhai o'r heriau'n ymwneud â'r gweithlu a adroddwyd gan SCADAau yn ymwneud ag absenoldebau tymor byr, fel absenoldeb mamolaeth neu salwch, yn enwedig o fewn gwasanaethau bach neu arbenigol iawn. Mewn achosion o'r fath, dywedodd SACDAau y gallai trefniadau dros dro gynnwys clinigwyr Saesneg eu hiaith yn darparu ymyriadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, wedi'u cefnogi gan gamau rhesymol fel ymweliadau ar y cyd, neu ddefnyddio staff ysgol sy'n medru'r Gymraeg. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gallai'r trefniadau hyn gynyddu'r pwysau ar staff a systemau ond nodwyd nad oeddent yn ymwybodol o dystiolaeth o effeithiau andwyol ar ddysgwyr.

Tynnodd y SACDAau sylw hefyd at gyfyngiadau o ran data'r gweithlu a data monitro o fewn y GIG ac er bod rhywfaint o wybodaeth leol yn bodoli ac y gallai fod ar gael i rai timau, nid oedd set ddata gyson a oedd yn gwahaniaethu rhwng staff iechyd a all ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n gwneud hynny fel mater o drefn yn eu hymarfer.

Yn gyffredinol, roedd SACDAau yn cydnabod y gallai fod prinder staff mewn rhai meysydd o'r gweithlu. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd ddweud nad oedd hyn wedi eu hatal rhag sicrhau DDdY i ddysgwyr yn seiliedig ar lefelau cyfredol yr angen a gofnodwyd. Mae tystiolaeth gan ysgolion yn dangos nad yw hyn o bosibl yn adlewyrchu lefel anghenion y dysgwyr yn llawn. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, efallai na fydd rhai ysgolion yn gofyn am gymorth cyfrwng Cymraeg oherwydd eu bod yn tybio na fydd ar gael, ond nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn dylanwadu ar batrymau atgyfeirio. O ganlyniad i hyn a chyfyngiadau ar ddata, nododd y SACDAau ei bod yn anodd asesu digonolrwydd capasiti'r gweithlu presennol, yn enwedig o fewn gwasanaethau arbenigol, pe bai'r gofynion ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg yn newid.

#### 4.3.6. Tystiolaeth ehangach yn ymwneud â'r gweithlu

Mae canfyddiadau'r adolygiad a nodir uchod yn ategu tystiolaeth ehangach gan ALlau, ysgolion a SABau a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad o'r system ADY yn ogystal ag adroddiadau thematig Estyn (2023 a 2024). Dengys y ffynonellau hyn mai capasiti'r gweithlu yw un o'r cyfyngiadau mwyaf arwyddocaol ar ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, gan gadarnhau bod ysgolion yn nodi anawsterau'n ymwneud â recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg digonol a chael mynediad at gymorth gan staff mewn rolau arbenigol. Mae Archwilio Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan gyrff cyhoeddus ddarlun cyflawn o sgiliau’r gweithlu a’u gallu ieithyddol, gan

gyfyngu ar y gallu i gynllunio'n effeithiol a chynaliadwyedd hirdymor. Mae canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru yn dangos ymrwymiad proffesiynol cryf i system ADY ddwyieithog, ond mae prinder staff arbenigol ac arbenigedd cyfrwng Cymraeg anghyson ar draws y rhanbarthau yn parhau i effeithio ar gysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth.

### 4.3.7. Crynodeb: Y gweithlu a DDdY cyfrwng Cymraeg

Yn yr adran hon, trafodwyd rôl y gweithlu o ran gweithredu a darparu DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae'n dangos bod safbwyntiau ar ddigonolrwydd y gweithlu yn amrywio gyda rhai ALlau yn nodi bod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu gweithlu ac eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod bylchau sylweddol sy'n deillio o gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys prinder cyffredinol athrawon arbenigol, anawsterau'n ymwneud â recriwtio staff sydd â'r arbenigedd mewn ADY a'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, a bregusrwydd timau bach.

Hyd yn oed mewn achosion lle yr adroddodd ALlau bod ganddynt ddigon o staff ADY arbenigol sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, nododd bron pob ALl y gall recriwtio unigolion i'r rolau hyn fod yn heriol oherwydd nifer bach y gweithwyr proffesiynol sydd ar gael a chymhlethdodau'n gysylltiedig â theithio mewn ardaloedd gwledig mawr. Cyfeiriwyd hefyd at gyfleoedd hyfforddi ADY arbenigol cyfyngedig drwy gyfrwng y Gymraeg, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gyfieithu neu addasu cynnwys Saesneg. At hynny, dywedwyd nad oedd rhai mathau o hyfforddiant arbenigol ar gael yng Nghymru neu nad oedd yr hyfforddiant yn cyd-fynd ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r canfyddiadau'n dangos, ar draws BILlau, fod clinigwyr sy'n medru'r Gymraeg wedi'u dosbarthu'n anghyfartal, a bod nifer cyfyngedig ar gael mewn meysydd arbenigol fel therapi lleferydd ac iaith, anhwylder datblygu iaith ac anghenion cymhleth. Fodd bynnag, mae'r galw a gofnodwyd am DDdY cyfrwng Cymraeg sydd i'w ddarparu gan BILlau yn fach iawn, ac mae cyfyngiadau o ran data'r gweithlu a data monitro yn ei gwneud yn anodd asesu'r capasiti gwirioneddol ar draws y BILlau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg ac a yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion y dysgwyr.

Er mwyn mynd i’r afael â'r bylchau, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau i gynyddu’r cyflenwad o ddarparwyr sy’n medru'r Gymraeg drwy ariannu lleoedd hyfforddi ychwanegol a gwersi Cymraeg i recriwtiaid nad ydynt yn gallu siarad yr iaith, ond mae effeithiolrwydd hyn o ran galluogi darpariaeth DDdY a gwella ei digonolrwydd yn parhau i fod yn aneglur ar hyn o bryd.

## 4.4. Adnoddau a DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae adnoddau dysgu, gan gynnwys deunyddiau ffisegol a digidol a mannau ffisegol, yn alluogwyr pwysig o ran darparu DDdY cyfrwng Cymraeg a diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud ag asesiad yr adolygiad hwn o'r graddau y mae offer diagnostig ac adnoddau dysgu ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY ar gael yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cyflwyno canfyddiadau ar y ddarpariaeth o fannau ffisegol pwrpasol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn benodol canolfannau addysgu arbennig a dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd.

### 4.4.1. Adnoddau dysgu cyffredinol

Dywedodd bron pob ysgol nad yw'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY yn debyg eto i'r ystod o ddeunyddiau Saesneg sydd ar gael. Mae'r anghydraddoldeb hwn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod llawer o adnoddau arbenigol, yn enwedig offer digidol a chynhyrchion masnachol, yn cael eu datblygu y tu allan i Gymru ac felly'n cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig.

O ganlyniad, ac fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'n rhaid i CADYau sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg gyfieithu deunyddiau Saesneg i'r Gymraeg yn aml er mwyn gallu eu defnyddio yn eu hysgolion. Mae'r gwaith cyfieithu ychwanegol hwn yn cynyddu llwyth gwaith CADYau cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'u cymheiriaid mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae cyfieithu adnoddau o'r Saesneg i'r Gymraeg nid yn unig yn llafurus ac yn cymryd llawer o amser, mae hefyd yn codi pryderon ynghylch cysondeb a safoni'r deunyddiau sydd wedi'u cyfieithu. Ni wnaeth yr adolygiad hwn asesu a yw safon y deunyddiau a gynhyrchwyd yn cael ei heffeithio fel rhan o'r broses gyfieithu, nac a yw eu defnyddio yn ymarferol yn effeithio ar y cymorth a ddarperir i ddysgwyr. Serch hynny, mae'n debygol y byddai CADYau mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn croesawu rhagor o gymorth i leihau'r angen i gyfieithu adnoddau.

Cyfeiriodd ysgolion hefyd at enghreifftiau o adnoddau cyfrwng Saesneg na ellir eu cyfieithu'n hawdd i'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau sy'n cynnwys terminoleg nad yw'n cyfieithu'n uniongyrchol, yn ogystal ag adnoddau datblygu iaith yn seiliedig ar ffoneg ac ynganiad Saesneg, nad ydynt yn berthnasol i'r Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, y dewis i ymarferwyr yw defnyddio adnoddau cyfrwng Saesneg nad ydynt o bosibl yn addas at y diben neu beidio â chael unrhyw adnodd addas o gwbl. Er nad yw effaith hyn ar ddeilliannau dysgwyr yn glir, mae'r cyfyngiadau hyn yn cyfyngu ar allu ymarferwyr i gael mynediad at ddeunyddiau priodol i'w helpu i ddarparu cymorth.

Mae cynnydd yn dechrau cael ei wneud yn y maes hwn drwy waith Adnodd ac eraill, sy'n datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog newydd i fynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau a nodwyd gan eu hymchwil eu hunain a'u hymgysylltiad

â'r sector addysg. Darperir rhagor o fanylion am y datblygiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

Dywedodd ysgolion fod adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg weithiau’n cael eu rhyddhau sawl mis ar ôl cyhoeddi’r fersiynau Saesneg cyfatebol, gan olygu ei bod yn rhaid i ysgolion gyfieithu'r deunyddiau eu hunain yn y cyfamser. Mae adnoddau braille yn cymryd mwy o amser fyth, gan greu oedi dwbl i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag amhariad ar eu golwg, sy'n gorfod aros am adnoddau Cymraeg yn gyntaf, ac yna'n gorfod aros eto am fersiynau braille o'r adnoddau hyn. Dadleuodd rhai ysgolion y dylid comisiynu adnoddau Cymraeg, Saesneg a braille ar yr un pryd er mwyn sicrhau mynediad teg. Mae Adnodd bellach yn comisiynu adnoddau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd ac yn gweithio â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) i ehangu'r ddarpariaeth braille ac felly dylai'r gwelliannau hyn fod ar gael i ddysgwyr cyn bo hir.

#### 4.4.2. Technoleg ac adnoddau digidol

Nid yw cyfieithu adnoddau ynddo'i hun yn sicrhau bod yr un adnoddau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er y gellir cyfieithu rhai adnoddau, ni ellir cyfieithu nac atgynhyrchu offer sy'n seiliedig ar dechnoleg fel platfformau ar-lein yn hawdd yn y Gymraeg. Mae hwn hefyd yn bwynt a amlinellwyd gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) yn ei adroddiad blynyddol 2025 (heb ei gyhoeddi) sy'n cynnwys argymhelliad ar gyfer cydweithio pellach â datblygwyr technoleg i sicrhau bod technolegau cymorth iaith yn cael eu hintegreiddio i DDdY cyfrwng Cymraeg.

Nododd ymarferwyr ysgol a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn fod llawer o raglenni ymyrraeth ddigidol a gynlluniwyd ar gyfer meysydd penodol o angen, fel awtistiaeth, ADHD neu ADD, yn cael eu creu gan ddarparwyr rhyngwladol neu fasnachol ac yn aml maent ond ar gael yn Saesneg, a gall trwyddedau olygu na chaniateir eu cyfieithu. Yn ogystal â hynny, mae elusennau a sefydliadau arbenigol y DU yn y meysydd hyn fel arfer yn cynnig eu hyfforddiant a'r adnoddau cysylltiedig yn Saesneg yn unig.

Nododd ymarferwyr mewn cyd-destunau ysgolion arbennig hefyd fod deunyddiau digidol ar gyfer anghenion difrifol neu ddwys bron yn gyfan gwbl yn Saesneg, gan gyfyngu ar y graddau y gellir cynnig DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg hyd yn oed pan fydd gan staff y sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn effeithio ar barhad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r dysgwyr hyn, ac o bosibl eu cynnydd yn y Gymraeg yn ogystal â chael effaith ar eu profiad dysgu cyffredinol.

Fodd bynnag, er bod yr adolygiad hwn wedi nodi nifer o enghreifftiau o heriau a chyfyngiadau'n ymwneud ag argaeledd adnoddau digidol cyfrwng Cymraeg, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud o ran argaeledd yr adnoddau hyn. Un enghraifft o hyn yw prosiect cyfredol, wedi'i arwain gan arbenigwyr o'r RNIB ac ymarferwyr o Gymru, sy'n anelu at gryfhau hygyrchedd

dwyieithog i ddysgwyr ag amhariad ar eu golwg drwy foderneiddio a safoni braille Cymraeg ar draws adnoddau addysgol a thechnoleg ddigidol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddwy elfen sy'n ategu ei gilydd: yn gyntaf, datblygu "tablau dysgu" braille Cymraeg strwythuredig a thempled fformatio Cymraeg wedi'i ddiweddaru, gan alluogi addysgu sy'n addas i oedran a chynhyrchu deunyddiau braille Cymraeg yn gyson, ac yn ail, creu tablau braille Cymraeg llawn i'w defnyddio gan raglenni darllen sgrin ac arddangosfeydd braille.

### 4.4.3. Digonolrwydd yr adnoddau presennol

Gofynnwyd i ALlau yn uniongyrchol a oes ganddynt ddigon o adnoddau dysgu priodol, a chyflwynir y canfyddiadau yn Nhabl 7 isod. Nododd dros hanner yr 20 o ALlau a fynegodd farn ar hyn nad oeddent yn teimlo bod ganddynt fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn wir am yr holl adnoddau ond yn arbennig o wir am offer diagnostig ac asesu ADY.

Esboniodd rhai ALlau a nododd fod ganddynt ddigon o adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg eu bod wedi dod i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffaith nad oedd ysgolion yn aml yn gofyn am ddeunyddiau ychwanegol, gan eu bod yn “tueddu i ddatblygu eu rhai eu hunain”. Gall hyn adlewyrchu patrwm ehangach lle na ofynnir am adnoddau oherwydd bod ysgolion yn tybio nad ydynt yn bodoli ac, o ganlyniad, nid oes adnoddau’n cael eu datblygu oherwydd na ofynnir amdanynt. Fel y dywedodd un ysgol: “Dydyn ni ddim yn gofyn amdanyn nhw oherwydd nad ydyn nhw'n bodoli.”

**Tabl 7. Ymatebion yr ALl i'r cwestiwn “Nodwch yn y tabl isod a oes gennych fynediad at ddigon o adnoddau dysgu priodol (digidol neu nad ydynt yn ddigidol) yn Gymraeg yn eich ALl i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg”.**

| Y math o adnoddau | ‘Oes’ - nifer yr ALlau | ‘Nac oes’ - nifer yr ALlau | ‘Ddim yn gwybod’ - nifer y ALlau | Cyfanswm yr ALlau a atebodd y cwestiwn |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Mynediad at yr holl offer diagnostig ac asesu ADY Cymraeg i gefnogi gofynion ADY cyfrwng Cymraeg | 3 | 12 | 4 | 19 |
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi rhifedd | 4 | 11 | 5 | 20 |
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi lles emosiynol | 5 | 11 | 4 | 20 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi llythrennedd | 6 | 10 | 4 | 20 |

Ffynhonnell: Profforma yr ALI

### Adnoddau diagnostig / asesu

Tynnodd ALlau ac ysgolion sylw at y ffaith nad oedd unrhyw asesiadau diagnostig cyfrwng Cymraeg cwbl safonedig ar gael. Roedd hyn yn cynnwys offer asesu ar gyfer derbyn ieithyddol a mynegi ieithyddol, dod o hyd i eiriau, dyslecsia, ac ADD. Nodwyd bylchau hefyd mewn asesiadau iaith y blynyddoedd cynnar ac mewn offer llythrennedd, y disgrifiwyd rhai ohonynt fel hen ffasiwn neu anhygyrch. Nododd un o'r tri ALI a ddywedodd bod ganddynt fynediad at asesiadau cyfrwng Cymraeg hefyd fod yr offer asesu yn aml yn gyfyngedig o ran eu cwmpas ac nad oeddent yn diwallu'r ystod lawn o anghenion diagnostig ADY.

Dywedodd ALlau ac ysgolion mai dim ond yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf o adnoddau ar gyfer asesiadau diagnostig ar gael. Mewn achosion lle nad oedd yn bosibl cyfieithu'r adnoddau hyn, cynhaliwyd asesiadau yn Saesneg fel arfer, hyd yn oed ar gyfer dysgwyr a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle y gallai ymarferwyr gyfieithu offer Saesneg, dywedodd ALlau ac ysgolion na ellid defnyddio'r rhain i gynhyrchu sgorau safonedig, sy'n tanseilio dibynadwyedd y canlyniadau a'r gallu i'w cymharu. Nid oedd yn glir o'r dystiolaeth sydd ar gael a oedd hyn yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr unigol, ac i ba raddau, ac efallai fod hwn yn faes y mae angen ymchwilio ymhellach iddo.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, gan gynnwys datblygiadau diweddar mewn asesiadau llythrennedd a gwaith sydd ar y gweill ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i ehangu'r offer cyfrwng Cymraeg safonedig. Yn 2024, ariannodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddatblygu profion cyfrwng Cymraeg newydd i nodi anawsterau llythrennedd ymysg disgyblion ysgol uwchradd. Bydd y profion newydd hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r bylchau a nodwyd fel rhan o'r adolygiad hwn drwy ddarparu asesiadau a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer y Gymraeg.

### Adnoddau llythrennedd

Cyfeiriodd bron pob CADY o ysgolion cyfrwng Cymraeg at brinder adnoddau llythrennedd cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY. Un bwlch allweddol a nodwyd oedd argaeledd deunyddiau darllen sy'n addas i oedran a cham darllen y disgyblion. Nododd un ysgol fod straeon cymdeithasol yn adnodd allweddol a ddefnyddir i annog dysgwyr ag ADY i ymgysylltu â deunyddiau llythrennedd. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr ysgol wedi nodi bod digon o adnoddau sy'n addas i oedran a cham dysgu'r disgyblion ar gyfer straeon cymdeithasol ar gael yn Saesneg, nid yw'r un peth yn wir am y Gymraeg.

Nododd rhai ymarferwyr ysgol fod prinder yr adnoddau hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio llyfrau darllen Cymraeg sydd wedi'u hanelu at blant iau (e.e. Blynyddoedd 2-4) i gefnogi dysgwyr hŷn (e.e. Blwyddyn 6) y mae eu sgiliau darllen yn dal i ddatblygu. Er y gallai strwythur a lefel darllen y llyfrau hyn fod yn briodol ar gyfer cam darllen y dysgwyr hŷn hyn, yn aml nid oedd y cynnwys na'r pwnc yn apelio atynt gan wneud ymgysylltu â'r deunyddiau yn fwy heriol.

Mae Adnodd eisoes yn mynd i'r afael â rhai o'r prinder hwn ac ar hyn o bryd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ystod o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog newydd i gefnogi dysgwyr ag ADY yn well. Gan weithio gyda'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg), mae Adnodd wedi comisiynu cyfres ddarllen cyfrwng Cymraeg newydd drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Yn y pen draw, bydd y gyfres yn cynnwys 24 o lyfrau sy'n addas i oedran ac wedi'u strwythuro ar draws pedwar cam llythrennedd, gan ganiatáu i athrawon baru dysgwyr â deunyddiau sy'n adlewyrchu'r lefel darllen a aseswyd a'u hamrywiadau ieithyddol rhanbarthol. Mae'r cam cyntaf wedi cael ei gomisiynu a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2027, a chaiff camau pellach eu comisiynu ar ôl i hwn gael ei werthuso.

Mae Adnodd hefyd yn cydweithio â'r RNIB i wella mynediad at ddeunyddiau'r cwricwlwm i ddysgwyr dall neu'r rhai ag amhariad ar eu golwg. Mae hyn yn cynnwys rhaglen dwy flynedd i gynhyrchu fersiynau print bras a braille o destunau'r cwricwlwm, yn ogystal â deunyddiau newydd sy'n addas i oedran i gefnogi pobl ifanc sy'n dysgu braille - gan adeiladu ar adnoddau cynharach a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr iau.

Mae adnoddau ychwanegol hefyd wedi cael eu comisiynu i gefnogi Iaith Arwyddion Prydain (BSL), gan ategu deunyddiau sydd eisoes ar gael ar Hwb. Un newid allweddol yn null gweithredu Adnodd yw datblygu adnoddau newydd ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn hytrach na llenwi bylchau yn yr adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd eisoes ar gael yn Saesneg, er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau yn yr adnoddau sydd ar gael yn y ddwy iaith.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a gynhyrchwyd gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) (heb ei gyhoeddi) hefyd yn cyfeirio at ddatblygiadau eraill sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu technoleg newydd fel rhaglenni darllen cyfrifiadurol ar gyfer arholiadau. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid datblygu rhaglenni llythrennedd digidol.

### Adnoddau rhifedd

Cododd ysgolion ac ALlau bwyntiau tebyg i'r rhai a godwyd ar gyfer adnoddau eraill mewn perthynas â'r adnoddau rhifedd cyfrwng Cymraeg. Nododd ymarferwyr ysgol eu bod yn wynebu dewis rhwng defnyddio adnoddau cyfrwng Saesneg, neu greu eu

fersiynau Cymraeg eu hunain, a allai fod yn llai deniadol neu apelgar i ddysgwyr, o ganlyniad.

Mae enghraifft a amlygwyd gan un ysgol yn dangos sut y mae'r anghydraddoldeb hwn yn dod yn fwy amlwg fyth pan fo angen adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr ag amhariad ar eu golwg. Cyfeiriodd yr ysgol at ddysgwr blwyddyn 10 ag amhariad ar ei olwg a oedd yn astudio TGAU mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dysgwr wedi wynebu llawer o heriau ar hyd y daith, ac mae llawer ohonynt yn deillio o ddiffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg priodol sydd wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion dysgwyr ag amhariad ar eu golwg. Nododd yr ysgol ei bod wedi'i synnu gan y diffyg adnoddau addas gan gwestiynu sut yr oedd y sefyllfa hon wedi codi. Roedd yn tybio mai'r rheswm tebygol am hyn oedd y ffaith nad yw dysgwyr â nam ar eu golwg fwy na thebyg yn astudio TGAU mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn astudio'r pwnc yn Saesneg yn lle hynny, gan ei bod yn debygol y bydd mwy o adnoddau ar gael i gefnogi dysgwyr yn Saesneg. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i brofi a yw hyn yn wir. Fodd bynnag, erys bwlch ar hyn o bryd yn yr adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i gefnogi myfyrwyr TGAU mathemateg ag amhariad ar eu golwg.

#### 4.4.4. Tystiolaeth ehangach yn ymwneud ag adnoddau dysgu

Mae canfyddiadau'r adolygiad a nodir uchod yn atgyfnerthu tystiolaeth ehangach gan ALlau, ysgolion a SABau. Er enghraifft, canfu adroddiad astudiaethau ardal leol y gwerthusiad o'r system ADY nad oedd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ddeunyddiau Cymraeg priodol yn aml, yn enwedig i ddarparu cymorth ar gyfer llythrennedd a dyslecsia, a disgrifiwyd bod rhai adnoddau yn hen ac yn annigonol ar gyfer anghenion presennol.

Yn yr un modd, amlygodd ymarferwyr a ymatebodd i arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y gwerthusiad o'r system ADY brinder adnoddau cyfrwng Cymraeg, gan nodi nad oedd deunyddiau o'r un ystod na'r un safon â deunydd cyfrwng Saesneg ar gael bob amser, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ddarparu cymorth teg. Nododd adroddiad yr arolwg hefyd fod y broblem hon yn fwy amlwg mewn perthynas ag ymyriadau arbenigol, lle mae fersiynau cyfrwng Cymraeg o offer, asesiadau, neu raglenni strwythuredig yn gyfyngedig neu ddim ar gael. Pwysleisiodd ymarferwyr fod y bwlch hwn yn effeithio ar addysgu o ddydd i ddydd a DDdY wedi'i dargedu, a'i fod yn cyfrannu at anghysondeb yn y ffordd y mae darpariaeth ddwyieithog yn cael ei rhoi ar waith ar draws lleoliadau.

Mae adroddiadau thematig Estyn (2023 a 2024) yn ategu'r darlun hwn, gan nodi bod bylchau mewn adnoddau cyfrwng Cymraeg arbenigol yn cyfyngu ar gyflwyno DDdY, yn enwedig mewn cyd-destunau mwy arbenigol neu ôl-16 lle mae llai o ddeunyddiau ar gael.

### 4.4.5. Crynodeb: Adnoddau a DDdY cyfrwng Cymraeg

Yn yr adran hon, trafodwyd rôl adnoddau dysgu wrth ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg. Dengys y canfyddiadau yr ystyrir nad yw'r lefelau presennol o adnoddau yn ddigonol. Mae'r adnoddau dysgu a diagnostig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i gefnogi DDdY yn fwy cyfyngedig na'r adnoddau cyfatebol cyfrwng Saesneg. Mae offer digidol a thechnolegol yn cyflwyno heriau ychwanegol gan fod llawer ohonynt ar gael yn Saesneg yn unig ac mae cyfyngiadau trwyddedu yn aml yn golygu na chaniateir eu cyfieithu. Ategir y canfyddiadau hyn gan dystiolaeth ehangach gan Estyn, Archwilio Cymru a'r gwerthusiad o'r system ADY.

Er bod prinder cydnabyddedig o adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd, mae cynnydd yn cael ei wneud a dylai rhagor o adnoddau i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn y dyfodol agos. Felly, dylai cynnydd yn y maes hwn fod yn nodwedd allweddol o'r adolygiad pum mlynedd nesaf yn 2031.

## 4.5. Dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd darpariaethau arbennig yn cael eu datblygu ar safleoedd ysgolion prif ffrwd sydd â'r nod o annog mwy o ddysgwyr ag ADY i aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r adran hon yn adrodd ar y canfyddiadau ynghylch sut y mae'r darpariaethau'n cael eu rhoi ar waith.

### 4.5.1. Dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd

Nid oes diffiniad swyddogol o ddosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd, fodd bynnag, disgrifiwyd y rhain gan randdeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn fel mannau pwrpasol o fewn ysgolion, sy'n darparu ymyriadau a ariennir drwy gyllidebau ysgol dirprwyedig. Mae'r lleoliadau hyn yn galluogi ysgolion i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr ag ADY, a ddisgrifir fel arfer gan ysgolion fel darpariaeth sydd wedi'i bwriadu i gefnogi dysgwyr i barhau i ymgysylltu ag addysg brif ffrwd, er enghraifft lle ffisegol pwrpasol ar gyfer cyflwyno ymyriadau i ddysgwyr ag ADY.

Tynnodd llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal ag ALlau, sylw at y ffaith bod nifer o ddosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion wedi'u sefydlu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd yn ddiweddar.

Mae twf y dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd wedi'i ysgogi gan gynnydd yn nifer y dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a chan bwyslais polisi cryfach ar gadw dysgwyr ag ADY o fewn addysg brif ffrwd lle bynnag y bo modd. Dywedodd un ysgol uwchradd, er enghraifft,

fod ei dosbarth arbennig dynodedig gan yr ysgol wedi'i greu'n bennaf i gefnogi dysgwyr Blwyddyn 7 ag ADY yr oedd pontio i'r ysgol uwchradd yn arbennig o heriol iddynt.

Nododd rhai ysgolion, cyn cyflwyno'r dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion, fod rhai teuluoedd di-Gymraeg yn ystyried bod yr her bosibl o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr ychwanegol i blant ag ADY ac yn aml yn ystyried symud eu plentyn i leoliad cyfrwng Saesneg er mwyn dileu'r rhwystr canfyddedig hwn. Nododd yr ysgolion hyn fod presenoldeb dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau prif ffrwd wedi helpu i roi sicrwydd i lawer o'r teuluoedd hyn y bydd eu plentyn yn cael cymorth priodol o fewn yr amgylchedd cyfrwng Cymraeg a bod hynny wedi arwain at fwy o ddysgwyr ag ADY yn aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at gau'r bwlch rhwng cyfran y dysgwyr ADY yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf (dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bennaf) a'r rhai yr addysgir Cymraeg iddynt fel ail iaith (gweler adran 4.1).

### 4.5.2. Canolfannau Adnoddau Arbenigol

Cyfeiriodd ALlau at sefydlu rhagor o ganolfannau adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg, sef darpariaethau sy'n seiliedig ar leoliad a ariennir yn ganolog gan ALlau ac a gynlluniwyd i gefnogi dysgwyr ag ADY sylweddol neu fwy cymhleth. Fel arfer, mae'r rhain wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion prif ffrwd ac yn gweithredu gyda staff arbenigol ymroddedig sy'n cynnig cymorth strwythuredig, parhaus i ddysgwyr. Mae lleoliadau mewn canolfannau adnoddau arbenigol fel arfer yn amodol ar gymeradwyaeth gan baneli ALlau.

Cyfeiriodd ALlau hefyd at gynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth o ganolfannau adnoddau arbenigol. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr sydd â lefelau uwch o angen gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Yn flaenorol, byddai llawer o'r dysgwyr hyn wedi mynychu ysgolion arbennig lle roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig neu ddim ar gael.

Mae rhai o'r canolfannau adnoddau arbenigol hyn yn gwasanaethu dysgwyr o ardal ddaearyddol eang. Mae hyn yn ehangu cwmpas daearyddol y ddarpariaeth ond wrth wneud hynny gall greu rhai heriau o ran mynediad. Mae pellteroedd teithio hir yn golygu nad yw rhai dysgwyr yn gallu aros yn yr ysgol yn hwyrach yn y dydd, gan gyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel clybiau ar ôl ysgol. Gall hyn, yn ei dro, gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer datblygu iaith, cynhwysiant ac ymgysylltu â'r gymuned.

Fe wnaeth sawl ALl gydnabod y mater hwn gan ddweud eu bod yn adolygu dosbarthiad a hygyrchedd eu dosbarthiadau arbennig dynodedig gan yr ysgol mewn cyfleusterau prif ffrwd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ar draws pob ardal gael mynediad at ddarpariaeth briodol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn ychwanegu at ganfyddiadau adroddiadau thematig Estyn (2023 a 2024) a ganfu fod canolfannau adnoddau arbenigol yn cael eu defnyddio'n helaeth ar draws y system ADY gyfan a bod eu hansawdd yn amrywio, a bod anghysondebau o ran y ffordd y cânt eu cynllunio gan ALlau.

### 4.5.3. Crynodeb

Felly, mae'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn yn dangos bod y cynnydd yn y dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn lleoliadau prif ffrwd a chanolfannau adnoddau arbenigol wedi galluogi mwy o ddysgwyr a chanddynt ADY mwy cymhleth i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg. Ymddengys hefyd fod y cynnydd mewn dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg prif ffrwd wedi annog mwy o ddysgwyr ag ADY i aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg nag a fyddai wedi digwydd fel arall. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn aneglur a yw argaeledd a gallu'r staff i ddarparu'r lefel o DDdY sydd ei hangen ar ddysgwyr o fewn y canolfannau adnoddau arbenigol hyn yn ddigonol neu'n darparu cymorth sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

## 4.6. Profiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr o DDdY cyfrwng Cymraeg

Mae'r bennod hon yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol o brofiadau nifer bach o rieni/gofalwyr plant o oedran ysgol gorfodol, dysgwyr ag ADY, a sawl rhanddeiliad perthnasol. Gwnaed ymdrechion i gynnal cyfweliadau gyda dysgwyr ôl-16 ag ADY, fodd bynnag, nid oedd modd trefnu'r rhain o fewn amserlenni'r adolygiad. Nid yw'r safbwyntiau a gyflwynir wedi'u bwriadu i gynrychioli profiadau'r holl ddysgwyr ag ADY a'u teuluoedd ledled Cymru. Yn hytrach, maent yn rhoi cipolwg ar brofiad rhai dysgwyr a rhieni o DDdY cyfrwng Cymraeg.

### 4.6.1. Profiadau o gael cynnig a derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg

**Barn rhieni**

Mae tystiolaeth gan y rhieni yr ymgysylltwyd â nhw yn awgrymu bod y ffordd y cynigir DDdY cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng lleoliadau, yn dibynnu ar ofynion dysgwyr a theuluoedd.

Esboniodd un rhiant mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fod darparu cymorth cyfrwng Cymraeg yn rhan o ymarfer arferol yr ysgol. Nid oedd angen gofyn amdano a dywedodd fod cyfathrebu a chyfarfodydd cyson yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yn ymwybodol o'i hawliau mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg ac yn teimlo bod yr ysgol yn darparu hyn yn ddigwestiwn. Dywedodd y rhiant fod ei blentyn wedi cael cymorth yn y Gymraeg, yn unol â'i ddewis, a bod y CADY wedi bod yn "wych" o ran nodi anghenion a rhoi mesurau ymarferol ar waith (e.e. mannau tawel, seibiannau symud).

Esboniodd rhiant arall yr oedd ei phlentyn wedi symud o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ysgol arbennig yn ddiweddar nad oedd DDdY cyfrwng Cymraeg wedi bod yn berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Roedd y plentyn yn dod o aelwyd Saesneg ac roedd yn well ganddo gyfathrebu yn Saesneg ac felly nid oedd angen DDdY cyfrwng Cymraeg arno. Fodd bynnag, dywedodd y rhiant ei bod yn gwerthfawrogi cael staff a allai siarad Cymraeg yn yr ysgol arbennig gan fod ei phlentyn yn deall geiriau a chaneuon Cymraeg ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. I'r teulu hwn, nid iaith y DDdY oedd y brif broblem ond mynediad at gymorth arbenigol priodol, ac roedd yn teimlo bod hyn wedi gwella ar ôl trosglwyddo i'r ysgol arbennig.

Disgrifiodd rhiant plentyn mewn ysgol arbennig arall amgylchedd lle roedd staff yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda dysgwyr a oedd yn deall yr iaith, ond bod y DDdY yn cael ei darparu yn Saesneg. Dywedodd y rhiant ei fod wedi cael ei holi ynglŷn â dewis iaith ei blentyn yn ystod y cyfnod pontio o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'r ysgol arbennig ac roedd yn teimlo bod yr ysgol yn cymryd ei farn o ddifrif. Saesneg oedd dewis iaith y plentyn, ond roedd y rhieni eisiau i'w plentyn allu cael mynediad at gymorth gan staff a oedd yn medru'r Gymraeg, ac roedd yr ysgol yn gallu cynnig hynny. Roedd staff y lleoliad yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, ond Saesneg oedd prif iaith y DDdY. Roedd y rhieni'n fodlon ar y trefniant hwn, gan fod eu plentyn yn fwy hyderus yn ymateb yn Saesneg.

Dywedodd rhiant plentyn mewn ysgol arbennig sy'n cynnig DDdY cyfrwng Cymraeg y gofynnwyd iddo beth oedd ei ddewisiadau ieithyddol a'i fod wedi cael cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliad lle roedd gan bob dosbarth staff a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhiant hwn yn fodlon ar y ddarpariaeth gan nodi bod DDdY cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys prosesau CDU, ar gael yn gyfleus. Roedd y rhiant hefyd o’r farn nad oedd y lefel hon o fynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael mewn rhannau eraill o Gymru o bosibl.

**Barn dysgwyr**

Nid oedd dysgwyr a gyfwelwyd mewn lleoliadau cynradd cyfrwng Cymraeg yn gwahaniaethu rhwng cymorth cyfrwng Cymraeg a chymorth cyfrwng Saesneg. Fe wnaethant ddisgrifio eu bod yn derbyn cymorth yn naturiol yn y Gymraeg neu drwy gymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg, yn dibynnu ar y gweithgaredd, ac roeddent yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar y ffaith eu bod yn cael cymorth neu gefnogaeth nag ar yr iaith a ddefnyddiwyd, gan nodi bod rhai mathau o gymorth fel esboniadau un-i-un weithiau'n cael eu darparu yn Saesneg ochr yn ochr â'r Gymraeg.

Esboniodd dysgwyr mewn lleoliad cyfrwng Saesneg uwchradd y gallent siarad â llawer o staff yn Gymraeg pe baent yn dymuno hynny, ond bod y DDdY yn cael ei darparu yn Saesneg. Dywedwyd bod modd iddynt ddewis yr iaith ar gyfer rhai gweithgareddau dysgu a thasgau eraill, fel llenwi ffurflenni, ac roeddent yn fodlon ar y trefniant hwn.

Dywedodd dysgwyr a gyfwelwyd mewn un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg fod cael cymorth yn 'ystafell dawel' neu 'ardal lles' yr ysgol wedi eu helpu i rannu eu gwaith yn gamau llai, mwy ymarferol a lleihau straen. Fe wnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael cymorth ad hoc a chysylltiadau anffurfiol yn y lle hwn, naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar yr iaith y gwnaethant gychwyn y sgwrs ynddi.

Cymharol brin oedd y manylion a roddodd y dysgwyr am y cymorth yr hoffent ei gael ond nad oeddent wedi gallu cael mynediad ato, ond daeth rhai themâu i'r amlwg. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr mewn lleoliadau uwchradd cyfrwng Saesneg yn teimlo eu bod wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Fe wnaethant sôn am eu profiadau cadarnhaol o gael cymorth un-i-un yn Saesneg ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod staff dwyieithog ar gael i siarad Cymraeg â nhw pan oeddent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedodd un dysgwr a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd ei fod eisiau “mwy o sgyrsiau gydag athrawon yn Gymraeg” wrth ryngweithio'n anffurfiol.

#### 4.6.2. Rhwystrau i DDdY cyfrwng Cymraeg

Dywedodd rhanddeiliaid a oedd yn gweithio gyda rhieni fod teuluoedd yn aml yn teimlo dan bwysau i wneud penderfyniadau pragmataidd rhwng cael cymorth arbenigol a dewis neu barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar gyfnodau pontio allweddol fel y symud o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd ac o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dywedwyd bod yn rhaid i deuluoedd gydbwyso mynediad at gymorth arbenigol â pharhau ag addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig lle y canfyddir bod DDdY cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig neu nad yw ar gael, yn enwedig i ddysgwyr ag anghenion mwy cymhleth.

Yn gyffredinol, dywedodd y sampl fach o rieni a gyfwelwyd fel rhan o'r arolwg iddynt gael profiadau cadarnhaol o gymorth a DDdY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Lle y cyfeiriodd rhieni at heriau, roeddent yn ymwneud ag amseroedd aros am ddiagnosis gan y GIG yn hytrach nag unrhyw anawsterau o ran cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion neu gan gyrff y GIG. Lle y dywedodd rhieni y bu oedi, er enghraifft cyn cael asesiadau diagnostig a darpariaeth arall, roeddent yn priodoli'r rhain i amseroedd aros y GIG a phwysau ar gapasiti yn hytrach nag i ddewis iaith.

Disgrifiodd un rhiant i blentyn mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ei fod yn hapus gyda lefel y cymorth a'r cyswllt gan ysgol ei blentyn, a bod y cyfan wedi'i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond dywedodd ei fod ar restr aros dwy flynedd a hanner y GIG ar gyfer asesiad (ADHD/awtistiaeth) a chydnabu nad oedd yn llwyr ddeall y broses atgyfeirio. Nid oedd y rhiant yn teimlo bod yr oedi hwn wedi cael effaith sylweddol ar ei blentyn oherwydd y cymorth a'r DDdY a ddarparwyd gan ysgol y plentyn.

Dywedodd rhiant plentyn a oedd yn mynychu ysgol arbennig fod ei blentyn wedi derbyn DDdY yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys therapi lleferydd ac iaith ond roedd yn credu bod argaeledd arbenigwyr cyfrwng Cymraeg yn amrywio ledled Cymru. Er bod y rhiant yn ystyried bod y ddarpariaeth yn gryf mewn rhannau o ranbarth y gogledd-orllewin, roedd yn ymwybodol y gallai teuluoedd mewn mannau eraill orfod cyfaddawdu ar ddewis iaith oherwydd nad yw darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gael bob amser.

Ni wnaeth rhieni nodi unrhyw rwystrau o fewn ysgolion eu hunain. Ym mhob un o'r cyfweliadau, dywedwyd bod ysgolion yn gallu darparu'r DDdY yr oedd ei hangen ar eu plant a, lle y bo'n berthnasol, ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yn unol â'r canfyddiadau a drafodir uchod, nododd rhai rhieni eu bod yn credu bod angen i staff yr ysgolion gyfieithu neu greu deunyddiau cyfrwng Cymraeg eu hunain yn aml oherwydd bylchau yn yr adnoddau presennol. Teimlai'r rhieni hyn fod hynny'n ychwanegu at lwyth gwaith staff yn ysgol eu plentyn a, heb ymdrechion ychwanegol y staff, y gallai hynny fod yn rhwystr i blant dderbyn cymorth yn y Gymraeg.

Dywedodd rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda rhieni hefyd fod rhai teuluoedd yn ansicr ynghylch eu hawliau mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg. Disgrifiwyd gwybodaeth anghyson ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru ac eglurder cyfyngedig ynghylch pa gymorth ddylai fod ar gael yn rhesymol drwy gyfrwng y Gymraeg fel ffactorau a oedd yn cyfrannu at ddryswch i deuluoedd. Mewn rhai achosion, dywedwyd bod yn rhaid i rieni ddibynnu ar gyngor anffurfiol neu gael asesiadau preifat i'w helpu i ffeindio'u ffordd drwy'r system ADY. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ADY: pecyn cymorth i rieni a gofalwyr i geisio helpu rhieni i ddeall y system ADY a'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

#### 4.6.3. Tystiolaeth ehangach mewn perthynas â phrofiadau dysgwyr a rhieni

Mae'r canfyddiadau uchod yn dangos amrywioldeb yn y DDdY cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael sy'n gyson â chanlyniadau'r dystiolaeth ehangach. Yn yr arolwg o rieni a gofalwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r Gwerthusiad o'r system ADY, nododd tuag un rhan o bump o rieni a oedd yn teimlo y dylai DDdY eu plentyn gael ei darparu yn y Gymraeg nad oedd eu plentyn yn derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd rhai rhieni at ddiffyg darpariaeth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoddwyd enghreifftiau o anghytundebau mewn perthynas â'r DDdY a oedd ar gael yn y Gymraeg i'w plentyn.

Mae adroddiad ar astudiaethau ardal leol y gwerthusiad o'r system ADY yn ychwanegu tystiolaeth bellach, gan nodi, er y gall llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg ddiwallu anghenion dysgwyr yn ddwyieithog, fod achosion lle mae dysgwyr wedi trosglwyddo i leoliadau cyfrwng Saesneg er mwyn cael mynediad at gymorth arbenigol, yn enwedig darpariaeth sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth.

Mae adroddiadau thematig Estyn (2023 a 2024) yn adleisio'r canfyddiadau hyn, gan nodi bod profiadau dysgwyr o DDdY cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar gapasiti lleol a chynllunio strategol. Mewn ardaloedd lle mae gan ysgolion ac ALlau staff cyfrwng Cymraeg sefydledig, cymorth arbenigol ac adnoddau dysgu priodol, mae dysgwyr yn fwy tebygol o dderbyn DDdY cyson ac effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae prinder staff arbenigol sy'n medru'r Gymraeg, adnoddau cyfrwng Cymraeg cyfyngedig a chynllunio anghyson ar gyfer ADY cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu at anghysondeb o ran gweithredu'r ddarpariaeth. Yn bwysig ddigon, mae Estyn yn pwysleisio bod yr anghysondebau hyn yn deillio o gyfyngiadau ymarferol, yn hytrach na diffyg ymrwymiad i ddwyieithrwydd.

### 4.6.4. Crynodeb: Profiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr o DDdY cyfrwng Cymraeg

Yn yr adran hon, trafodwyd profiadau rhieni a dysgwyr o DDdY cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys eu barn ar gael cynnig a derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg a'r rhwystrau yr oeddent wedi'u hwynebu. Dengys y canfyddiadau fod argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg yn amrywio. Maent yn dangos, er bod llawer o ddysgwyr yn cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg addas, bod eraill yn wynebu bylchau sy'n effeithio ar y cymorth a gânt a hyder eu teuluoedd yn y system ADY. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i ddangos sut y gellir priodoli hyn i wahaniaethau mewn capasiti lleol a mynediad at gymorth arbenigol.

Mae gan y rhwystrau a adroddwyd fwy i'w wneud â ffactorau systemig ac allanol a llai â darpariaeth o fewn ysgolion. Er bod rhieni’n teimlo’n gyffredinol y gallai ysgolion ddiwallu anghenion eu plentyn, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai teuluoedd wynebu dewisiadau anodd rhwng cael mynediad at gymorth arbenigol a pharhau ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r heriau'n cynnwys y ffaith mai cyfyngedig yw'r gwasanaethau arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn rhai ardaloedd, amseroedd aros hir y GIG, a'r angen i staff ysgolion addasu neu gyfieithu adnoddau. Mae yna hefyd rywfaint o dystiolaeth o ddryswch ymhlith teuluoedd ynghylch eu hawliau i gael DDdY cyfrwng Cymraeg a pha ddarpariaeth y gellir ei disgwyl yn rhesymol.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd ag ymchwil ehangach ac yn dangos bod argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg yn anghyson, a bod cyfyngiadau ar ddigonolrwydd y system bresennol ledled Cymru.

## 4.7. Y cynnydd a wnaed a'r heriau sy'n parhau

Mae'r adran derfynol hon o'r canfyddiadau yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau DDdY cyfrwng Cymraeg yn ystod pum mlynedd gyntaf y broses o ddiwygio ADY, a rhai o'r heriau allweddol sy'n weddill sy'n parhau i effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth. Yn gyntaf mae'n crynhoi meysydd lle mae darpariaeth, ymwybyddiaeth ac adnoddau wedi datblygu, cyn ystyried y ffactorau sy'n parhau i gyfyngu ar fynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg. Daw'r adran hon i ben drwy archwilio barn yr ALl ar ddichonoldeb unrhyw newid yn y dyfodol o ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg i ddyletswydd absoliwt i'w darparu lle bynnag y mae ei hangen.

### 4.7.1. Y cynnydd a wnaed yn ystod pum mlynedd gyntaf y broses o ddiwygio ADY

Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad yn awgrymu nad yw digonolrwydd wedi'i gyflawni'n gyson ledled Cymru eto, nododd y dystiolaeth a gasglwyd sawl datblygiad sydd wedi cryfhau darpariaeth ac amlygrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg.

Ar lefel genedlaethol, gwelwyd cynnydd o ran y cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rai gweithwyr ADY arbenigol - e.e. yr hyfforddiant i Seicolegwyr Addysg a ddarperir ar hyn o bryd gan Brifysgol Caerdydd a hyfforddiant tebyg yr ymchwilir iddo ym Mhrifysgol Bangor. Er bod y datblygiadau hyn yn cael eu hystyried yn gam cadarnhaol, byddant yn cymryd amser i gael effaith ar gapasiti'r gweithlu yn ymarferol (gweler adran 4.3).

Gwelwyd cynnydd o ran comisiynu adnoddau dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau dysgu newydd, gwaith i wella adnoddau llythrennedd sy'n addas i oedran a datblygu adnoddau digidol fel prosiect Duxbury a Liblouis sy'n anelu at gryfhau hygyrchedd dwyieithog i ddysgwyr ag amhariad ar eu golwg, drwy foderneiddio a safoni braille Cymraeg ar draws adnoddau addysgol a thechnoleg ddigidol (gweler adran 4.4).

Bu cynnydd amlwg o ran ehangu rhai mathau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol. Soniodd sawl ALl ac ysgol am ddatblygiad dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynyddu'r cyfleoedd i rai dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anghenion mwy cymhleth, i aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn hytrach na throsglwyddo i leoliadau cyfrwng Saesneg er mwyn cael mynediad at gymorth arbenigol (gweler adran 4.5).

Disgrifiodd ALlau ac ysgolion gynnydd cyffredinol yn lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith ymarferwyr ALlau ac ysgolion o'r angen i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod cydnabyddiaeth gryfach bod cymorth ADY, gan gynnwys DDdY cyfrwng Cymraeg, yn gyfrifoldeb a rennir ar draws yr holl ymarferwyr a bod dealltwriaeth erbyn hyn ei fod yn rhan annatod o'r holl addysgu, yn hytrach na

gweithgaredd ar wahân neu arbenigol y tu allan i ymarfer bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

### Cydweithio a Rhwydweithiau Proffesiynol

Mae cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu, yn enwedig o ran rhannu adnoddau, arbenigedd ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nododd ysgolion ac ALlau fod y cydweithio hwn yn parhau i fod yn anghyson a byddai'n elwa o gydlynu mwy ffurfiol, yn enwedig yn y tymor byr lle mae rhannu staff arbenigol yn parhau i fod yn her.

Roedd enghreifftiau o gydweithio cryfach yn cynnwys:

- Cyllid ar gyfer rhwydweithiau CADYau: Roedd rhai ALlau wedi darparu cymorth ariannol i alluogi CADYau o ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer da ac adnoddau
- Rhwydweithiau ymarferwyr ADY cyfrwng Cymraeg: Roedd un ALl wedi sefydlu rhwydwaith tymhorol wedi'i neilltuo i ymarferwyr ADY cyfrwng Cymraeg, gan ddarparu fforwm i drafod materion ADY sy'n ymwneud yn benodol â'r cyd-destun cyfrwng Cymraeg ac i archwilio strategaethau ADY effeithiol
- Secondiadau arbenigol: Dywedodd un ALl fod CADY o ysgol cyfrwng Cymraeg ar secondiad am ddau ddiwrnod yr wythnos fel Ymgynghorydd Athrawon, gan ddarparu cymorth pwrpasol i bob ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Cefnogaeth genedlaethol: Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg) wedi hwyluso digwyddiadau ac wedi cefnogi ymarferwyr i ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg a chryfhau DDdY cyfrwng Cymraeg. Ategwyd hyn gan waith ehangach Arweinwyr Gweithredu Cenedlaethol i hwyluso cydweithio, datblygu'r dystiolaeth, lledaenu arferion da a chefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau.

### Rhannu a datblygu Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

Darparodd ysgolion enghreifftiau o adnoddau ADY cyfrwng Cymraeg, a oedd yn aml wedi'u cyfieithu neu eu haddasu'n lleol, yn cael eu rhannu ar draws clystyrau o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er bod y rhannu anffurfiol hwn yn cael ei groesawu, roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo y byddai'n elwa o gael ei gydlynu'n fwy ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

Un enghraifft o ddull mwy cydlynol o ddatblygu adnoddau, a amlygwyd gan awdurdod lleol oedd datblygu rhaglen Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau, a grëwyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys pecynnau hyfforddi, safonau a fframweithiau cymhwysedd a gynlluniwyd i gefnogi dysgwyr awtistig ar draws lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Roedd y deunyddiau

hyn wedi bod ar gael i ALlau ac ysgolion ledled Cymru, yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, gan gynnig adnodd gwerthfawr o bosibl ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Data a gwybodaeth am anghenion cyfrwng Cymraeg dysgwyr ag ADY**

Nododd rhai rhanddeiliaid fod DDdY cyfrwng Cymraeg wedi dod yn fwy gweladwy o fewn systemau a thrafodaethau ALlau nag yr oedd ar ddechrau'r cyfnod gweithredu. Dywedodd rhai nad oedd wedi cael llawer o sylw yn y gorffennol, ac yn aml roedd dysgwyr ag anghenion mwy dwys yn cael eu rhoi mewn ysgolion arbennig cyfrwng Saesneg waeth beth fo iaith eu haelwyd neu'u dewis iaith. Ers hynny, dywedwyd bod systemau a phrosesau casglu data awdurdodau lleol sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg wedi gwella, ond, fel y trafodwyd, bod y darlun wedi parhau'n anghyson ledled Cymru.

### 4.7.2. Heriau sy'n weddill o ran cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg

Er gwaethaf y cynnydd o ran ehangu'r DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, mae heriau'n parhau o ran sicrhau tegwch o ran mynediad a'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth. Mae llawer o'r heriau i gael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg wedi'u hamlinellu mewn adrannau cynharach. Yn gyffredinol, nid oedd a wnelo'r rhain â diffyg ymrwymiad ond, yn hytrach, ag ystyriaethau ymarferol.

Mae gan yr heriau hyn oblygiadau i ddigonolrwydd systemau ac maent yn cynnwys data anghyflawn ar yr angen a'r ffordd y caiff DDdY ei darparu, amrywiad yn y ffordd y mae dyletswyddau'n cael eu dehongli a'u cymhwyso, prinder gweithlu, a mynediad anghyson at ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys darpariaeth a sicrheir drwy ALlau a BILlau. Mewn rhai ardaloedd, mae mynediad at ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg hefyd yn cael ei effeithio gan ddaearyddiaeth, pellteroedd teithio a gwydnwch cyfyngedig timau arbenigol bach. Yn yr un modd, nododd tystiolaeth ehangach gan Estyn, y gwerthusiad o'r system ADY ac Archwilio Cymru fod y gweithlu, cyfyngiadau o ran capasiti'r gweithlu, mynediad at staff arbenigol ac argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg yn heriau allweddol i'r system gyfan. Mae bylchau hefyd wedi'u hadrodd mewn gwahanol adnoddau a dulliau diagnostig cyfrwng Cymraeg sydd hefyd wedi bod yn amlwg o adroddiadau presennol.

Her barhaus allweddol o ran cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg a amlygwyd yn ystod yr adolygiad hwn yw'r ffaith bod rhai dysgwyr ag ADY yn ymddangos fel pe baent yn symud o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg, gan olygu bod eu DDdY yn cael ei darparu yn Saesneg.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan ysgolion, ALlau a rhanddeiliaid, yn ogystal â thrwy gyfweliadau â rhieni, yn dangos bod ystod o ffactorau a allai ddylanwadu ar rai rhieni a gofalwyr i benderfynu trosglwyddo eu plentyn o ddarpariaeth cyfrwng

Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, gan gynnwys canfyddiadau am ansawdd cyffredinol yr ysgol ac argaeledd DDdY addas. Thema sy'n codi dro ar ôl tro, fodd bynnag, yw'r canfyddiad sydd gan rai rhieni ac ymarferwyr proffesiynol bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno her ychwanegol i rai dysgwyr ag ADY nad yw'r Gymraeg yn iaith a siaredir ar yr aelwyd. Yn yr achosion hyn, mae teuluoedd yn aml yn teimlo oni bai bod yr her ieithyddol ganfyddedig hon yn cael ei dileu drwy symud y dysgwr o leoliad addysg cyfrwng Cymraeg i leoliad addysg cyfrwng Saesneg, y gallai hynny gael effaith andwyol ar gynnydd addysgol y dysgwyr hyn.

Dywedwyd bod trosglwyddo rhwng lleoliadau cyfrwng iaith yn digwydd amlaf mewn cyfnodau addysgol allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys symud o'r blynyddoedd cynnar i'r ysgol gynradd, y pontio rhwng Blynyddoedd 2 a 3 pan fydd anghenion ADY yn aml yn dod yn fwy amlwg, a'r pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae tystiolaeth o gofnodion mewnol Mudiad Meithrin, sy'n dibynnu ar hunanadroddiadau gan rieni, yn awgrymu bod cyfran lai o blant y nodwyd gan eu rhieni fel rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol neu y mae eu rhieni'n derbyn cymorth ychwanegol ar eu rhan (megis cymorth un-i-un, cludiant, adnoddau, neu waith monitro gan asiantaethau) yn symud ymlaen i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â phatrwm cyffredinol y trosglwyddiadau o Gylchoedd Meithrin yn yr un flwyddyn.

Dywedodd rhai ysgolion ac ALlau fod dysgwyr ag ADY yn cael trafferth weithiau i ddatblygu'r lefel o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i ffynnu mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Yn yr achosion hyn, efallai mai'r penderfyniad i drosglwyddo i ysgol cyfrwng Saesneg yw'r opsiwn gorau i'r dysgwr. Fodd bynnag, nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw nad yw hyn o reidrwydd yn wir ym mhob achos. Mae rhai teuluoedd yn penderfynu symud eu plentyn i leoliad cyfrwng Saesneg oherwydd eu bod yn credu neu'n tybio y gallai addysg cyfrwng Cymraeg a DDdY fod yn niweidiol i ddeilliannau addysgol y dysgwr.

Fodd bynnag, nid yw tystiolaeth ehangach yn cefnogi rhagdybiaeth gyffredinol bod dwyieithrwydd yn heriol i ddysgwyr ag ADY. Canfu'r adroddiad 'Agweddau ar Ddwyieithrwydd' gan Thomas a Webb-Davies (2017) fod astudiaethau o blant ag amrywiaeth o broffiliau ADY yn gyffredinol yn dangos bod dysgwyr dwyieithog yn perfformio ar lefelau tebyg i ddysgwyr uniaith mewn amgylchiadau tebyg ac nad oedd tystiolaeth bod amlygiad i ddwy iaith yn achosi oedi ychwanegol.

Mae penderfyniadau teuluoedd ynghylch dewis cyfrwng iaith y lleoliad addysg ar gyfer eu plentyn os oes ganddynt ADY hefyd yn cael eu dylanwadu gan y wybodaeth a'r cyngor a gânt gan weithwyr proffesiynol. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at enghreifftiau o rieni'n cael cyngor, yn enwedig cyn oedran ysgol gorfodol, y byddai eu plentyn yn cyflawni deilliannau gwell mewn lleoliad cyfrwng Saesneg nag y byddai mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Nododd ysgolion y gall hyn atgyfnerthu canfyddiadau rhieni bod cymorth ADY yn cael ei ddarparu'n fwy effeithiol yn Saesneg.

Cyfeiriodd un cynrychiolydd ALl at enghreifftiau o weithgareddau y mae wedi'u cynnal i fynd i'r afael â'r wybodaeth gyfeiliornus hon drwy ymgyrchoedd cyfathrebu a 'chwalu mythau' sydd â'r nod o herio camsyniadau bod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn llai addas i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Y nod yw annog teuluoedd a dysgwyr ag ADY yn rhagweithiol i ddewis a/neu aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg lle bo modd.

Awgryma'r canfyddiadau y gallai fod angen gwneud rhagor o waith codi ymwybyddiaeth i helpu rhieni a rhai ymarferwyr ADY i ddeall manteision posibl addysg ddwyieithog i blant a phobl ifanc ag ADY. Maent hefyd yn dangos bod angen gwybodaeth gliriach sy'n amlinellu nad oes rhaid i ddysgwyr ag ADY symud o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg o reidrwydd er mwyn cael mynediad at y DDdY sydd ei angen arnynt, ar yr amod bod y DDdY berthnasol ar gael yn y ddwy iaith.

Mae symud o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg hefyd yn cael effaith bosibl ar ysgolion unigol yn ogystal â dysgwyr. Amlinellwyd hyn gan gynrychiolwyr o un ALl a nododd fod rhai ysgolion cyfrwng Saesneg yn eu hardal yn credu eu bod yn ysgwyddo cyfrifoldeb anghymesur dros gefnogi dysgwyr ag ADY ac yn credu bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn aml yn annog dysgwyr ag ADY i drosglwyddo i leoliadau cyfrwng Saesneg. Er nad ymchwiliwyd i hyn yn fanwl, mae'n tynnu sylw at yr angen i ddeall y patrymau symud rhwng ysgolion yn well a'r pwysau ychwanegol ar yr adnoddau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

At ei gilydd, mae'r rhesymau pam mae rhai dysgwyr ag ADY yn trosglwyddo o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg yn gymhleth ac amlochrog. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth y gallai canfyddiadau ynghylch digonolrwydd DDdY, megis a yw ar gael, yn hygyrch ac o ansawdd uchel, chwarae rhan arwyddocaol yn hyn o beth. Mae hwn yn faes y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddo er mwyn deall penderfyniadau teuluoedd yn well, ac mae'n fater y dylid ymdrin ag ef drwy ddarparu gwybodaeth gliriach i deuluoedd a dulliau a llwybrau mwy cyson ar draws y system.

#### 4.7.3. Ymarferoldeb darparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ALlau, ysgolion, SABau a chyrff y GIG gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY yn y Gymraeg lle y penderfynwyd bod angen hyn. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf ADY (adran 90) yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru gryfhau’r gofyniad hwn yn y dyfodol drwy ddileu’r amod “camau rhesymol” a chyflwyno dyletswydd absoliwt i sicrhau DDdY yn y Gymraeg.

Felly gofynnwyd i ALlau ystyried pa mor ymarferol fyddai darparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt pe bai'r gofyniad hwnnw'n cael ei gyflwyno yn y tymor canolig. Mae eu hymatebion i'w gweld yn Nhabl 8 isod.

O blith yr 20 ALl a fynegodd farn, dim ond dau a nododd y byddai eisoes yn ymarferol heb fod angen unrhyw newidiadau. Roedd yr ALlau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg. Nododd wyth arall y byddai hyn yn ymarferol drwy gyflwyno rhai newidiadau a gwelliannau i'r system. Fodd bynnag, nododd bron i hanner yr ALlau (9 o blith 20) y byddai bodloni'r gofyniad hwn yn debygol o fod yn heriol iawn.

Dangosodd cyfweliadau ag ALlau mai'r prif rwystr i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt oedd y ffaith nad oedd digon o staff â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gael i ddarparu pob agwedd ar DDdY cyfrwng Cymraeg. Tynnodd ALlau sylw at yr heriau'n ymwneud â recriwtio a chadw staff sy'n medru'r Gymraeg a'r risgiau y byddai hyn yn eu creu i'w gallu i gynllunio'r gweithlu i ddarparu'r cynnig DDdY cyfrwng Cymraeg.

Dengys y canfyddiadau hyn, er bod cynnydd wedi'i wneud o ran darparu DDdY cyfrwng Cymraeg, nad yw'r rhan fwyaf o ALlau yn ei ystyried yn ddigonol i gyflawni hyn fel dyletswydd absoliwt. Byddai symud i ddyletswydd absoliwt yn golygu bod angen newid y system yn sylweddol, a byddai angen trafodaethau pellach rhwng Llywodraeth Cymru ac ALlau i ymchwilio i ba gymorth fyddai ei angen i gryfhau'r gweithlu, yr adnoddau a'r gwaith cynllunio er mwyn symud tuag at ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt.

**Tabl 8: Ymarferoldeb darparu DDdY cyfrwng Cymraeg fel dyletswydd absoliwt (barn yr ALl)**

| | **Nifer yr ALlau (atebodd 20 o ALlau y cwestiwn hwn)** |
|---|---:|
| Yn ymarferol nawr, heb unrhyw newidiadau angenrheidiol | 2 |
| Yn debygol o fod yn ymarferol gyda rhai newidiadau (e.e. staffio, adnoddau, neu leoliadau newydd) | 8 |
| Yn debygol o fod yn heriol iawn heb newidiadau sylweddol | 9 |
| Ddim yn gwybod | 1 |

Ffynhonnell: Profforma ALl

### 4.7.4. Crynodeb

Ystyriodd yr adran hon y cynnydd a wnaed yn ystod y pum mlynedd diwethaf o ran ehangu DDdY cyfrwng Cymraeg, a'r heriau sy'n parhau o ran sicrhau tegwch o ran mynediad a'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.

Mae'r canfyddiadau'n amlinellu sawl maes lle mae cynnydd wedi'i wneud, gan gynnwys gwelliannau yn yr adnoddau dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac ehangu canolfannau adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg. Mae cydweithio rhwng ymarferwyr ADY cyfrwng Cymraeg hefyd wedi gwella drwy rwydweithiau CADYau a fforymau ymarferwyr.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae heriau'n parhau. Ochr yn ochr â chyfyngiadau ar y gweithlu ac adnoddau, mae canfyddiadau ynghylch addasrwydd ac argaeledd cymorth cyfrwng Cymraeg yn parhau i ddylanwadu ar rai dysgwyr a theuluoedd i ddewis darpariaeth cyfrwng Saesneg yn hytrach na darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd darparu gwybodaeth glir i deuluoedd am y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael, yn ogystal â herio rhai o'r mythau bod dwyieithrwydd yn niweidiol i ddysgwyr ag ADY.

# 5. Casgliadau

Mae'r adolygiad pum mlynedd cyntaf hwn yn darparu dealltwriaeth sylfaenol o ddigonolrwydd presennol DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae'n asesu sut y mae darpariaethau a gofynion y Ddeddf ADY yn cael eu gweithredu'n ymarferol drwy archwilio'r prosesau sy'n gysylltiedig â deall a chymhwyso dyletswyddau statudol ac argaeledd a hygyrchedd cyffredinol DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Asesu'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg**

Mae data cenedlaethol y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADY/Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) rhwng 2021 a 2025 ar draws dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith. Mae'r gostyngiad hwn yn gysylltiedig â'r newid o'r system AAA i'r system ADY yn bennaf.

Er gwaethaf y duedd genedlaethol hon o ostyngiad, dywedodd ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn ei bod yn ymddangos bod lefel gyffredinol yr angen am gymorth ADY, boed yn Saesneg neu Gymraeg, yn cynyddu, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag ADHD ac ASD. Mae lleoliadau hefyd yn disgwyl i'r galw am DDdY, gan gynnwys DDdY cyfrwng Cymraeg, gynyddu yn y tymor byr.

Mae gallu'r adolygiad i asesu'n gywir lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg wedi'i gyfyngu gan fylchau yn y data sydd ar gael. Nid yw setiau data CYBLD cyfredol yn cofnodi nifer y dysgwyr y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt neu sy'n derbyn darpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae dangosyddion procsi yn seiliedig ar ddata CYBLD sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr ag ADY / AAA yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf a'r nifer yr addysgwyd Cymraeg iddynt fel ail iaith rhwng 2021 a 2025 yn cynnig mesur rhesymol o'r lefel debygol o angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ar lefel Cymru gyfan.

Mae ein dadansoddiad o ddata CYBLD yn dangos bod lefel debyg o ADY ymhlith y rhai yr addysgir Cymraeg iddynt fel ail iaith o'u cymharu â'r rhai yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ansoddol o'r adolygiad yn dangos bod cyfran uwch o ddysgwyr ag ADY yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg o'i chymharu â chyfran y dysgwyr ag ADY sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n golygu yr addysgir Cymraeg iddynt fel ail iaith. Mae tystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod rhai rhieni a dysgwyr sy'n gwneud y dewis hwn yn debygol o gael eu dylanwadu gan ganfyddiadau bod darpariaeth ADY yn fwy hygyrch mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg neu fod llwybrau cyfrwng Cymraeg yn golygu arosiadau hirach am gymorth a darpariaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o ALlau eu bod yn casglu gwybodaeth ynghylch a yw CDUau yn cynnwys gofyniad i ddarparu DDdY yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ganolog yn amrywio rhwng

ALlau, ac mae'r defnydd o wahanol systemau rheoli data yn ei gwneud hi'n anodd creu darlun cenedlaethol dibynadwy o'r data lleol.

Nid yw data cenedlaethol yn galluogi cynnal asesiad dibynadwy o faint o ddysgwyr mewn darpariaeth ôl-16 y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt na faint sy'n derbyn eu DDdY yn y Gymraeg. Mae data LLWR yn darparu mesur procsi posibl, gan ddangos bod gan oddeutu 4% o ddysgwyr SABau sy'n astudio o leiaf un gweithgaredd lle mae 50% neu fwy o'r asesiadau sydd ar gael yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ADY. Nododd ymarferwyr o'r ddau SAB a gyfrannodd at yr adolygiad hwn nad oedd gan yr un o'u dysgwyr CDU a oedd yn nodi gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae data'r LLWR yn awgrymu y gallai rhai dysgwyr mewn SABau fod angen DDdY cyfrwng Cymraeg, er mai ychydig iawn ohonynt, os o gwbl, sydd â chymorth cyfrwng Cymraeg wedi'i nodi yn eu CDUau ar hyn o bryd.

Dengys y canfyddiadau fod diffyg data mewn perthynas â'r deilliannau i blant a phobl ifanc y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt ac sy'n derbyn y ddarpariaeth honno. Mae hyn yn gyson â'r dystiolaeth ehangach, megis canfyddiadau Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad y system ADY a ganfu mai diffyg data mewn perthynas â deilliannau hirdymor y system ADY oedd y prif fwlch yn y dystiolaeth.

### Dyletswyddau a phenderfyniadau ynghylch a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg

Mae'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau, ysgolion, SABau a chyrff y GIG ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg, cofnodi hyn yn y CDU, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY cyfrwng Cymraeg lle y nodir hynny. Dengys y canfyddiadau fod gan ALlau a chyrff llywodraethu eraill ddealltwriaeth glir o'u dyletswydd a'u bod yn gwneud ymdrechion i gadw at y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hyn.

Ledled Cymru, ystyrir penderfyniadau ynghylch a oes angen DDdY cyfrwng Cymraeg ar ddysgwr unigol o fewn y prosesau CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, i ddysgwyr sydd eisoes mewn addysg brif ffrwd, mae'r penderfyniad yn cael ei ddylanwadu'n bennaf gan gyfrwng iaith yr ysgol y mae'r dysgwr yn ei mynychu. Rhagdybir yn gyffredinol bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg a'i bod yn cael ei darparu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oni bai bod rheswm clir dros beidio â gwneud hynny a bod angen darpariaeth Saesneg ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg.

Gall CDUau unigol gynnwys un eitem neu sawl eitem o DDdY, a gall y ddarpariaeth honno fynd y tu hwnt i'r hyn y gall ysgolion ei ddarparu a bydd angen i'r ALl neu'r BILl ei sicrhau. O ganlyniad, mae penderfyniadau'n ymwneud â chynnwys y CDU a'r iaith y darperir y DDdY ynddi weithiau'n cael eu dylanwadu gan ffactorau ehangach na chyfrwng iaith ysgol y dysgwr. Mae anghenion dysgwyr a barn rhieni yn cael eu hystyried yn ystod y broses o gadarnhau'r eitemau hyn mewn CDU.

Dengys y canfyddiadau y gallai rhai teuluoedd y mae eu plant yn mynd i ysgol Gymraeg fynegi dewis, yn ystod y camau cychwynnol hyn o ddatblygu CDU neu yn ystod adolygiadau o CDUau, i gael mynediad at wasanaethau ADY arbenigol drwy lwybrau atgyfeirio Saesneg os yw'r rhain yn fwy hygyrch neu ar gael o fewn amserlenni byrrach. Mae hyn yn dangos bod ansicrwydd ynghylch a yw CDUau bob amser yn adlewyrchu anghenion ieithyddol dysgwyr yn hytrach na'r hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol. Mae hefyd yn tynnu sylw at fylchau sy'n weddill o ran argaeledd ac felly ddigonolrwydd y DDdY sydd ar gael ar draws rhai ALlau a BILl.

Ar draws lleoliadau eraill fel ysgolion arbennig, UCDau a SABau, mae'n llai eglur sut y mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei phennu a'i darparu. Yn wahanol i ysgolion prif ffrwd, nid yw'r lleoliadau hyn yn cael eu categoreiddio yn ôl iaith y ddarpariaeth.

Er bod DDdY cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog weithiau'n cael ei darparu mewn nifer bach o UCDau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle y siaredir Cymraeg yn bennaf, y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae DDdY yn cael ei darparu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, waeth beth fo iaith aelwyd y dysgwr. Dywedodd UCDau fod lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth yn fach iawn yn eu sefydliadau nhw. Fodd bynnag, dengys y canfyddiadau fod dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n derbyn lefelau cyson o gymorth cyfrwng Saesneg mewn UCD yn aml yn ei chael hi'n anodd dychwelyd i addysg cyfrwng Cymraeg wedyn.

Cymharol ychydig sy'n hysbys ar hyn o bryd am lefel yr angen a darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg mewn SABau, ac mae hyn yn debygol o fod yn faes y mae angen ymchwilio ymhellach iddo. Nododd cynrychiolwyr y SABau a gyfwelwyd yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd gan yr un o'r dysgwyr sy'n astudio yn eu sefydliadau ar hyn o bryd CDU a oedd yn nodi gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg. Dywedodd SABau eu bod yn cynnig cymorth cyfrwng Cymraeg lle bo angen, fodd bynnag, mae eu gallu i ddarparu hyn yn aml wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael a'r staff sy'n medru'r Gymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol.

**Darparu DDdY cyfrwng Cymraeg**

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod y rhan fwyaf o leoliadau addysg wedi nodi eu bod yn gallu darparu DDdY cyfrwng Cymraeg pan fo angen. Dywedodd lleoliadau fod penderfyniadau ynghylch iaith DDdY ar gyfer dysgwyr unigol yn cael eu llywio gan brosesau CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd ysgolion y caiff y DDdY sydd ei hangen ei nodi drwy arsylwadau athrawon, cyfarfodydd ar gynnydd disgyblion a thrafodaethau cynnar gyda rhieni.

Mae'r Cod ADY yn nodi y bydd angen cymorth gan gyrff y GIG ar rai plant a phobl ifanc er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion. Mae tystiolaeth yr adolygiad yn dangos nad yw DDdY a ddarperir gan gyrff y GIG bob amser yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth a gynigir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan adlewyrchu canllawiau clinigol, dewis rhieni neu argaeledd y gweithlu. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn

therapi lleferydd ac iaith, lle mae cymorth yn aml yn cael ei ddarparu yn Saesneg os dyma yw prif iaith yr aelwyd, hyd yn oed os yw'r dysgwr yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, a gall hynny greu heriau o ran parhad rhwng therapi a'r ystafell ddosbarth.

Mae BILlau yn darparu DDdY mewn ymateb i atgyfeiriadau o dan Adran 20 a wneir gan ALlau. Mae nifer yr atgyfeiriadau hyn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol hwn, dim ond cyfran fach iawn o achosion a nodir fel rhai ble mae angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg (mae SACDAau yn amcangyfrif bod y ffigur yn llai na 3-5% o'r holl DDdY a ddarperir gan BILlau).

Efallai fod y ffigurau hyn yn tanamcangyfrif yr angen gwirioneddol, gan y gallent adlewyrchu ymwybyddiaeth gyfyngedig o opsiynau cyfrwng Cymraeg a/neu dybiaethau ymhlith rhai teuluoedd a lleoliadau addysg nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn y sector iechyd ac felly nad yw'n cael ei nodi fel angen mewn CDU. Gallant hefyd adlewyrchu'r ffaith bod teuluoedd yn dewis cymorth cyfrwng Saesneg os gellir ei ddarparu'n gyflymach. O ganlyniad, efallai y byddai rhai plant a phobl ifanc yn gallu elwa o DDdY cyfrwng Cymraeg ond nad yw hynny wedi'i nodi yn eu CDUau.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod angen gwella'r cydgysylltu rhwng iechyd ac addysg a chryfhau prosesau casglu data sy'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan y sector iechyd er mwyn cefnogi darpariaeth fwy cydlynol yn yr iaith briodol.

**Y dulliau a fabwysiadwyd gan ALlau o adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg**

Un her allweddol o ran y broses o asesu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yw'r ffaith nad oes diffiniad y cytunwyd arno o beth mae 'digonolrwydd' yn ei olygu'n ymarferol. Felly, mae dehongliad o'r hyn a ystyrir yn ddarpariaeth ddigonol yn amrywio ar draws ALlau.

Mae ALlau yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o asesu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae elfennau o'r gwaith hwn hefyd wedi'u hymgorffori mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig lle mae'n ymwneud â thwf a chynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn dangos, er bod ALlau wedi ymrwymo i adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg ar draws eu hardaloedd cyfan, bod yr adolygiadau hyn yn seiliedig yn bennaf ar ddulliau adweithiol sy'n cael eu harwain gan y galw ac sy'n dibynnu'n helaeth ar leoliadau addysg, rhieni a dysgwyr yn amlinellu neu'n hunanadrodd meysydd o gymorth ychwanegol a allai fod yn ofynnol.

Os yw ysgolion yn amlinellu i ALlau yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ychwanegol neu arbenigol neu gymorth arbenigol i ddarparu DDdY cyfrwng

Cymraeg e.e. cymorth gan athrawon arbenigol neu'r angen am adnoddau cyfrwng Cymraeg ychwanegol, mae ALlau yn gwneud ymdrechion i'w darparu. Fodd bynnag, os nad yw ysgolion yn amlinellu'r angen am unrhyw DDdY cyfrwng Cymraeg ychwanegol a/neu gymorth arbenigol i ddarparu DDdY yn y Gymraeg, tybir fel arfer bod lefel y ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigonol.

Er bod y dull hwn yn sicrhau yr ymatebir i angen a nodwyd, efallai na fydd yn cwmpasu'n llawn angen heb ei ddiwallu neu angen heb ei fynegi, yn enwedig mewn ardaloedd lle y gall teuluoedd neu ysgolion dybio nad yw DDdY cyfrwng Cymraeg ar gael ac felly nad ydynt yn gwneud unrhyw ymdrechion i ofyn amdani. Felly, gallai adolygiadau digonolrwydd a gynhelir gan ALlau yn y dyfodol elwa o ddulliau mwy rhagweithiol gan gynnwys ymgynghori'n ehangach â rhieni a dysgwyr.

Ymddengys fod dulliau tebyg sy'n cael eu harwain gan y galw yn cael eu defnyddio wrth adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg ar draws SABau a chyrff y GIG. Lle mae CDU dysgwr unigol yn nodi'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg, mae darparwyr yn gwneud ymdrech i ddarparu hynny. Fodd bynnag, ychydig iawn o achosion a nodwyd gan SABau a chyrff y GIG o angen o'r fath yn cael ei nodi mewn CDUau dysgwyr. Mae hyn eto'n awgrymu dull adweithiol o asesu digonolrwydd y ddarpariaeth yn hytrach na dull rhagweithiol o sicrhau darpariaeth ddigonol nad yw o bosibl yn cwmpasu'n llawn angen heb ei fynegi.

**Capasiti'r gweithlu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg**

Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod bylchau a phrinder yn argaeledd staff ADY arbenigol sy'n medru'r Gymraeg yn bodoli ar draws y rhan fwyaf o ALlau yng Nghymru.

Nododd bron i hanner yr ALlau brinder athrawon arbenigol sy'n medru'r Gymraeg ar gyfer amhariad ar y golwg, amhariad ar y clyw ac awtistiaeth, a soniodd sawl un hefyd bod nifer y Seicolegwyr Addysg sy'n medru'r Gymraeg yn gyfyngedig neu nad oedd rhai ar gael o gwbl. Nodwyd heriau wrth recriwtio a chadw unigolion â'r cymwysterau addas ar gyfer y rolau hyn fel y prif reswm dros y prinder hwn.

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at fregusrwydd timau arbenigol bach o fewn ALlau lle y gallai colli un ymarferydd ADY sy'n medru'r Gymraeg arwain yn gyflym at gapasiti annigonol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg. Mae heriau recriwtio o fewn y rolau hyn yn creu anawsterau pellach i lenwi'r bylchau hyn pan fyddant yn codi. Mae rhai ymarferwyr arbenigol sy'n medru'r Gymraeg yn gweithredu ar draws sawl ardal ALl, ond gall y gofynion teithio sy'n gysylltiedig â'r model hwn gynyddu'r pwysau a chyfyngu ar argaeledd ar yr adeg y mae ei angen.

Mae argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg o fewn SABau yn llai clir nag mewn lleoliadau oedran ysgol gorfodol. Er bod cynrychiolwyr SABau wedi nodi lefelau isel o angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn eu sefydliadau, nodwyd hefyd gyfyngiadau ar gapasiti staff i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai achosion, dywedodd SABau fod dibyniaeth ar ddatrysiadau anffurfiol, fel ailddyrannu staff sy'n

medru'r Gymraeg i ddarparu cymorth hyd yn oed os nad oedd hynny'n rhan o'u rolau arferol.

Mae asesu digonolrwydd ymarferwyr ADY sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n cael eu cyflogi o fewn cyrff y GIG yn heriol oherwydd diffyg data cyson. Tynnodd SACDAau sylw at y ffaith bod dosbarthiad gweithwyr iechyd proffesiynol â sgiliau Cymraeg yn anwastad ledled Cymru, yn ddaearyddol ac yn ôl arbenigedd clinigol. Cyfeiriodd SACDAau ac ymarferwyr iechyd hefyd at heriau o ran capasiti'r gweithlu mewn rhai meysydd ac arbenigeddau, ac roeddent yn teimlo y gallai hyn wneud y ddarpariaeth yn fregus. Mae tystiolaeth o'r adolygiad yn dangos bod cyfleoedd i gael hyfforddiant ADY arbenigol cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig, gydag ymarferwyr yn aml yn cyfieithu neu'n addasu cynnwys o gyrsiau cyfrwng Saesneg. Efallai na fydd cynnwys ac iaith rhywfaint o'r hyfforddiant arbenigol yn adlewyrchu cyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigonol.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos, er bod rhai ALlau yn credu bod ganddynt ddigon o staff arbenigol sy'n medru'r Gymraeg, fod maint bach timau, pwysau daearyddol ac anawsterau recriwtio parhaus yn creu bregusrwydd sylweddol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar gysondeb a dibynadwyedd DDdY cyfrwng Cymraeg, gan arwain yn aml at oedi cyn cael darpariaeth, bylchau mewn gwasanaethau, a dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn gorfod derbyn gwasanaethau arbenigol yn Saesneg lle nad oes gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael.

**Adnoddau**

Nid yw'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY ar yr un lefel â'r ystod o ddeunyddiau sydd ar gael yn Saesneg ac mae hyn yn arbennig o wir am adnoddau diagnostig yn ogystal â gwasanaethau digidol ac ar-lein. Nid oedd dros hanner yr ALlau a ymatebodd i'r adolygiad yn teimlo bod ganddynt ddigon o fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg. Dywedodd CADYau ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eu bod yn treulio cryn dipyn o amser yn cyfieithu adnoddau Saesneg i'r Gymraeg. Mae'r broses hon yn aml yn cael ei hailadrodd ar draws ysgolion ac ALlau unigol, gan ddyblygu gwaith. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch cysondeb y dulliau hyn ac ynghylch safoni'r adnoddau sy'n cael eu cyfieithu. Mae cymhlethdod technegol deunyddiau digidol yn cyfyngu ymhellach ar y graddau y gellir cyfieithu adnoddau o'r fath.

Mae'r gwahaniaeth rhwng yr adnoddau ADY cyfrwng Cymraeg a Saesneg sydd ar gael yn golygu bod gan ddysgwyr ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg fynediad cyfyngedig at adnoddau i gefnogi eu hanghenion. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at ddysgwyr yn gorfod cael mynediad at adnoddau nad ydynt o bosibl yn addas i'w hoedran neu eu cam dysgu, neu'n gorfod defnyddio adnoddau cyfrwng Saesneg. Nid yw'n glir eto a yw'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar y deilliannau dysgu a gyflawnir gan y dysgwyr hyn a gallai fod yn werth ymchwilio ymhellach i hyn. Yr effaith fwyaf uniongyrchol, fodd bynnag, yw'r amser a'r ymdrech

ychwanegol sylweddol sydd eu hangen ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyfieithu adnoddau.

Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu rhagor o offer ac adnoddau asesu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys profion llythrennedd cyfrwng Cymraeg safonedig newydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu datblygu gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae Adnodd a'i bartneriaid hefyd yn datblygu deunyddiau llythrennedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog newydd, adnoddau braille a phrint bras, a chymorth BSL. Mae yna hefyd fwy o ffocws ar greu adnoddau ADY Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd i leihau anghydraddoldebau. Mae datblygiadau technolegol pellach, fel rhaglen ddarllen gyfrifiadurol, hefyd ar y gweill.

**Y cynnydd yn ystod pum mlynedd gyntaf y broses o ddiwygio ADY**

Er bod yr adolygiad hwn wedi nodi sawl anghysondeb yn argaeledd a darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg, sy'n cael effaith ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn rhai ardaloedd, mae hefyd wedi nodi meysydd nodedig o gynnydd a wnaed o ran cryfhau DDdY cyfrwng Cymraeg yn ystod pum mlynedd gyntaf y broses o ddiwygio ADY.

Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys comisiynu adnoddau dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg newydd, cynyddu'r hyfforddiant arbenigol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer Seicolegwyr Addysg a chynnydd mewn canolfannau adnoddau arbenigol a dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd.

Mae enghreifftiau hefyd wedi’u nodi mewn perthynas â mwy o gydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda chefnogaeth rhwydweithiau CADYau, fforymau ymarferwyr a grwpiau traws-wasanaeth. Mae llawer o hyn hefyd wedi cael ei gefnogi gan yr Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (Iaith Gymraeg).

Dywedodd ysgolion ac ALlau fod mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg, cydnabyddiaeth gynyddol bod DDdY yn gyfrifoldeb prif ffrwd a rennir, ac enghreifftiau o rannu adnoddau rhwng ymarferwyr o fewn clystyrau ysgolion. Ymddengys hefyd fod DDdY cyfrwng Cymraeg bellach yn cael mwy o sylw, a bod y systemau a'r data wedi gwella, er bod cysondeb ledled Cymru yn parhau i amrywio.

Mae rhai heriau’n parhau, fodd bynnag. Mae cynyddu ymwybyddiaeth teuluoedd o argaeledd ac ansawdd DDdY cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â herio'r canfyddiadau y gall dwyieithrwydd fod yn niweidiol i ddysgwyr ag ADY, yn heriau parhaus nodedig a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad hwn. Mae rhai enghreifftiau o ymdrechion i herio'r canfyddiadau hyn drwy ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i deuluoedd wedi'u nodi, ond mae angen gwneud rhagor o waith i gefnogi ymarferwyr, ysgolion ac ALlau i gefnogi dysgwyr ag ADY i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg a pharhau â hynny.

Daw'r adolygiad i'r casgliad fod cynnydd wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf tuag at gyflawni 'system ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg'. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn amlinellu anghydraddoldeb parhaus yn argaeledd a darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â DDdY cyfrwng Saesneg, a meysydd cofnodi a darpariaeth lle nad yw digonolrwydd system wedi'i gyflawni eto.

Felly mae angen gwneud mwy o gynnydd o ran deall lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ar lefel ALlau a lefel genedlaethol, cryfhau'r gweithlu ADY sy'n siarad Cymraeg, parhau i ddatblygu a rhannu adnoddau cyfrwng Cymraeg a gwell cyfatebiaeth rhwng y sector addysg a'r sector iechyd o ran y ffordd y darperir DDdY cyfrwng Cymraeg.

**Argymhellion**

**Data**

1. **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i asesu argaeledd data ar lefelau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg.**
    - Y data procsi a ddeilliodd o CYBLD a LLWR, a amlinellir ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn, yw'r ffynonellau mwyaf dibynadwy sydd ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â'r lefel bosibl o angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ymhlith y rhai o oedran ysgol gorfodol ac mewn SABau. Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r data hyn i gynnal asesiadau rheolaidd o'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gan gydnabod cyfyngiadau'r data fel mesur procsi
    - Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gynnal asesiad mwy manwl o'r systemau a'r dulliau a ddefnyddir gan ALlau i gasglu data o CDUau ynghylch yr angen a nodwyd am DDdY cyfrwng Cymraeg. Dylai'r asesiad hwn archwilio i ba raddau y mae data o'r fath yn cael eu casglu, cysondeb arferion casglu, a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r broses hon. Dylai'r asesiad hwn hefyd archwilio data ar blant a phobl ifanc nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data procsi, yn benodol y garfan Swyddogion Arweiniol ADY, dysgwyr sy'n cael AHY a dysgwyr ôl-16 eraill
    - Gallai dealltwriaeth gliriach o arferion casglu data lleol helpu i benderfynu a ellid defnyddio data sy'n deillio o CDUau yn ymarferol yn y dyfodol i gynhyrchu mesur mwy cadarn a manwl o nifer y dysgwyr y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt

2. **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i asesu argaeledd data sy'n ymwneud â darparu DDdY cyfrwng Cymraeg.**
    - Dylai Llywodraeth Cymru asesu'n fanylach – y tu hwnt i'r hyn a oedd yn bosibl o fewn yr adolygiad pum mlynedd hwn – i ba raddau y mae elfennau o DDdY a nodwyd mewn CDUau dysgwyr unigol fel rhai y mae angen eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwirionedd
    - Dylai asesiad o'r data sy'n amlinellu a yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu ystyried pa ddata sy'n cael eu casglu gan ysgolion, SABau, ALlau a BILlau, pa mor gyson y cânt eu casglu a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r broses hon
    - Dylai canfyddiadau'r asesiad manwl hwn ddangos a oes angen rhagor o gymorth ac arweiniad ar ALlau a BILlau i sicrhau dulliau cyson o gasglu data sy'n ymwneud â faint o DDdY cyfrwng Cymraeg a ddarperir

    - Gallai meithrin dealltwriaeth gliriach o arferion casglu data lleol sy'n ymwneud â'r graddau y mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch a ellid cydgrynhoi hyn yn ymarferol i ddarparu data cenedlaethol

3. **Mae angen mynd i'r afael â diffyg data mewn perthynas â'r deilliannau i blant a phobl ifanc sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael y ddarpariaeth honno.**
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu set o ddangosyddion sy'n ymwneud â deilliannau plant a phobl ifanc ag ADY. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau'r Gwerthusiad o'r system ADY: Adroddiad Cwmpasu (Llywodraeth Cymru, 2023) a ganfu mai diffyg data mewn perthynas â deilliannau hirdymor y system ADY oedd y prif fwlch yn y dystiolaeth

**Darparu DDdY cyfrwng Cymraeg**

4. **Mae angen annog a chefnogi ysgolion ac ALlau i sicrhau bod y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ymwneud ag iaith DDdY a ddarperir i ddysgwyr yn cael ei chofnodi'n glir a'i hadolygu.**
    - Mae angen mwy o ffocws ar sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud ag iaith y DDdY sydd ei hangen yn canolbwyntio ar y dysgwr ac nid yn seiliedig ar y ddarpariaeth sydd ar gael

5. **Mae angen cryfhau cysondeb o ran y DDdY cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan bob sector addysg a'r hyn a ddarperir gan gyrff y GIG.**
    - Mae angen i ALlau a BILlau gydweithio'n agosach i wella cyfathrebu a rhannu data rhwng ymarferwyr gofal iechyd ac addysg sy'n darparu DDdY cyfrwng Cymraeg
    - Mae angen i ALlau, ysgolion a BILlau gydweithio'n agosach i sicrhau bod y ffordd y darperir DDdY yn cyd-fynd yn well ag anghenion ieithyddol y dysgwr
    - Mae angen i ALlau a BILl gydweithio'n agosach i sicrhau llwybrau atgyfeirio cyson o dan Adran 20 sy'n cydnabod anghenion Cymraeg y dysgwr
    - Dylai BILlau gasglu data sy'n ymwneud â nifer y ceisiadau a gânt am DDdY cyfrwng Cymraeg gan y GIG a nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg drwy'r GIG a ddarperir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dylai ALlau a BILlau ddefnyddio'r data i gynllunio darpariaeth ar y cyd

**Cynnal adolygiadau o ddigonolrwydd yn y dyfodol**

6. **Mae angen cryfhau asesiadau digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg lleol er mwyn galluogi ALlau i gyflawni'r dyletswyddau a nodir o dan Adran 63 o'r Ddeddf ADY.**
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio gydag ymarferwyr ADY a theuluoedd i lunio diffiniad cyson y cytunir arno o'r hyn y dylai'r term 'digonol' ei olygu'n ymarferol mewn perthynas â DDdY cyfrwng Cymraeg. Yna dylid defnyddio'r diffiniad hwn i arwain adolygiadau o ddigonolrwydd yn y dyfodol
    - Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ALlau i fabwysiadu dull cynllunio mwy rhagweithiol wrth adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na dulliau adweithiol sy'n cael eu harwain gan y galw. Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori ag ysgolion, teuluoedd a dysgwyr i ddeall beth yw eu hanghenion, yn hytrach nag aros i'r anghenion hyn gael eu dwyn i'w sylw
    - Dylai ALlau hefyd ystyried casglu barn rhieni a dysgwyr ag ADY ynghylch a yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn ddigonol
    - Dylai ALlau barhau i sicrhau bod adolygiadau digonolrwydd yn y dyfodol yn dryloyw ac yn hygyrch drwy ddefnyddio terminoleg glir wedi'i chyflwyno mewn fformatau hygyrch

**Y gweithlu**

7. **Mae angen cryfhau'r gweithlu ADY sy'n medru'r Gymraeg drwy gefnogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ymgymryd â rolau ADY arbenigol ar draws ALlau a BILlau**
    - Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ALlau a BILlau i gryfhau'r dystiolaeth ar y gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg, er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o ddosbarthiad rolau presennol, y capasiti o ran y Gymraeg, a sgiliau ac arbenigeddau presennol
    - Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi ac o bosibl ehangu'r lleoedd i siaradwyr Cymraeg ar y cwrs i seicolegwyr addysg
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff arbenigol eraill sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY.
    - Dylid ymchwilio i gyfleoedd i gynorthwyo staff arbenigol sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY ac sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg i wella eu sgiliau Cymraeg ac i ddefnyddio'r sgiliau hyn wrth ddarparu eu gwasanaethau
    - Mae angen ymchwilio i ragor o gyfleoedd i alluogi gwasanaethau staff arbenigol cyfrwng Cymraeg sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY i gael eu rhannu'n ehangach ar draws rhanbarthau, o bosibl drwy ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau ar-lein lle y bo'n bosibl neu'n briodol

## Adnoddau

8. **Mae angen parhau â gweithgareddau presennol i ddatblygu adnoddau ADY cyfrwng Cymraeg ychwanegol, a chyflymu hynny lle bo modd.**
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi ALlau i fapio'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd (yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu datblygu) er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r bwlch yn yr adnoddau sydd ar gael
    - Er bod cynnydd yn cael ei wneud o ran datblygu adnoddau ADY newydd ac ychwanegol yn y Gymraeg, mae'r bylchau o ran adnoddau y cyfeirir atynt yn yr adolygiad hwn yn awgrymu bod angen hyd yn oed mwy o ffocws i ddatblygu adnoddau newydd, yn enwedig adnoddau digidol ac ar-lein sy'n cyd-fynd â'r rhai sydd eisoes ar gael yn Saesneg, yn ogystal â deunyddiau ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth neu ddwys mewn ysgolion arbennig
    - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi ALlau a rhwydweithiau ymarferwyr ADY sefydledig i adolygu, safoni a rhannu adnoddau ADY sydd wedi cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

## Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth

9. **Mae angen codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, dysgwyr a rhai ymarferwyr ADY nad oes angen i ddysgwyr ag ADY symud o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg o reidrwydd er mwyn cael y DDdY sydd ei hangen arnynt.**
    - Dylai Llywodraeth Cymru ac ALlau ystyried darparu rhagor o wybodaeth sy'n gwrthbrofi'r mythau y gall DDdY cyfrwng Cymraeg fod yn niweidiol i ddysgwyr ag ADY

# Atodiad 1: Cwestiynau ymchwil

### Cwestiynau Ymchwil yn ymwneud ag argaeledd DDdY Cyfrwng Cymraeg a'r ffordd y caiff ei darparu

1. I ba raddau mae offer diagnostig, asesiadau ac adnoddau dysgu ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY, a gweithgaredd dysgu a hyfforddiant proffesiynol i ymarferwyr ar ADY, ar gael yn y Gymraeg (ac yn ddwyieithog)?
    - Pa fylchau (os o gwbl) a nodwyd? Sut mae ymarferwyr yn ymdrin â'r bylchau hyn? Sut mae hyn yn effeithio ar ddarparu DdDY cyfrwng Cymraeg?
2. I ba raddau y mae adnoddau eraill, gan gynnwys adnoddau ariannol a mannau ffisegol, ar gael i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
3. I ba raddau y mae'r gweithlu sydd ar gael i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn ddigonol? (dylai hyn gynnwys ystyried maint, capasiti a gallu'r gweithlu sydd ar gael)
    - Ydy hyn yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol/ymarferwyr? Pa effaith a gaiff hyn ar ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
4. I ba raddau y mae ysgolion yn gallu recriwtio a chadw staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
5. Beth yw barn rhanddeiliaid sy'n ymwneud â gweithredu'r system ADY (h.y. ALlau) ynghylch effeithiolrwydd gwneud y gofyniad yn ddyletswydd absoliwt (gan gynnwys y manteision a'r anfanteision). Yn bwysig ddigon, byddai'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn eto mewn adolygiadau dilynol.

### Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg

6. Sut mae cyrff ac ymarferwyr perthnasol yn deall y ddyletswydd i benderfynu a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg? Ydy'r dehongliad o'r ddyletswydd hon yn amrywio rhwng y cyrff a'r ymarferwyr hyn?
7. Sut mae'r ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg yn cael ei gweithredu? Ydy'r ddyletswydd yn cael ei chymhwyso'n gyson ar

draws ysgolion (gan gynnwys ysgolion â gwahanol gategorïau iaith)/ALlau/SABau/BILlau?

   a. Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried fel sail i'r penderfyniad hwn ynghylch a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg?
   b. Sut mae hyn yn wahanol yn dibynnu ar y math o DDdY sydd ei hangen a/neu gam yr addysg?

**Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r gofyniad i ALlau ystyried digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd nhw ac i gymryd camau os nodir diffygion**

8. Pa fecanweithiau, prosesau a threfniadau casglu gwybodaeth sydd ar waith gan ALlau i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth a'i heffeithiolrwydd?
   - Pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn?
   - A oes cysondeb yn y ffordd y cynhelir adolygiadau a pha mor aml?
   - Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried gan ALlau i ddiffinio digonolrwydd ac effeithiolrwydd?
9. Ydy ALlau wedi profi unrhyw rwystrau i weithredu'r adolygiadau hyn? Pa gamau a gymerwyd i oresgyn y rhwystrau hyn? Ydy'r adolygiadau hyn yn helpu i wella dealltwriaeth ALlau o'r graddau y mae anghenion dysgwyr sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu? Pa heriau neu ddiffygion/gwendidau a nodwyd gan ALlau mewn perthynas â darparu DDdY cyfrwng Cymraeg drwy'r adolygiadau hyn?
10. I ba raddau y mae'r adolygiadau hyn yn cyfrannu at gynlluniau i gryfhau DDdY cyfrwng Cymraeg (e.e. drwy'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg neu gynlluniau strategol ADY ehangach a chynllunio'r gweithlu)?
11. Pa gamau a gymerwyd gan ALlau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd? Beth sy'n hysbys am ba mor llwyddiannus fu'r camau hyn?
12. Pa rwystrau a hwyluswyr y mae ALlau wedi'u profi wrth geisio cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion?
13. Pa ddata sydd gan ALlau a BILlau am y capasiti o fewn y gweithlu i ddarparu DDdY? Pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau allweddol?

14. Pa ffynonellau data y mae ALlau yn eu defnyddio er mwyn llywio eu dealltwriaeth o’r graddau y mae anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu a digonolrwydd y ddarpariaeth yn eu hardal nhw?

**Cwestiynau ymchwil yn ymwneud â'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu DDdY yn y Gymraeg**

15. Sut ac i ba raddau y mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni gan y cyrff y mae'n berthnasol iddi (cyrff llywodraethu ysgolion a SABau, ALlau a chyrff y GIG)?
16. Sut mae'r dull o gyflawni'r ddyletswydd hon yn amrywio rhwng y cyrff y mae'n berthnasol iddi? I ba raddau y ceir amrywiad ar draws ALlau?
17. Beth sy'n cael ei ystyried yn “rhesymol”? Ydy hyn yn amrywio ar draws ALlau a lleoliadau?

**Cwestiynau ymchwil i ddysgwyr a theuluoedd**

18. I ddysgwyr sydd angen DDdY, beth yw eu profiad nhw (a/neu eu teuluoedd) o gael cynnig DDdY yn y Gymraeg?
    - I ba raddau y mae dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn teimlo bod eu dymuniadau wedi cael eu hystyried gan gyrff perthnasol wrth benderfynu a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg?
19. Sut mae dysgwyr (a/neu eu teuluoedd) yn teimlo am y ddarpariaeth maen nhw'n ei derbyn?
20. Ydy dysgwyr yn gallu cael mynediad at gymorth yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi?
21. Pa mor bwysig yw hi i ddysgwyr y mae angen DDdY arnynt (a/neu eu teuluoedd) bod y cymorth maen nhw'n ei derbyn yn gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg?
22. I ba raddau y mae teuluoedd yn ymwybodol o'r dyletswyddau sydd ar gyrff perthnasol ac yn deall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw?
    - I ba raddau y mae rhieni'n ymwybodol o'u hawliau (e.e. i herio penderfyniad ynghylch a ddylid darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn y Gymraeg)
23. Sut y mae'r cynnig o DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyflwyno neu ei fframio i ddysgwyr a theuluoedd (e.e. yn ystod y broses o lunio CDU)?

# Atodiad 2: Tablau data ychwanegol

Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys rhai o'r tablau data sy'n sail i'r dadansoddiad ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn.

Cyhoeddir data CYBLD ar ddysgwyr ag ADY / AAA yn ôl y math o angen a chyhoeddir nifer y dysgwyr sy'n nodi bod ganddynt anghenion yn y categorïau canlynol: Anawsterau dysgu cymedrol, Anawsterau dysgu difrifol, Anawsterau dysgu dwys a lluosog, Dyslecsia, Dyscalcwlia, Dyspracsia, ADHD, ASD, Anawsterau corfforol a meddygol, Amhariad ar y clyw, Amhariad ar y golwg, Amhariad amlsynnwyr, Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Dangosir dadansoddiad o'r data yn ôl cyfrwng a sector yr ysgol isod.

**Tabl A1. Adroddiadau ar anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion cynradd, pob oed (3 i 16/18 oed) ac uwchradd yn ôl sector, cyfrwng Cymraeg/Saesneg, a'r math o angen, Ionawr 2024**

| Math o angen | Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg | Ysgolion pob oed cyfrwng Cymraeg (3 i 16/18 oed) | Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg | Cyfanswm yr ysgolion cyfrwng Cymraeg | Cyfanswm yr ysgolion cyfrwng Saesneg | Ysgolion pob oed cyfrwng Saesneg (3 i 16/18 oed) | Ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg | Cyfanswm cyfrwng Saesneg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau dysgu cymedrol | 1,505 | 150 | 1,035 | 2,690 | 4,325 | 310 | 3,835 | 8465 |
| Anawsterau dysgu difrifol | 160 | 15 | 90 | 265 | 690 | 40 | 335 | 1,065 |
| Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 75 | 10 | 30 | 110 | 190 | 10 | 55 | 250 |
| Dyslecsia | 365 | 105 | 515 | 985 | 705 | 90 | 1,705 | 2,495 |
| Dyscalcwlia | 35 | 15 | 40 | 85 | 50 | [c] | 120 | 170 |
| Dyspracsia | 40 | 10 | 80 | 130 | 95 | 15 | 195 | 310 |
| Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd | 175 | 50 | 205 | 430 | 565 | 75 | 1,210 | 1,850 |
| Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig | 625 | 80 | 455 | 1,160 | 3,530 | 320 | 2,890 | 6,740 |
| Anawsterau corfforol a meddygol | 375 | 65 | 280 | 720 | 1,470 | 115 | 1,160 | 2,745 |
| Amhariad ar y clyw | 155 | 25 | 90 | 265 | 465 | 50 | 480 | 995 |
| Amhariad ar y golwg | 75 | 10 | 80 | 165 | 255 | 20 | 260 | 535 |
| Amhariad amlsynnwyr | 35 | [c] | 5 | 4,5 | 125 | 5 | 65 | 195 |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 2,510 | 235 | 950 | 3,695 | 8,865 | 440 | 3,130 | 12,435 |
| Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 1,890 | 290 | 1,155 | 3,335 | 6,310 | 540 | 5,125 | 11,980 |

Ffynhonnell: CYBLD

[c] = Rhifau sy'n fwy na sero ond yn llai na phump. Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Nodyn: Nid yw'r niferoedd yn y tabl hwn o reidrwydd yn adlewyrchu nifer y dysgwyr, oherwydd gellir cofnodi mwy nag un math o ADY neu AAA ar gyfer pob dysgwr.

# Atodiad 3: Offer Ymchwil

### Atodiad 3.1 Profforma ALlau

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) Cyfrwng Cymraeg - Mewnbwn Awdurdod Lleol (ALl)

**Cefndir:** Un o egwyddorion allweddol y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yw creu system ddwyieithog. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY) Adran 89 yn nodi'r ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i adolygu ac adrodd ar ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn y Gymraeg bob pum mlynedd. Mae digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio at ddarparu adnoddau a gwasanaethau yn Gymraeg i ddiwallu anghenion dysgwyr. Yr adolygiad hwn fydd y cyntaf o'r adolygiadau pum mlynedd hyn i ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg a rhaid ei gynnal a'i gyhoeddi erbyn 1 Medi 2026. Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i gasglu gwybodaeth gan staff ym mhob awdurdod lleol i gyfrannu at yr adolygiad cyntaf.

**Pwrpas:** Y nod yw casglu gwybodaeth gychwynnol a safbwyntiau gan ALlau am DDdY cyfrwng Cymraeg i adeiladu arni mewn sgwrs ddilynol yn y flwyddyn newydd. Gall un person arwain wrth gwblhau'r ddogfen hon, ond gofynnir i chi ymgynghori â chydweithwyr eraill lle bo angen (e.e. swyddogion ADY blynyddoedd cynnar, arweinwyr Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg). Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn darparu rhagor o fanylion ar sut y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio.

**Sut i'w Defnyddio:**

Mae'r ddogfen hon ar Objective Connect a gellir ei chwblhau trwy ei lawrlwytho'n lleol, ateb y cwestiynau ac yna uwchlwytho'r fersiwn derfynol i Objective Connect. Anfonwch e-bost at (cyfeiriad e-bost wedi'i ddileu) i roi gwybod i ni unwaith y bydd eich cyflwyniad wedi'i gwblhau.

Rydym yn cydnabod na fydd pob ALl yn dal yr holl wybodaeth berthnasol. Os nad yw'r wybodaeth ar gael neu yn gallu cael ei darparu o fewn y cyfnod amser o dan sylw, nodwch hyn os gwelwch yn dda.

**Cyswllt a chymorth**: Os oes gennych unrhyw ymholiadau, os oes angen eglurhad arnoch neu os oes angen cymorth i gwblhau'r ddogfen, cysylltwch â (cyfeiriad e-bost wedi'i ddileu).

**Camau nesaf** Cyflwynwch y ffurflen wedi'i chwblhau, os yn bosibl, erbyn dydd Gwener **9fed o Ionawr 2026**. Fodd bynnag, os yw hyn yn peri problem, cysylltwch ag Arad ar (cyfeiriad e-bost wedi'i ddileu). Bydd Arad yn cysylltu i drefnu cyfarfod dilynol yn y flwyddyn newydd.

Defnyddiwch y tabl isod i nodi pwy sydd wedi cyfrannu. Mae hyn yn ein helpu i wybod pwy i gysylltu â nhw os oes gennym gwestiynau pellach.

**Cyfranwyr i'r ymateb:**

| Enw | Is-deitl | Cyfeiriad e-bost: | ALI | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**Adran 1: Yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg**

1. Nodwch, os ydych yn gwybod, nifer cyfredol **o Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a gynhelir gan yr ALI** ar gyfer plant a phobl ifanc yn y grwpiau canlynol a'r nifer sy'n nodi DDdY cyfrwng Cymraeg. Nodwch 'Ddim ar gael' os nad ydych yn gwybod ar y pwynt yma.

| Math CDU | Cyfanswm nifer CDUau a gynhelir gan yr ALI | Nifer y CDUau sy'n nodi DDdY cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir ("carfan y Swyddogion Arweiniol ADY") | | |
| Dysgwyr o oedran ysgol gorfodol a dysgwyr ôl-16 sydd â CDUau eraill a gynhelir gan ALI (e.e. plant sydd wedi'u cofrestru yn ddeuol, sy'n derbyn gofal) | | |

2. Nodwch yn y tabl isod a ydych chi'n cofnodi neu'n cadw'r wybodaeth ganlynol ar gyfer dysgwyr sydd â CDUau mewn gwahanol leoliadau ar draws eich ALI.

**Sylwer** - Ar hyn o bryd rydym ond eisiau gwybod os yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog ar lefel ALI. Nid ydym yn disgwyl i chi ddarparu'r data hyn.

| Nodwch a yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog ar hyn o bryd yn eich ALI | Os oes angen unrhyw DDdY yn Gymraeg ar ddysgwyr | Os yw dysgwyr yn derbyn unrhyw DDdY yn Gymraeg |
|---|---|---|
| Ar gyfer CDUau a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Ar gyfer CDUau a gynhelir gan Ganolfannau Adnoddau Arbenigol (SRB) | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Ar gyfer ysgolion arbennig | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |

| | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer CDUau a gynhelir gan ALlau: plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, "carfan y Swyddogion Arweiniol ADY" | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Ar gyfer CDUau a gynhelir gan ALlau: oedran ysgol gorfodol (e.e. plant cofrestredig deuol, plant sy'n derbyn gofal) | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Ar gyfer CDUau a gynhelir gan ALlau: Dysgwyr ôl-16 | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |

**Adran 2: Gweithlu cyfredol ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg**

3. Hoffwn ddeall nifer y staff canolog ADY arbenigol sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fel cyfran cyfanswm staff ADY sy'n cael eu cyflogi a/neu eu rheoli'n uniongyrchol gan yr ALl (ac eithrio staff sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan ysgolion unigol). Nodwch y wybodaeth hon yn y tabl isod, os ydych yn gwybod, a nodwch 'ddim ar gael' os nad ydych yn gwybod ar y pwynt hwn.

| **Maes gwaith/maes arbenigedd staff arbenigol ADY** | **Cyfanswm y staff ADY a gyflogir a/neu a reolir yn uniongyrchol gan yr ALl** | **Cyfanswm y staff ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg** | **Ydy'r nifer o staff ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr?** |
|---|---|---|---|
| Seicolegydd addysg | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Therapyddion iaith a lleferydd | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Therapyddion galwedigaethol | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy |
| Staff iechyd corfforol eraill (nodwch) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Athro arbenigol sydd â chymwysterau ADY arbenigol (e.e. sy'n arbenigo mewn amhariad ar y golwg, amhariad ar y clyw, awtistiaeth) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Athrawon / athrawon cynghori neu arbenigol eraill (nodwch) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheolwr/arweinydd tîm/cydlynydd ADY | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog/arweinydd cynhwysiant | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog Arwain ADY y Blynyddoedd Cynnar | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog cyswllt â theuluoedd (ADY yn benodol) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog cefnogi (ADY yn benodol) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Gweithiwr pontio | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Unigolion hunangyflogedig (nodwch) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Arall (nodwch) | | | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |

4. Sut ydych chi'n monitro, os o gwbl, faint o ymarferwyr ADY sy'n cael eu cyflogi a/neu a reolir yn uniongyrchol gan eich ALI sydd â'r sgiliau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg? Nodwch unrhyw ddata rydych chi'n ei gasglu, a pha mor aml y mae'r data hwn yn cael ei ddiweddaru.

| |
|---|
| |

5. Sut ydych chi'n monitro, os o gwbl, faint o ymarferwyr ADY sy'n cael eu cyflogi a/neu a reolir yn uniongyrchol gan eich ALI sy'n darparu DDdY cyfrwng Cymraeg?

| |
|---|
| |

6. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ymarferwyr ADY arbenigol sy'n gallu darparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd?

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

7. Pa staff arbenigol ADY (os o gwbl) sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n arbennig o anodd eu recriwtio a/neu eu cadw? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

| **Maes gwaith/maes arbenigedd staff arbenigol ADY** | **A yw'n arbennig o anodd recriwtio a/neu gadw aelodau staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?** |
|---|---|
| Seicolegydd addysg | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Therapyddion iaith a lleferydd | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Therapyddion galwedigaethol | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Staff iechyd corfforol eraill (nodwch) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Athro arbenigol sydd â chymwysterau ADY arbenigol (e.e. sy'n arbenigo mewn amhariad ar y golwg, amhariad ar y clyw, awtistiaeth) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Athrawon / athrawon cynghori neu arbenigol eraill (nodwch) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Rheolwr/arweinydd tîm/cydlynydd ADY | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog/arweinydd cynhwysiant | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog Arwain ADY y Blynyddoedd Cynnar | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog cyswllt â theuluoedd (ADY yn benodol) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Swyddog cefnogi (ADY yn benodol) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Gweithiwr pontio | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Unigolion hunangyflogedig (nodwch) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Arall (nodwch) | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| CADY | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |
| Cynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch | ☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod |

**Adran 3: Datblygiad proffesiynol ac adnoddau**

8. Pa fylchau, os o gwbl, sydd yn yr hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer staff ADY arbenigol, sy'n effeithio ar eich gallu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg digonol yn eich maes. Ystyriwch hyfforddiant gorfodol / seiliedig ar gymwysterau a hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus nad yw'n orfodol.

9. Nodwch yn y tabl isod a oes gennych fynediad at ddigon o adnoddau dysgu priodol (digidol neu nad yw'n ddigidol) yn Gymraeg yn eich ALI i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg.

| Math yr adnodd | Digon o adnoddau dysgu priodol yn Gymraeg |
|---|---|
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi <u>llythrennedd</u> | ☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod |
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi <u>rhifedd</u> | ☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod |
| Adnoddau Cymraeg i gefnogi <u>lles emosiynol</u> | ☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod |

10. Yn eich ALI, oes gennych fynediad at yr holl offer diagnostig ac asesu ADY Cymraeg sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich gofynion DDdY cyfrwng Cymraeg?

☐ Oes
☐ Nac oes
☐ Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ymateb yn fyr.

11. Pa fath o adnoddau eraill, os o gwbl, sy'n nodedig wrth alluogi neu gyfyngu'r gallu yn eich ALI i helpu dysgwyr i gael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg? (e.e. cyfleusterau, mannau dynodedig, gwasanaethau trafnidiaeth, dosbarthiadau arbenigol).

**Adran 4: Dyletswyddau deddfwriaethol ALlau o dan Ddeddf ADY a'r Cod ADY**

12. Sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn perthynas ag a oes angen DDdY cyfrwng Cymraeg gan ddysgwr? Pa ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniadau hyn mewn perthynas â CDUau a gynhelir gan ALl? Sut, os o gwbl, mae safbwyntiau rhieni a dysgwyr yn bwydo i mewn i drafodaethau?

13. Pa arweiniad neu gyngor, os o gwbl, ydych chi'n ei roi i ysgolion ar benderfynu a ddylid darparu DDdY cyfrwng Cymraeg mewn CDUau a gynhelir gan ysgolion?

14. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, os nodir mewn CDU y dylid darparu DDdY i blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg, mae'n ofynnol i ALlau gymryd pob cam rhesymol i ddarparu hyn. Pa fath o ganllawiau mewnol neu feini prawf, os unrhyw beth, a ddefnyddir i benderfynu beth yw 'camau rhesymol'?

☐ Canllawiau ffurfiol ALl neu ddogfennau polisi
☐ Dealltwriaeth anffurfiol
☐ Dim canllawiau ffurfiol neu anffurfiol ar waith ar hyn o bryd
☐ Arall (nodwch isod)
☐ Ddim yn gwybod

15. Pe bai darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn dod yn ddyletswydd absoliwt (h.y. gofyniad i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na chymryd camau rhesymol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg), pa mor ymarferol ydych chi'n teimlo y byddai hyn i'ch ALl yn y tymor canolig?

☐ Ymarferol nawr, heb unrhyw newidiadau angenrheidiol
☐ Yn debygol o fod yn ymarferol gyda rhai newidiadau (e.e. staffio, adnoddau, neu leoliadau newydd)
☐ Yn debygol o fod yn heriol iawn heb newidiadau sylweddol.
☐ Ddim yn gwybod

**Cynnal adolygiadau digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg**

16. Amlinellwch sut rydych ar hyn o bryd yn asesu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ALl, os o gwbl.

| | Amlinellwch |
|---|---|
| Pa ffynonellau data a gwybodaeth ydych chi'n eu defnyddio, os o gwbl? Nodwch os yw hyn yn cyfeirio at sector penodol (blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, ôl-16 / addysg bellach). | |
| Sut, os o gwbl, ydych chi'n ymgorffori lleisiau rhieni/gofalwyr a/neu ddysgwyr? | |
| Pa mor aml ydych chi'n gwneud yr adolygiadau hyn, os o gwbl? | |
| Oes gennych unrhyw adroddiadau neu allbynnau o'ch adolygiadau digonolrwydd y gellir eu rhannu gyda'r tîm Adolygiad Pum Mlynedd? | |
| A oes unrhyw fylchau yn y data sydd ar gael i chi sy'n cyfyngu ar eich gallu i adolygu digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ALI? | |

17. Os yn bosibl, rhowch un neu ddwy enghraifft o sut mae cynnal adolygiadau digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg wedi llywio penderfyniadau polisi neu ymarfer penodol yn eich ALI?

| |
|---|
| |

**Adran 5: Cynnydd a gyflawnwyd hyd yma**

18. Os yn bosib, nodwch un neu ddwy enghraifft o ffyrdd rydych chi'n teimlo bod y ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ALI wedi cynyddu neu wella ers gweithredu'r Ddeddf ADY.

**Diolch am eich cefnogaeth**

## Atodiad 3.2 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau ag ALlau

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i gynnal adolygiad o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Un o nodau allweddol yr adolygiad hwn fydd meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a sut y caiff ei darparu, a deall sut y mae'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf ADY 2018, a gynlluniwyd i sbarduno cynnydd tuag at system ddwyieithog, yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae ymchwilio i sut y caiff y dyletswyddau eu cymhwyso'n ymarferol a'r rhwystrau yn uniongyrchol berthnasol i'r ddealltwriaeth o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae cymryd rhan yn wirfoddol, a gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Anfonwyd hysbysiad preifatrwydd atoch pan gawsoch eich gwahodd i gymryd rhan a byddem yn fwy na pharod i rannu hwn gyda chi eto os oes angen. Ni fydd dim o'r wybodaeth a ddarparwch yn cael ei phriodoli i chi na'ch sefydliad, ac ni fyddwch yn cael eich enwi mewn unrhyw gyhoeddiadau nac adroddiadau.

Diolch am gwblhau'r profforma/*gofynnwn i chi gwblhau'r profforma*. Rydym yn siarad â phawb a wahoddwyd i gwblhau'r profforma i ddeall mwy am ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yn y gwahanol ALlau. Byddwn yn trafod amrywiaeth o bynciau yn gysylltiedig â'ch ALl yn y cyfweliad hwn, megis:

- Lefel yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a sut mae hyn yn cael ei asesu/pennu
- Y data rydych yn eu cofnodi er mwyn monitro lefel yr angen a lefel y ddarpariaeth
- Y capasiti i ddiwallu'r angen (gweithlu ac adnoddau)
- Y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg
- Sut rydych yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ALl/ardal chi

## Yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg: Cwestiynau dilynol i'r cwestiynau ar y profforma

**[Yr hwylusydd i gyfeirio at yr atebion i gwestiynau 1-2 ar y profforma]**

- **A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu neu ei egluro?**
- **A oes unrhyw fylchau neu heriau o ran darparu'r data?**

## Yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg: cwestiynau pellach

1. **Allwch chi rannu data gyda ni ar nifer a chanran y CDUau sy'n nodi bod angen DDdY cyfrwng Cymraeg? A ellir darparu hyn ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau/sectorau? (Cyn-ysgol, Cynradd prif ffrwd, Uwchradd prif ffrwd, Canolfannau Adnoddau Arbenigol, Ysgolion arbennig, Ôl-16)**

2. **Allwch chi rannu data gyda ni ynghylch a yw dysgwyr yn derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg? Beth mae'r data yn ei ddangos (h.y. a yw'r ddarpariaeth yn diwallu'r angen, ai peidio)? Fel uchod, a ellir darparu hyn yn ôl lleoliad/sector?**

3. **Os nad oes gennych ddata ynghylch a yw'r dysgwyr hyn yn derbyn DDdY cyfrwng Cymraeg, a ydych yn teimlo bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn diwallu'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg a bennir yn CDUau y dysgwyr? Beth yw sail yr asesiad hwn?**

4. **[Os yw'n berthnasol yn seiliedig ar yr ymatebion i gwestiynau blaenorol] Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw angen am DDdY cyfrwng Cymraeg nad yw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd?**
    - Prociwch: dewis rhieni heb ei fodloni, adborth gan ysgolion ar heriau, prinder lleoliadau/arbenigwyr cyfrwng Cymraeg, arosiadau hir(ach), DDdY ond yn cael ei darparu'n rhannol)
5. **Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw achosion lle mae plant yn symud o leoliadau cyfrwng Cymraeg i leoliadau cyfrwng Saesneg er mwyn cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg? (Prociwch: wrth bontio o'r blynyddoedd cynnar i'r ysgol gynradd, rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd)**
    - Enghreifftiau (dienw)
    - Ydy'r achosion hyn yn cael eu cofnodi? Sut maen nhw'n cael eu cofnodi / sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei defnyddio?
6. **Sut mae rhieni'n cael gwybodaeth am y DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'w plentyn o dan y system ADY?**
    - Ydych chi'n hyrwyddo neu'n codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth? (Prociwch: sut mae rhieni'n cael gwybod ar wahanol gyfnodau/oedrannau)
    - Gofynnwch am enghreifftiau os 'ydyn' yw'r ateb / rhesymau os 'nac ydyn' yw'r 'ateb.
    - Ydy'r rhwystrau'n cael eu cofnodi?

7. **Hwyluswyr a rhwystrau: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ffactorau sy'n helpu neu'n rhwystro mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr a theuluoedd yn eich ardal chi?**
    *(Prociwch: e.e. rhwystrau fel lleoliad y ddarpariaeth, trafnidiaeth, prinder arbenigwyr sy'n medru'r Gymraeg; hwyluswyr fel rhwydweithiau lleol cryf, hyrwyddo rhagweithiol, neu drefniadau staffio hyblyg.)*
    - Os ydynt, rhowch rai enghreifftiau / gwybodaeth bellach.

## Cynllunio / Gwneud penderfyniadau

**Eglurhad o atebion i gwestiynau 12 a 13 ar y profforma [os oes angen]**

**8. A oes unrhyw wahaniaethau yn y ffordd y gwneir penderfyniadau mewn ysgolion Cymraeg / dwyieithog / cyfrwng Saesneg?**

## Y gweithlu: cwestiynau pellach

**9. Ydych chi'n cofnodi faint o ymarferwyr ADY arbenigol sydd â'r sgiliau Cymraeg i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd**

- Os ydych, neu os ydych yn gwybod yn anecdotaidd ond heb gofnodi hynny - pam nad yw rhai ymarferwyr ADY arbenigol sydd â'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, yn darparu cymorth yn y Gymraeg?

**[Cwestiwn dilynol ar C3 ar y profforma 'Ydy'r nifer o staff ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr?]** Os 'nac ydy':

- Sut mae bylchau yn argaeledd ymarferwyr ADY arbenigol yn effeithio ar ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
- Os nad yw'n ddigonol, a yw hyn oherwydd prinder staff sydd â sgiliau Cymraeg i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg neu a oes ffactorau eraill?
    a. Prociwch: strwythurau staffio yn yr ALI, hyder, arbenigeddau ac ati?
- Ydych chi'n cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gweithlu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?

**10. Yn seiliedig ar eich profiad chi, ydy'r nifer presennol o staff y BILI sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion y dysgwyr?**

## Recriwtio a chadw: cwestiynau dilynol i'r cwestiynau ar y profforma

**<u>Cwestiynau pellach am y Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ALI</u>**

**[Cwestiynau dilynol i C7 ar y profforma mewn perthynas â meysydd lle mae ymatebwyr wedi nodi heriau recriwtio a/neu gadw staff]**

**11. A oes heriau o ran recriwtio neu gadw, neu'r ddau? Beth yw'r heriau? Sut mae hyn yn effeithio ar ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?**

**<u>Cwestiynau pellach am Staff Ysgol a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ALI</u>**

<u>CADYau</u>

**12. [Os nododd yr ymatebwyr heriau o ran recriwtio CADYau yn C7 ar y profforma] Mewn perthynas â (i) penodi CADYau (ii) cadw CADYau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg: beth sy'n gweithio'n dda? Beth yw'r heriau?**

<u>CAau/ CALUau</u>

**13. [Os nododd ymatebwyr heriau o ran recriwtio CAau/CALUau yn C7 ar y profforma] A oes digon o CAau/CALUau sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal eich ALI i gefnogi dysgwyr sydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg? Os nad oes, rhowch fanylion. Ydych chi'n meddwl ei bod yn fwy heriol penodi CAau/CALUau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg? Os ydych, pam?**

14. **Ydy hi'n fwy heriol penodi CAau/CALUau sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg na'r Saesneg? Os ydyw, beth yw'r rheswm am hynny yn eich barn chi?**

15. **[Os yn berthnasol] Pa gamau sy'n cael eu cymryd neu sydd wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw heriau recriwtio sy'n gysylltiedig â CADYau a CAau/CALUau sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg? Beth sy'n gweithio'n dda?**

## Datblygiad proffesiynol

**[Nodyn: eglurwch unrhyw broblemau o ran yr ymateb i C8 ar y profforma]**

16. **Beth yw'r hwyluswyr a'r rhwystrau i fanteisio ar hyfforddiant gorfodol a/neu anorfodol neu DPP ymhlith ymarferwyr ADY arbenigol yr ydych yn teimlo sy'n effeithio ar y gallu i ddarparu digon o DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ardal chi?**

## Adnoddau dysgu: cwestiynau pellach

17. **[Os 'nac oes' yw'r ateb i C9 ar y profforma] Allwch chi roi rhagor o fanylion am unrhyw fylchau yn yr adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael?**
    **Er enghraifft, a yw'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael yn addas neu'n briodol ar gyfer y dysgwyr y maent wedi'u bwriadu i'w cefnogi? A ydynt yn addas ar gyfer anghenion ac oedrannau'r dysgwyr y maent wedi'u bwriadu i'w cefnogi?**
18. **Ble ydych chi / ble mae lleoliadau addysgol yn cael mynediad at adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg?** E.e. HWB / platfformau eraill
    - os oes bylchau, nodwch sut y gallai'r bylchau hyn effeithio ar DDdY cyfrwng Cymraeg - a yw'r bylchau / effeithiau hyn yn fwy amlwg mewn meysydd dysgu penodol e.e. llythrennedd, rhifedd, lles emosiynol

*[Os nad yw wedi'i egluro yn yr atebion ar y profforma]*

19. **Oes gennych chi'r holl offer diagnostig ac asesu ADY Cymraeg sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich DDdY cyfrwng Cymraeg?**
    - Os nad oes, pa fath o offer nad yw ar gael a pha effaith a gaiff hyn ar DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ardal chi?

## Adnoddau ariannol

20. **Ydych chi'n credu eich bod yn cael digon o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gefnogi darparu DDdY cyfrwng Cymraeg?**
    - Os 'ydw', rhowch rai enghreifftiau o sut y defnyddiwyd y cyllid hwn i helpu dysgwyr i gael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg
    - Os 'nac ydw', amlinellwch pa effaith y mae'r diffyg cyllid hwn yn ei chael ar ddarpariaeth neu argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ardal chi.

21. **Pa wariant cyfalaf, os o gwbl, sydd wedi'i wneud dros y 3 blynedd diwethaf i wella cyfleusterau presennol a chreu darpariaeth arbenigol newydd ar gyfer dysgwyr ag ADY (e.e. drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu)?**
    - Os felly, faint o hyn sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg?
    - Sut mae cynllunio ar gyfer darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o benderfyniadau ynghylch sut mae cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu?

## Dyletswyddau deddfwriaethol ar gyfer yr ALl: cwestiynau dilynol i'r rhai ar y profforma

**22. [Cyfeiriwch at C14 ar y profforma] Os oes achosion lle roedd angen DDdY cyfrwng Cymraeg ond nad oedd modd ei darparu, rhowch fanylion pellach? Er enghraifft, pam nad oedd modd ei chynnig?**

**23. Gan gyfeirio at yr ymateb ar y profforma sy'n ymwneud â'r cwestiwn *'Pe bai darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn dod yn ddyletswydd absoliwt (h.y. gofyniad i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na chymryd camau rhesymol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg), pa mor ymarferol ydych chi'n teimlo y byddai hyn i'ch ALl yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol?'* - rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ateb. Er enghraifft, beth fyddai ei angen er mwyn i hyn fod yn ymarferol?**

## Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

**24. Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth neu ar y cyd ag ysgolion i alluogi neu gynorthwyo gyda rhannu'r canlynol (rhwng yr ALl ac ysgolion yn ogystal â rhwng ysgolion)?**

- Gwybodaeth am yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg
- Y cymorth sydd ar gael i ysgolion/lleoliadau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg (e.e. staff arbenigol, y gallu i gefnogi'r ddarpariaeth, y gallu i gefnogi'r asesiad o angen)
- Deunyddiau dysgu/ystafell ddosbarth DDdY cyfrwng Cymraeg
- Enghreifftiau o arfer da
- Ymarferwyr arbenigol sydd â'r gallu i ddarparu DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg
- Arferion gweithio partneriaeth neu gydweithredol eraill rhwng yr ALl ac ysgolion yn ogystal â rhwng ysgolion.

**25. Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth neu mewn cydweithrediad â BILlau a gweithwyr iechyd proffesiynol i:**

- Er enghraifft, rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg? Unrhyw ffyrdd eraill?

**26. Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth neu mewn cydweithrediad ag ALlau eraill i:**

- Rannu adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg?
- Rhannu ymarferwyr arbenigol sydd â'r gallu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
- Darparu DDdY cyfrwng Cymraeg mewn ALlau cyfagos a/neu dderbyn darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ALl gyda chefnogaeth ALlau cyfagos?
- Rhannu gwybodaeth am ddysgwyr y mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg arnynt a allai fod wedi symud o un ALl i un arall?
- A oes ffyrdd eraill yr ydych yn gweithio mewn partneriaeth ag ALlau eraill?

## Cynnal adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg: cwestiynau pellach

**27. Ydy'r mecanweithiau, y prosesau a'r ffynonellau gwybodaeth sydd eu hangen i gynnal yr adolygiadau hyn yn wahanol yn dibynnu ar y sector (h.y. blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, ôl-16 / AB)? Os felly, sut?**

Cwestiynau dilynol yn ymwneud â C18 ar y profforma:

28. Sut mae'r adolygiadau wedi helpu i ddeall yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg?
    Sut mae'r adolygiadau wedi helpu i ddeall y capasiti i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg? Pa heriau, diffygion neu wendidau sydd wedi'u nodi? Sut mae heriau, diffygion neu wendidau wedi cael eu datrys?

**29. Sut mae cynnal yr adolygiadau digonolrwydd hyn wedi galluogi eich ALI i gael dealltwriaeth glir o'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg? Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda**

- A oes unrhyw heriau penodol i'r ALI yn gysylltiedig â chasglu data DDdY cyfrwng Cymraeg? (e.e. systemau lleol/canolog, cadw cofnodion amrywiol)

## Cynllunio ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol

Nawr hoffem drafod yn fanylach y gwaith cynllunio ar gyfer darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

**30. Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol? Sut mae hyn yn amrywio yn ôl gwahanol sectorau a lleoliadau?**

- A oes heriau neu ansicrwydd penodol yr ydych yn eu hwynebu wrth gynllunio ar gyfer darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, o'i gymharu â DDdY cyfrwng Saesneg?

## Y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma: cwestiynau pellach

**31. Sut fyddech chi'n disgrifio'r cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf tuag at ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?**

- Sut mae'r ddarpariaeth wedi cynyddu / gwella?
- Beth fu'r hwyluswyr a'r rhwystrau i wneud cynnydd?

**32. Ar ôl ystyried yr holl bwyntiau a drafodwyd hyd yn hyn yn y cyfweliad hwn (h.y. yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg, y gallu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, y cynnydd a wnaed hyd yn hyn), a ydych yn credu bod digon o DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu yn eich ALI ar hyn o bryd i ddiwallu'r angen a nodwyd? Amlinellwch y rheswm dros eich ateb.**

**<u>Unrhyw sylwadau eraill?</u>**

Diolch am eich amser. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ar ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg gyda thîm yr Adolygiad Pum Mlynedd?

## Atodiad 3.3 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau gydag ymarferwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach

**<u>Cefndir</u>**

0.1. Allwch chi ddisgrifio eich rôl yn gryno?
0.2. Allwch ddweud ychydig wrthym am ADY yn eich ysgol/lleoliad chi? (e.e. nifer y CDUau, tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf).
0.3. Cadarnhau'r cyfrwng iaith / pa fath o addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

**<u>Adran 1: Yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg</u>**

1.1. Rhowch grynodeb o lefel yr angen presennol am DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ysgol chi, a'r DDdY yr ydych yn ei darparu ar hyn o bryd (e.e., fel y'i cofnodwyd mewn CDUau)

*Hoffem edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r ysgol ddod yn ymwybodol y gallai fod gan y dysgwr ADY - nid dim ond a ddylid cynnig DDdY cyfrwng Cymraeg, ond a ellir darparu hynny. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut olwg sydd ar 'gamau rhesymol' yn ymarferol.*

1.2. Sut mae'r ddyletswydd i ystyried a ddylid darparu DDdY yn y Gymraeg yn cael ei deall a'i chymhwyso yn eich ysgol chi?

- Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau (e.e., dewis rhieni, adnoddau staffio (mewnol/allanol), cyfrwng iaith y lleoliad)?
- Ydy'r broses yn amrywio yn ôl y math o DDdY a ddarperir neu yn ôl cam yr addysg?
- Beth mae "camau rhesymol" yn ei olygu'n ymarferol ar gyfer eich lleoliad chi? Allwch chi roi enghreifftiau o gamau a gymerwyd?
- Pa fath o ganllawiau neu feini prawf mewnol, os o gwbl, ydych chi'n eu defnyddio i benderfynu beth yw 'camau rhesymol'?

1.3. Sut mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyflwyno neu ei fframio i ddysgwyr a theuluoedd (e.e., yn ystod y broses CDU)?

- Ydych chi'n hyrwyddo neu'n codi ymwybyddiaeth o DDdY cyfrwng Cymraeg? Eglurwch.
- Pa adborth ydych chi wedi'i gael gan rieni neu ddysgwyr am DDdY cyfrwng Cymraeg?

1.4. A oes unrhyw feysydd lle na allwch ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg neu lle nad yw anghenion DDdY cyfrwng Cymraeg dysgwyr yn cael eu diwallu?

- A oes heriau penodol sy'n gysylltiedig â chefnogi rhai mathau o ADY neu gyflwyno meysydd o DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Beth sy'n digwydd os na ellir darparu DDdY cyfrwng Cymraeg? (e.e. a yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn Saesneg; neu a oes rhaid i ddysgwyr aros am gyfnod hwy i dderbyn y ddarpariaeth hon)

1.5. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw achosion lle mae dysgwyr wedi symud rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg (gan gynnwys rhwng ffrydiau mewn ysgolion dwy ffrwd) oherwydd argaeledd DDdY neu anghenion dysgu?

- A fu unrhyw achosion yn eich ysgol/lleoliad chi ble mae dysgwyr wedi symud i leoliadau cyfrwng Cymraeg neu rhwng lleoliadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at (fwy o) DDdY cyfrwng Cymraeg? Beth oedd y rhesymau?

- A fu unrhyw achosion lle y gwnaeth rhieni symud eu plentyn o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg oherwydd anghenion dysgu a/neu argaeledd DDdY? Beth oedd y rhesymau?

1.6. Sut ydych chi'n cofnodi neu'n monitro'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg yn eich ysgol/lleoliad chi a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio?

- Beth sy'n digwydd y tu hwnt i Adran 2B o CDUau, e.e. a ydych yn olrhain ceisiadau rhieni, yn olrhain angen heb ei ddiwallu; yn cyfeirio at Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn gweithio gyda lleoliadau eraill?)

1.7. A oes unrhyw achosion lle mae DDdY yn cael ei sicrhau gan gorff GIG (fel y disgrifir yn Adran 2C o'r CDU)?

- Ydy'r math yma o DDdY yn cael ei darparu yn y Gymraeg?
- Os nad yw, pam? Pa ffactorau sy'n effeithio ar a ellir darparu DDdY gan y GIG yn y Gymraeg (e.e., argaeledd therapyddion, staff arbenigol)?
- (Os na chaiff hyn ei ddarparu yn y Gymraeg) Os yw'n hysbys, pa effaith mae hyn yn ei gael ar ddysgwyr?

(Dwy ffrwd)

1.8. O'r hyn rydych chi'n ei wybod neu wedi'i weld, sut fyddech chi'n disgrifio'r DDdY sydd ar gael ac yn cael ei darparu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â DDdY mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg?

**<u>Adran 2: Adnoddau dysgu ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg</u>**

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am unrhyw adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg y mae eich lleoliad yn eu defnyddio (deunyddiau neu offer mewn unrhyw fformat, gan gynnwys print, digidol, a thechnolegau cynorthwyol sy'n cefnogi eich gwaith gyda dysgwyr ag ADY.)

Ar draws y meysydd canlynol

a. llythrennedd
b. rhifedd
c. llesiant emosiynol
d. Arall (nodwch)? ...

2.1. Yn eich profiad chi, a oes digon o adnoddau ar gael yn y Gymraeg i gefnogi dysgwyr?

- A oes gennych fynediad at ddigon o adnoddau Cymraeg i'ch galluogi i ddarparu DDdY sy'n diwallu anghenion dysgwyr?)

2.2. Os nad ydynt yn ddigonol, beth yw'r prif fylchau/heriau (os o gwbl) o ran adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg?

- Ydy'r rhain yn gysylltiedig â mathau penodol o ADY? (e.e., braille ar gyfer dysgwyr ag amhariad ar eu golwg)?
- Sut ydych chi'n ymdrin â'r bylchau hyn? Sut ydych chi'n meddwl bod hyn yn effeithio ar ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg neu'n effeithio ar ddysgwyr?
- Ydych chi wedi gorfod creu eich adnoddau eich hun, neu addasu neu gyfieithu adnoddau Saesneg i'r Gymraeg er mwyn diwallu anghenion dysgwyr?

2.3. Ydy'r offer diagnostig a'r adnoddau asesu sydd eu hangen arnoch ar gael i chi yn y Gymraeg?

[Cwestiynau i Staff Addysgu a Staff Cymorth]

2.4. Pa adnoddau ydych chi'n eu defnyddio o ddydd i ddydd ar gyfer darparu DDdY yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog?

2.5. Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth ddarparu DDdY yn y Gymraeg?

2.6. Pa hyfforddiant neu gymorth fyddai'n eich helpu i wella'r ddarpariaeth?

2.7. A oes unrhyw fylchau mewn adnoddau, hyfforddiant, canllawiau neu gymorth?

[Dwy ffrwd]

2.8. Sut mae adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg yn cymharu ag adnoddau DDdY cyfrwng Saesneg o ran ansawdd, amrywiaeth ac addasrwydd?

- Os nad oes modd eu cymharu, pa wahaniaethau ydych chi wedi'u gweld?

2.9. Ydych chi wedi gweithio ar y cyd (gyda'r ALI, ysgolion/lleoliadau eraill) i rannu gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi'r ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?

## Adran 3: Adnoddau eraill

3.1. Ydy'r adnoddau ariannol sydd ar gael i chi yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr y mae angen DDdY arnynt?

- A oes unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â chyllid sy'n effeithio ar eich gallu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg? (Er enghraifft, costau ychwanegol neu gostau gwahanol ar gyfer staffio, adnoddau, hyfforddiant, neu gymorth arbenigol?)

3.2. Ydy'r gofod ffisegol y gallwch ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn addas ac yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr y mae angen DDdY arnynt? Pam neu pam ddim?

## Adran 4: Y gweithlu

4.1. A oes gennych ddigon o gapasiti o fewn eich gweithlu ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion dysgwyr / darparu digon o DDdY cyfrwng Cymraeg?

- Ydy hyn yn amrywio ar draws rolau (athrawon, CAau, CADYau)?

4.2. A oes unrhyw heriau'n gysylltiedig â phenodi, recriwtio a chadw staff arbenigol ADY sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg (CADYau/CAau/CALUau)?

- [Os oes] Sut mae unrhyw un o'r heriau hyn wedi effeithio ar ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
- [Os oes] Ydy'r heriau hyn yn gysylltiedig â sgiliau Cymraeg staff arbenigol, eu harbenigedd mewn ADY, neu'r ddau?
- [Os nad oes] Beth ydych chi'n ei ystyried sy'n gweithio'n dda o ran penodi, recriwtio a chadw staff arbenigol ADY?
- [Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg] A oes unrhyw DDdY yn cael ei darparu gan staff nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg? Os felly, sut mae hyn yn cael ei reoli?

4.3. Ydych chi'n cael cymorth gan weithwyr proffesiynol allanol (e.e. seicolegwyr addysg, therapyddion, gweithwyr iechyd proffesiynol, tîm ADY yr ALI) a all ddarparu DDdY yn y Gymraeg?

- Os nad ydych / Os oes bylchau, sut mae hyn yn effeithio ar ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?
- Sut ydych chi wedi ymdrin â'r bylchau hyn?
- Os oes cymorth ar gael, sut mae'n helpu i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?

## Adran 5: Datblygiad proffesiynol

5.1. Pa fathau o gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol i DDdY cyfrwng Cymraeg y mae staff wedi cymryd rhan ynddynt?
- A oes unrhyw heriau o ran cael mynediad at y rhain (e.e. argaeledd, cost, perthnasedd)? Os felly, beth yw'r effaith ar ddysgwyr?

## Adran 6: Y cynnydd hyd yma ac edrych i'r dyfodol

6.1. Sut fyddech chi'n disgrifio'r cynnydd mewn DDdY cyfrwng Cymraeg ers cyflwyno'r broses o ddiwygio ADY?
- Pa welliannau, rhwystrau a hwyluswyr a welwyd?

6.2. Pe bai darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn dod yn ddyletswydd absoliwt (h.y. gofyniad i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na chymryd camau rhesymol i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg), pa mor ymarferol ydych chi'n teimlo y byddai hyn i'ch ysgol/lleoliad chi dros y tymor canolig.

## Adran 7: Y system ehangach

7.1. Beth fu eich profiadau o bontio rhwng lleoliadau ar gyfer dysgwyr sydd angen DDdY cyfrwng Cymraeg (cynradd i uwchradd, prif ffrwd i AHY, uwchradd i addysg bellach) o ran DDdY cyfrwng Cymraeg?
- Sut oedd parhad y cymorth
- A oedd DDdY priodol cyfrwng Cymraeg ar gael yn y lleoliad blaenorol / nesaf?

7.2. Ydych chi wedi cael profiad o unrhyw apeliadau, anghydfodau neu heriau'n gysylltiedig â darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?

## Adran 8: Sylwadau i gloi

8.1. A oes gennych unrhyw enghreifftiau o arferion da; pa effaith a gawsant? (Er enghraifft: ffyrdd o weithio, partneriaethau ag eraill, cyfathrebu da â theuluoedd, rhannu adnoddau neu staff, neu unrhyw beth arall a weithiodd yn dda yn eich barn chi.)

8.2. I gloi, hoffwn ddychwelyd at ffocws canolog yr adolygiad hwn - digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg. Yn eich barn chi, a oes digon o DDdY cyfrwng Cymraeg (i) yn eich ysgol a (ii) yn ehangach ar draws gwahanol fathau o leoliadau ledled Cymru (e.e., drwy eich profiad blaenorol, cysylltiadau clwstwr, neu rwydweithiau CADYau)?

Diolch am eich amser a'ch mewnbwn. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

## Atodiad 3.4 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau â dysgwyr

**Cyflwyniad**

- Cyflwyno eich hun. Esbonio/Crynhoi'r sy'n sydd ar y daflen wybodaeth:
- Rydyn ni eisiau gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl o'r cymorth maen nhw'n ei gael yn yr ysgol/coleg i'w helpu i ddysgu.
- Yn ystod y sesiwn, hoffem ofyn rhai cwestiynau i chi yn eich ysgol/coleg am y cymorth rydych chi'n ei chael i ddysgu.
    - Bydd hyn yn cymryd tua [ ] munud [addaswch yn ôl yr angen].
    - Does dim atebion cywir nac anghywir, rydyn ni ond eisiau clywed eich barn.
    - Os nad oes unrhyw beth yn glir, dywedwch wrthym
    - Eglurwch, os oes angen seibiant ar unrhyw un y gellir gofyn am hynny ar unrhyw adeg
- Byddwn yn ysgrifennu nodiadau yn seiliedig ar yr hyn y byddwch chi'n ei ddweud wrthym, a byddwn yn defnyddio'r rhain i'n helpu i ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru.
    - Ni fyddwn yn dweud pwy ddywedodd beth ac ni fyddwn yn cynnwys unrhyw enwau.
    - Ni fyddwn yn dweud wrth bobl eraill beth rydych chi wedi'i ddweud wrthym.

- Gofynnwch i ni neu i'ch athro/gweithiwr cymorth os oes gennych unrhyw gwestiynau.

**Torri'r iâ:** Gadewch i ni ddechrau drwy ddewis cerdyn sy'n dangos sut rydych chi'n teimlo am yr ysgol / coleg heddiw. Dewiswch un sy'n dangos sut rydych chi'n teimlo a dywedwch wrthyf pam, os ydych chi eisiau. Fe af i gyntaf…(Yr hwylusydd i ddewis cerdyn o'r pecyn cardiau wynebau hapus.)

**Dechrau'r Drafodaeth - Dangos / darllen cardiau gyda phob un o'r datganiadau canlynol arnynt**

1. **Rwy'n cael yr holl help sydd ei angen arnaf yn yr ysgol**

**[Ydw/Nac ydw]**
Prociwch:
Pa gymorth ydych chi'n ei gael / pam ddim?
Allwch chi roi enghraifft, e.e. 'allwch chi ddweud wrtha i am amser pan oedd angen help arnoch chi…'

2. **Rwy'n cael fy holl addysg yn y Gymraeg**

**[Ydw/Nac ydw]**
Prociwch:
Os nad ydych, pam?
Ydy gallu dysgu yn y Gymraeg yn bwysig i chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
Os nad ydych chi'n cael eich addysg yn y Gymraeg, hoffech chi gael hynny?

3. **Rwy'n hoffi gallu dysgu yn y Gymraeg**

**[Ydw/Nac ydw]**
Prociwch:
Pam/pam ddim.
Ydy hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch addysg? Sut?
Sut ydych chi'n dysgu orau - yn y Gymraeg, y Saesneg, neu'r ddwy iaith? Pam?

4. **Mae athrawon/gweithwyr cymorth yn siarad â mi yn y Gymraeg pan maen nhw'n fy helpu yn yr ysgol**

**[Ydyn/Nac ydyn]**
Prociwch:
[Os Ydw] Ydy hyn yn eich helpu gyda'ch dysgu? Sut?

Ydy rhai athrawon/ gweithwyr cymorth yn defnyddio eu Cymraeg yn fwy nag eraill i'ch helpu chi?
Allwch chi ofyn am fwy o gymorth yn Gymraeg os ydych chi ei eisiau?
[Os na] Hoffech chi i'r athrawon ddefnyddio mwy o Gymraeg pan fyddan nhw'n eich helpu?

5. **Pan gafodd eich cynllun dysgu (CDU) ei greu, wnaeth unrhyw un ofyn i chi a oeddech chi eisiau cefnogaeth yn y Gymraeg?**
   **[Do/Naddo]**

Prociwch:
Pan gafodd eich cynllun dysgu (CDU) ei lunio, aethoch chi i gyfarfod i'w drafod? Gawsoch chi gyfle i ddweud beth oeddech chi ei eisiau?
Oeddech chi'n hapus bod rhywun wedi gofyn i chi, ydy hyn yn bwysig i chi?
Wnaeth unrhyw un egluro eich dewisiadau o ran cael cymorth yn y Gymraeg a'r Saesneg?"
Ydych chi'n teimlo bod pobl yn gwrando arnoch chi pan fydd cynlluniau'n cael eu gwneud am eich addysg?

6. **Os oes angen help arall arnoch chi (fel therapi lleferydd), ydy hynny'n cael ei ddarparu yn y Gymraeg?**

Hwylusydd i ymhelaethu: Gallai cymorth arall gynnwys defnyddio gliniadur neu raglen arbennig, amser mewn ystafell dawel, gwersi ychwanegol gydag athro arall, neu [enghreifftiau yn seiliedig ar sgwrs cyn y cyfweliad gyda'r CADY]
**[Ydy/Nac ydy]**
Prociwch:
Ydy cael y cymorth hwnnw yn y Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth i chi? Sut?
Os nad yw'r cymorth hwnnw yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg, hoffech chi hynny?
Oes unrhyw gymorth arall yr hoffech chi ei gael yn y Gymraeg?

**Cloi'r sesiwn a diolch**

Pe gallech chi newid rhywbeth am y cymorth rydych chi'n ei gael i ddysgu, beth fyddai hynny?
Pe gallech chi newid rhywbeth am y cymorth rydych chi'n ei gael i ddysgu - yn enwedig yr iaith sy'n cael ei defnyddio neu beth sydd ar gael yn y Gymraeg - beth fyddai hynny?

**Atodiad 3.5 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau gyda rhieni**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i gynnal adolygiad o ddigonolrwydd Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) cyfrwng Cymraeg.

Un o amcanion y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yw sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.

Mae'r gyfraith (a elwir yn Ddeddf ADY) yn dweud bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wirio a oes digon o DDdY ar gael yn y Gymraeg.

Rydym yn holi rhieni a gofalwyr am eu profiadau o gael cymorth i'w plant yn y Gymraeg. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall a yw'r system ADY ddwyieithog yn gweithio'n ymarferol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae cymryd rhan yn yr asesiad yn wirfoddol a gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Anfonwyd hysbysiad preifatrwydd atoch pan gawsoch eich gwahodd i gymryd rhan a byddem yn fwy na pharod i rannu hwn gyda chi eto os oes angen. Ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch i'r adolygiad yn cael ei phriodoli i chi, eich plentyn, nac ysgol/lleoliad eich plentyn, ac ni fyddwch yn cael eich enwi mewn unrhyw gyhoeddiadau nac adroddiadau.

Cyflwyniad a chefndir

1. Allech chi ddweud wrthym am eich plentyn, ei ADY a'r DDdY y mae'n ei derbyn ar hyn o bryd? [**Nodyn**: mewn ysgolion dwyieithog/dwy ffrwd gwiriwch faint o addysg a dderbynnir yn y Gymraeg ar hyn o bryd]

2. Ydych chi'n gwybod pwy sy'n gyfrifol am CDU eich plentyn (h.y. yr ysgol, yr ALl)?

Prosesau i nodi a oes angen DDdY yn y Gymraeg

3. A oes angen DDdY ar eich plentyn yn y Gymraeg ac os felly, a yw hyn wedi'i nodi yn y CDU?
    - Pa elfennau o DDdY, os o gwbl, sydd i'w darparu yn y Gymraeg?
    - Pa elfennau o DDdY, os o gwbl, sydd i'w darparu yn y Saesneg?
    - [**Nodyn**: Os yw'n berthnasol] Allwch chi esbonio pam mae rhywfaint o DDdY yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg a rhywfaint yn Saesneg?

4. [**Nodyn**: diwygiwch y derminoleg/eglurwch dermau os oes angen ar ôl gwirio gyda'r rhai sy'n cael eu cyfweld] Sut y penderfynwyd ar y DDdY cyfrwng Cymraeg yn CDU eich plentyn? e.e., oeddech chi'n rhan o drafodaethau gyda'r ysgol am hyn, efallai yn y cyfarfod CDU/cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?
    - Wnaethoch chi ofyn am DDdY yn y Gymraeg? Neu a oedd yr ysgol yn cynnig/cynnwys DDdY cyfrwng Cymraeg yn y CDU yn awtomatig?
    - Wnaethoch chi ofyn am gymryd rhan mewn prosesau sy'n ymwneud ag ADY eich plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg? (e.e. CDU Cymraeg, cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Gymraeg). Os do, a gafodd hyn ei ddarparu?
    - Oeddech chi'n teimlo bod eich dymuniadau wedi cael eu hystyried?

5. Ydych chi'n gwybod a yw eich plentyn yn derbyn cymorth ychwanegol yn y Gymraeg nad yw'n DDdY ac felly nad yw wedi'i gynnwys yn ei CDU?
   - Os felly, sut y nodwyd bod angen y cymorth hwn ar eich plentyn? A ofynnwyd i chi am y cymorth hwn?

<u>Barn am y DDdY cyfrwng Cymraeg a dderbyniwyd</u>

6. [**Nodyn**: yn cyfeirio at C3] Fe wnaethoch ddweud wrthym o'r blaen am y DDdY sydd wedi'i chynnwys yn CDU eich plentyn. Ydych chi'n gwybod a yw eich plentyn yn derbyn yr holl DDdY hon?
   - Ydych chi'n gwybod a yw hyn yn amrywio yn ôl iaith, h.y. nid yw rhai elfennau o'r DDdY Cymraeg ar y CDU yn cael eu darparu, neu maent yn cael eu darparu yn Saesneg?

7. Ydych chi'n fodlon ar y DDdY y mae eich plentyn yn ei derbyn yn y Gymraeg? [**Noder:** Prociwch mewn perthynas â'r *swm* o DDdY, *ansawdd* y DDdY, ac a yw dysgwyr yn gallu derbyn cymorth yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi]

   - **[Os yn fodlon]** Beth ydych chi wedi bod yn arbennig o fodlon ag ef, allech chi roi rhai enghreifftiau i ni?

   - **[Os yn anfodlon/rhannol fodlon]** Fe wnaethoch chi ddweud nad ydych yn fodlon ar y DDdY mae eich plentyn ei dderbyn yn y Gymraeg. Allech chi esbonio ychydig mwy am eich rhesymau dros hyn?

     - Er enghraifft, nid yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn hygyrch/ar gael, mae ansawdd DDdY cyfrwng Cymraeg yn anfoddhaol, nid oes digon o adnoddau i gefnogi DDdY yn y Gymraeg ac ati.

   - **[I bawb]** Pa effaith ydych chi'n credu y mae hyn yn ei chael ar eich plentyn a'i addysg? Pa mor bwysig yw hyn i chi fel rhiant / gofalwr?

<u>Ymwybyddiaeth</u>

8. Ydych chi'n gwybod y gallwch chi ofyn am DDdY cyfrwng Cymraeg?
   - Os ydych, pryd gawsoch chi wybod am hyn, a chan bwy? (e.e. ysgol, awdurdod lleol, rhieni eraill)

<u>Anghydfodau</u>

9. Ydych chi wedi cael unrhyw anawsterau o ran cael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg? Os do, rhowch fanylion pellach.
   - Ydych chi wedi herio / anghytuno ag unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â darparu DDdY cyfrwng Cymraeg? Os do, a gafodd y broblem ei datrys a sut?

<u>Bylchau</u>

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fylchau neu oedi'n ymwneud â DDdY cyfrwng Cymraeg sydd wedi effeithio ar eich plentyn? Os felly, allech chi roi enghreifftiau?
    - Er enghraifft, argaeledd adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg, prinder athrawon Cymraeg medrus neu staff cymorth i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?

- Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw broblemau gyda phrydlondeb darparu DDdY cyfrwng Cymraeg, er enghraifft oedi yn y ddarpariaeth o'i gymharu â phe bai'r DDdY wedi'i chyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg?

11. [**Noder:** Os oes bylchau] Pa effaith ydych chi'n teimlo y mae'r bylchau hyn wedi'i chael ar eich plentyn a'i addysg?

12. [**Nodyn**: Os oes bylchau] A yw'r bylchau hyn wedi gwneud i chi benderfynu peidio â gofyn am DDdY yn y Gymraeg i'ch plentyn?

13. A oes unrhyw un erioed wedi awgrymu i chi y dylech ofyn am DDdY yn Saesneg, yn hytrach nag DDdY cyfrwng Cymraeg? Os oes, allech chi roi manylion i ni am hyn?

<u>Cyfnodau pontio</u>

14. Ydy eich plentyn wedi symud rhwng lleoliadau? Os ydyw, rhowch fanylion (e.e. cynradd-uwchradd, prif ffrwd-arbennig, cyfrwng Cymraeg i gyfrwng Saesneg)
    - Wnaeth y newid effeithio ar y DDdY cyfrwng Cymraeg oedd ar gael (neu ar barhad y ddarpariaeth honno)? Os do, rhowch fanylion

<u>Arall</u>

15. Un o'r bwriadau y tu ôl i newidiadau i'r system ADY yw sicrhau cydraddoldeb rhwng prosesau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg a'r cymorth i ddysgwyr ag ADY. Fel rhiant, pa mor bwysig yw hyn yn eich barn chi? Yn seiliedig ar eich profiadau, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod cydraddoldeb?

<u>Unrhyw sylwadau eraill</u>

16. Diolch i chi am gymryd yr amser i siarad â ni, a oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu?

**Atodiad 3.6 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau gyda phartneriaid - SACDAau**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i gynnal adolygiad o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Un o nodau allweddol yr adolygiad hwn fydd meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a sut y caiff ei darparu, a deall sut mae'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf ADY 2018, a gynlluniwyd i sbarduno cynnydd tuag at system ddwyieithog, yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae archwilio sut y caiff y dyletswyddau hyn eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys unrhyw hwyluswyr neu rwystrau, yn uniongyrchol berthnasol i'r ddealltwriaeth o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae cymryd rhan yn yr asesiad yn wirfoddol a gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Anfonwyd hysbysiad preifatrwydd atoch pan gawsoch eich gwahodd i gymryd rhan a byddem yn fwy na pharod i rannu hwn gyda chi eto os oes angen. Ni fydd dim o'r wybodaeth a ddarparwch i'r adolygiad yn cael ei phriodoli i chi, ac ni fyddwch yn cael eich enwi mewn unrhyw gyhoeddiadau nac adroddiadau.

**Cefndir**

1. Cadarnhewch pa BILlau rydych chi'n eu cwmpasu yn rhinwedd eich swydd.

**DDdY wedi'i sicrhau gan BILlau (gofynnwch y cwestiynau canlynol ar wahân ar gyfer pob BILl a gwmpesir gan y SACDA sy'n cael ei gyfweld)**

2. Pa DDdY a ddarperir gan eich BILl (neu BILlau os yw'n cwmpasu mwy nag un)? Rhowch rai enghreifftiau yn unig a syniad o ba adrannau sy'n darparu DDdY
3. O'r DDdY sy'n cael ei sicrhau gan y BILlau, beth sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg?
4. Sut ydych chi'n dehongli/diffinio DDdY cyfrwng Cymraeg a sicrheir gan BILlau? Prociwch: A yw DDdY cyfrwng Cymraeg yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddir gan y staff sy'n ei darparu - ac os felly, a oes angen i'r ddarpariaeth fod yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, neu'n rhannol yn y Gymraeg? Neu a yw hefyd yn cynnwys ffactorau eraill, fel iaith yr asesiad, iaith yr adnoddau a ddefnyddir, neu rywbeth arall?)
5. I ba raddau y ceir dehongliad cyson o DDdY cyfrwng Cymraeg mewn BILlau ac ar draws y system yn ehangach?

**Atgyfeiriadau**

6. A oes gennych unrhyw wybodaeth am nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer DDdY cyfrwng Cymraeg o dan adran 20 o Ddeddf ADY?
7. A oes gennych wybodaeth am nifer yr atgyfeiriadau o dan adran 20 o Ddeddf ADY o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog/dwy ffrwd?
8. Os nad oes data ar gael, faint o angen ydych chi'n ei weld am DDdY cyfrwng Cymraeg a sicrheir gan y BILl(au) a faint sy'n cael ei darparu?

9. A oes dangosyddion perfformiad allweddol cyfredol / drafft yn ymwneud â DDdY a DDdY cyfrwng Cymraeg? (Hwylusydd: cyfeiriwch at y prosiect ynghylch datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer DDdY a ddarperir gan gyrff y GIG)

**Gweithredu Dyletswyddau**

10. Sut mae'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu DDdY yn y Gymraeg yn cael ei gweithredu gan y BILI?
11. A oes unrhyw ganllawiau neu feini prawf mewnol (i) o fewn eich BILI (ii) ar draws BILI a ddefnyddir i benderfynu beth yw 'camau rhesymol'?
12. I ba raddau y ceir dehongliad cyson o'r diffiniad o 'gamau rhesymol' ar draws BILlau?

**Darparu DDdY**

13. A oes gennych ddigon o adnoddau i ddiwallu'r angen am DDdY cyfrwng Cymraeg?
    - Prociwch: A oes digon o adnoddau yn y meysydd/arbenigeddau a grybwyllwyd gennych yng nghwestiwn 2 (timau sy'n ymwneud â darparu DDdY). Os nad oes, ym mha feysydd y mae bylchau o ran staff arbenigol ADY i gefnogi'r ddarpariaeth o DDdY cyfrwng Cymraeg? Beth yw'r effaith ar DDdY cyfrwng Cymraeg?
    - Prociwch - Yn ogystal â staff sy'n darparu DDdY yn uniongyrchol, a oes gan y timau sy'n cefnogi'r broses ddigon o adnoddau (e.e., cysylltu ag ysgolion, cynghori ar CDUau, neu ddarparu mewnbwn arall)?
14. Yn eich BILI(au), a oes gennych fynediad at yr holl offer diagnostig ac asesu ADY Cymraeg sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich gofynion DDdY cyfrwng Cymraeg? Os nad oes, beth yw'r effaith ar ddarpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?
15. Ydych chi'n casglu data am eich gweithlu a'u sgiliau Cymraeg? (Eglurwch sut, pa ddata, pa mor aml y cânt eu casglu a sut y cânt eu defnyddio) Prociwch:
    a. Data am staff sydd â'r sgiliau i ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
    b. Data ar staff sy'n darparu DDdY cyfrwng Cymraeg?
16. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ymarferwyr ADY arbenigol sydd â'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i ddarparu ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd?
17. Pa staff arbenigol ADY (os o gwbl) sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n arbennig o anodd eu recriwtio a/neu eu cadw?

**Heriau**

18. A oes unrhyw heriau penodol yn wynebu eich BILlau o ran sicrhau DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr? (Prociwch: e.e. argaeledd darpariaeth/sgiliau Cymraeg - prinder arbenigwyr sy'n medru'r Gymraeg a/neu broblemau'n ymwneud â chapasiti; adnoddau ariannol; bylchau mewn hyfforddiant; adnoddau dysgu priodol - digidol neu nad ydynt yn ddigidol; cyfleusterau; mannau dynodedig; gwasanaethau trafnidiaeth; dosbarthiadau arbenigol.)
    a. Os ydynt, rhowch rai enghreifftiau / gwybodaeth bellach.
19. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ffactorau sy'n helpu BILI i sicrhau DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg? (Prociwch: e.e. trefniadau staffio hyblyg, hyfforddiant, adnoddau, cyfleusterau, mannau dynodedig, gwasanaethau trafnidiaeth, dosbarthiadau arbenigol)

b. Os ydynt, rhowch rai enghreifftiau / gwybodaeth bellach.

20. A oes unrhyw gostau ychwanegol i BILlau sy'n gysylltiedig â sicrhau DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg.
21. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw angen heb ei ddiwallu am DDdY iechyd cyfrwng Cymraeg? (Prociwch: dewis y rhiant heb ei fodloni, prinder arbenigwyr cyfrwng Cymraeg, arosiadau hir(ach), dim ond darpariaeth DDdY rannol.)

**Atodiad 3.7 Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau gyda rhanddeiliaid**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i gynnal adolygiad o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Un o nodau allweddol yr adolygiad hwn fydd meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r DDdY cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a sut y caiff ei darparu, a deall sut mae'r darpariaethau a amlinellir yn Neddf ADY 2018, a gynlluniwyd i sbarduno cynnydd tuag at system ddwyieithog, yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae ymchwilio i sut y caiff y dyletswyddau eu cymhwyso'n ymarferol a'r rhwystrau yn uniongyrchol berthnasol i'r ddealltwriaeth o ddigonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am gymryd rhan yn yr ymchwil. Mae cymryd rhan yn yr asesiad yn wirfoddol a gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Anfonwyd hysbysiad preifatrwydd atoch pan gawsoch eich gwahodd i gymryd rhan a byddem yn fwy na pharod i rannu hwn gyda chi eto os oes angen. Ni fydd dim o'r wybodaeth a ddarparwch i'r adolygiad yn cael ei phriodoli i chi na'ch sefydliad, ac ni fyddwch yn cael eich enwi mewn unrhyw gyhoeddiadau nac adroddiadau.

**Cefndir**

Rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau.

1. Ydy eich sefydliad yn ymgysylltu â'r system ADY a DDdY cyfrwng Cymraeg? (Prociwch: cynghori, monitro, cefnogi teuluoedd etc). Sut?

**Dehongliad o DDdY cyfrwng Cymraeg**

2. Beth yw eich dealltwriaeth o'r hyn y mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn ei olygu?
3. I ba raddau ydych chi'n credu bod dehongliad cyson ar draws cyrff ac ymarferwyr o'r diffiniad o DDdY cyfrwng Cymraeg?

**Digonolrwydd**

4. Beth yw eich dealltwriaeth o'r lefel bresennol o angen a darpariaeth DDdY cyfrwng Cymraeg?
    a. I ba raddau ydych chi'n credu bod DDdY cyfrwng Cymraeg yn ddigonol? (Ydy eich ateb yn seiliedig ar ddata, adborth gan rieni, tystiolaeth anecdotaidd etc?)
5. I ba raddau ydych chi'n credu bod capasiti ymhlith y gweithlu yng Nghymru (ymarferwyr mewn lleoliadau addysg, ALlau, Byrddau Iechyd Lleol) i ddarparu digon o DDdY cyfrwng Cymraeg?
6. A oes meysydd / adnoddau / ffyrdd penodol o weithio etc lle mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn arbennig o gryf?

    a. A oes gennych unrhyw dystiolaeth/enghreifftiau arfer da o ymyrraeth i gefnogi DDdY cyfrwng Cymraeg?

**Rhwystrau/bylchau**

7. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rwystrau i gael mynediad at DDdY cyfrwng Cymraeg y mae dysgwyr a theuluoedd yn eu hwynebu?
    a. Os felly, beth yw'r rhwystrau hyn?
    b. A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau?
8. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fylchau mewn DDdY cyfrwng Cymraeg? (Er enghraifft: prinder adnoddau, capasiti'r gweithlu, arbenigedd)

**Gweithredu Dyletswyddau**

9. Pa mor dda ydych chi'n credu bod ysgolion, ALlau, SABau a chyrff iechyd yn cyflawni'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu DDdY yn y Gymraeg?
10. Beth yw'r prif heriau neu rwystrau i gyflawni'r ddyletswydd hon yn eich barn chi?
11. Yn eich barn chi, beth ddylid ei ystyried yn “rhesymol” o ran darparu DDdY yn y Gymraeg?
12. Ydych chi'n credu bod cynlluniau strategol cyfredol (e.e. Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg neu adolygiadau eraill) gan ALlau yn cofnodi / mynd i'r afael yn ddigonol â'r DDdY cyfrwng Cymraeg cyfredol?
13. Gan feddwl am y system ehangach, a oes unrhyw broblemau neu heriau o ran sut mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio a'i dylunio ar gyfer y dyfodol?

**Ymgysylltu â theuluoedd**

(Os yw'r rhai sy'n cael eu cyfweld yn dod i gysylltiad â rhieni / os nad yw wedi'i drafod eisoes)

14. Yn seiliedig ar eich ymgysylltiad â rhieni a/neu ddysgwyr, pa mor dda y mae DDdY cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfleu neu ei chynnig?
    a. Ydych chi'n meddwl bod teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau o ran DDdY cyfrwng Cymraeg?
    b. Sut maen nhw'n cael eu gwneud yn ymwybodol o hynny (Prociwch - gan weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi rhieni plant cyn oed ysgol; yn ystod cyfarfodydd CDU?)

15. Pa adborth ydych chi wedi'i gael gan deuluoedd neu ddysgwyr am eu profiadau gyda DDdY cyfrwng Cymraeg?